

ECO'R WYDDFA

Rhif 62

Medi 1981

Pris 15c.

LLONGYFARCHIADAU



ENNILL YN Y GENEDLAETHOL – Ar Awst 1, roedd y Seindorf yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Machynlleth. Daethant yn gyntaf yn Adran D allan o 9 o fandiau gyda beirniadaeth ganmoladwy iawn. Ar y ffordd adref gwahoddwyd hwy i chwarae ar sgwâr Dolgellau a chawsant groeso mawr yno. Llongyfarchiadau cynnes iawn iddynt.

GŴYL I'R IFANC – A'R IFANC EI YSBRYD

Eleni, am y tro cyntaf ers blyneddau lawer cynhelir Gŵyl Werin y Gymdeithas Ddawns Werin yn y gogledd 'ma. Eisoes bu Mr Idwal Williams o Lanrug gyda chymorth pwyllgor lleol o Gaernarfon a chylch yr Eco yn brysus yn trefnu llu o weithgareddau – rhywbeth at ddant pob un.

Cynhelir yr Ŵyl yng Nghaernarfon ar yr ail a'r trydydd o fis Hydref.

Nos Wener yr ail o Hydref cynhelir noson o Gawl a Chân yng nghwmni Dafydd Iwan a Pharti Eryri. Ceir gweithgareddau drwy gydol y Sadwrn, gydag hyfforddiant mewn dawnsio gwerin i bawb, o bob oed a safon yn y bore. Bydd Eisteddfod Dafarn yn y prynhawn a chyngerdd gyda'r nos gyda Plethyn a llu o artistiaid eraill. Bydd gostyngiad o £1 i blant dan 15 oed sy'n dod i'r cyngerdd gyda'u rhieni.

Arwel Jones o Lanrug fydd yn arwain y cyngerdd ac yno cewch

glywed y côr gwerin, Clychau'r Grug, eto o fro'r Eco yn canu. Mae nifer o aelodau o barti dawns aelwyd Caernarfon hefyd yn byw neu'n gweithio yn Llanrug.

Gorffennir yr Ŵyl gyda Thwmpath Dawns a lluniaeth.

Yn ogystal â'r gweithgareddau ffurfiol bydd timau o ddawnsiwr yn ymweld â phentrefi bro'r Eco ar y prynhawn Sadwrn. Gobeithir dawnsio yn Llanrug, Cwm-y-glo, Llanberis, Cacathro, Bethel, Waunfawr yn ogystal ag ym Mangor, strydoedd Caernarfon ac yn y Castell.



ACHLYSUR HANESYDDOL YN NEINIOLEN



Roedd prynhawn Gwener, Gorffennaf 24, yn ddiwrnod pwysig iawn yn Neiniolen. Cynhaliwyd cyfarfod yn y pentref o dan nawdd Cymdeithas Tai Gwynedd y tu allan i 8 Tai Gweledfa. Dyma hen gartref y diweddar H.R. Jones, ysgrifennydd cyntaf Plaid Cymru. Prynwyd y tŷ gan y Gymdeithas yn ddiweddar, ac yn awr, ar ôl gwaith ehangu ac adnewyddu gan weithwyr Tai Gwynedd mae'r tenantiaid newydd, Mr a Mrs Ieuan Morris, yn barod i ddechrau eu bywyd priodasol yn y tŷ.

Gosodwyd llechfaen ar y tŷ gan Gymdeithas Tai Gwynedd i nodi'r ffaith mai hwn oedd cartref H.R. Jones.

Roedd Miss Eleanor Jones, 3 Tai Marian, Deiniolen (chwaer H.R. Jones) yn bresennol yn y cyfarfod i ddadorchuddio'r llechfaen. Yn bresennol hefyd oedd Aelod Seneddol Arfon, Mr

Dafydd Wigley. Dafydd Iwan, Trefnydd Cymdeithas Tai Gwynedd, oedd yn gyfrifol am drefniadau'r cyfarfod. Yn ystod y prynhawn darllenwyd sawl neges oddi wrth rai a oedd wedi methu a bod yn bresennol yn y cyfarfod. Dyma neges Dafydd Williams, Ysgrifennydd Cyffredinol presennol y Blaid:

"Cyfarchion i bawb yn Neiniolen ar achlysur pwysig o gofio'r arloeswr mawr H.R. Jones, y cyntaf i ddal y swydd yr wyf fi'n cael y fraind o'i llenwi heddiw; gyda phob dymuniad da i'r teulu a fydd yn cartrefu yn y tŷ, oddi wrth bawb yn Swyddfa Plaid Cymru, Caerdydd."

Cafwyd neges arall oddi wrth Mrs J.E. Jones (gweddwr diweddar J.E. Jones – y dyn a ddilynodd H.R. i swydd Ysgrifennydd y Blaid. Un arall i anfon neges oedd y Cyngorydd Dafydd Orwig, Bethesda, oedd â chysylltiad personol â'r tŷ wrth gwrs.

CYSTADLEUAETH I'R FRO

Bydd cystadleuaeth arbennig ar gyfer bro Eco'r Wyddfa yn adran gerdd Eisteddfod Gadeiriol Llanrug eleni, sef Wythawd – Bwrw dy Faich o Ganiedydd yr Annibynwyr. Gan fod cymaint yn gweld angen am Eisteddfod Bro'r Eco gobeithia'r trefnwyr y ceir ymateb da i'r arbrawf hwn.

Cynhelir yr Eisteddfod yn neuadd Ysgol Brynrefail ar ddydd Sadwrn, 7 Tachwedd ac mae'r rhestr testunau ar gael yn siopau'r fro a chan yr Ysgrifenyddion. Bydd adrannau Cerdd, Cerdd Dant, Adrodd, Arlunio, Ffotograffiaeth, Tri Dimensiwn, Gwnïo, Coginio, Barddoniaeth a Rhyddiaith. Cynigir y Gadair am gerdd gaeth neu rydd ar

y testun 'Llanw' a'r Fedal Ryddiaith am gyfres o dair stori fer ar y testun 'Ddoc, Heddiw, Fory'. Os cewch drafferth cael rhaglen, ffoniwch Caernarfon 5606 neu 4051.

ENILLWYR ERAILL O'R GENEDLAETHOL

Mrs Gweneirys Jones a Mrs M. Vaughan Jones o'r Waunfawr, Dylan Iorwerth (Wrecsam – yn wreiddiol o'r Waunfawr), W.J. Evans, Bethel.

Arddangoswyd gwaith celf a chrefft y canlynol yno hefyd: Glyn Jones, Ruth Evans, Helen Owen a Rhian Davies o Fethel; Harri R. Parry a Dylan W. Jones o Ddeiniolen; Judith Kisalu ac Andrew Vaughan Williams o Lanberis; a John Tudur Parry o Lanrug.

Y MOSOD AR BENISA'RWAUN!!¹ Gweler tud. 3



ECO'R WYDDFA

Rhif 62
MEDI 1981

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside|Thomas, Bron|Nant, Pont-
rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun. (Penyllyn 438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon
3776).

TRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones, 58
Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227).

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Dafydd Price, Tŷ Capel
(Llanberis 550)

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas,
Tŷ'r Ysgol. (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, Penisarwaun.

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Waunfawr 355)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn, (Waunfawr 626).

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg ar
1 HYDREF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
erbyn 23 MEDI
os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

APÊL NANT GWRTHEYRN

Annwyl Gyfeillion,
Mae'r angen am Ganolfan Iaith
genedlaethol, Canolfan a fydd yn
ffocws i ddysgu Cymraeg i
oedolion, teuluoedd,
swyddogion Awdurdodau ac ati,
yn un eglur iawn.

Mae pentref cyfan, sydd wedi
ei neilltuo ar gyfer y pwrpas hwn
ym Menrhyn Llŷn, yn cael ei
ddatblygu ar hyn o bryd.
Porth-y-nant yn Nant Gwrtheyrn
yw'r pentref ac mae yna wyth o
bobl wrthi yn ddiwyd yn gofalu
am y gwaith adnewyddu.

Bu sôn yn ddiweddar am y
posiblwydd o werthu ychydig
o'r tai er mwyn codi cyfalaf
ychwanegol, ond, bellach, mae
Ymddiriedolaeth Nant
Gwrtheyrn wedi penderfynu dal
ei gafael ar y cyfan a sicrhau arian
digonol trwy ffynonellau eraill i
ddatblygu'r cynllun.

Sut, felly, y medrwyd helpu yn
eich ardal chi i wneud hon yn
Ganolfan ymarferol a real ei
hymdrechion dros yr iaith?

Dyma rai enghreifftiau o'r
ymdrechion a wnaethpwyd yn
ddiweddar i helpu'r Ganolfan:

1. Daeth grwpiau o ddysgwyr at
eigilydd a gosod targedau iddynt
eu hunain. Cawsom £500 gan un
grŵp yn y De yn ddiweddar.

2. Gosododd canghennau o
Ferched y Wawr a Sefydliad y
Merched dargedau iddynt eu
hunain yn yr un modd ac maent
wrthi'n cynnal nosweithiau coffi,
sioeau ffasiwn ac ati er mwyn
cyrraedd y nod.

3. Mae nifer o unigolion a
chwmmiau wedi cyfamodi eisoes
(mae'r Llywodraeth yn rhoi
ad-daliad Treth Incwm i'r
Ymddiriedolaeth ar bob
cyfamod). Gellir anfon i'r
cyfeiriad uchod am yr holl
fanylion ar sut i gyfamodi.

4. 'Rydym wedi cael
benthyciadau di-log a rhoddion
oddi wrth bobl sydd â chysylltiad
â Nant Gwrtheyrn neu sydd ond
yn rhy falch o weld un darn o
arfordir Cymru yn aros yn
Gymraeg ac yn ein dwylo ni.

5. Mae ysgolion uwchradd a
chynradd wedi bod wrthi'n codi
arian tuag at y Ganolfan a
gobeithiwn weld hyn yn
datblygu i'r fath raddau fel ein
bod yn rhoi enwau rhai o'r
ysgolion ac, yn wir, rhai o'r
cymdeithasau, sydd wedi bod yn
ein cynorthwyo i chwyddo'r
gronfa, ar dai Porth-y-nant fel
teyrnged i'w hymdrechion
arbennig hwy.

Y nod yn y pen draw yw
darparu nid yn unig gyrsiau i
ddysgu Cymraeg ond hefyd
gyrsiau arbenigol, er enghraifft
natur, hanes a ieithoedd Celtaidd
eraill, trwy gyfrwng y Gymraeg a
hyn i gyd mewn un o'r ciffachau
prydfertaf sydd ar arfordir
Cymru.

'Rydym yn sicr fod yna
ddiddordeb yn y cynllun yn eich

ardal. Felly beth am feddwl am
rai o'r syniadau uchod, neu rai
eraill wrth gwrs, a rhoi hwb i
Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn
yn eich cyffiniau chi.

Mae'r her yn un fawr ond mae'r
wobr, sef Canolfan briodol i'r
iaith, yn deilwng iawn ohoni.

Edrychwn ymlaen at glywed
oddi wrthyhch.

Yn gywir iawn,

Caren Evans

ar ran

Y Meddyg Carl Clowes

Sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth

Alan Wyn Jones

Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth

Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn

Llithfaen

Pwllheli

SIOP SIARAD

Annwyl Olygydd,

Mae'n siŵr fod llawer o'ch
darllenwyr yn adnabod rhai sydd
yn dysgu Cymraeg fel ail iaith yn
y cylch acw. Ers blwyddyn,
cyhoeddir cylchgrawn pwrpasol i
ddysgwyr mewn oed o'r enw
Siop Siarad. Ei gost yw 25c ac
fe'i cyhoeddir bob dau fis. Mae
Siop Siarad yn cynnwys
erthyglau difyr o bob math am
fywyd Cymru a nodiadau byrion i
helpu'r dysgwr.

Os gwyddoch am rywun
sydd yn dysgu'r Gymraeg,
rhowch wybod iddynt am **Siop
Siarad**, Cyhoeddiadau Mei, 40B
Stryd yr Wyddfa, Penygroes,
Caernarfon, Gwynedd.

Yn gywir,

Cris Jones,

Golygydd Siop Siarad.

RHAGOR AM Y WRAIG OD

Annwyl Olygydd,

Yn rhif 56 (Chwefror '81)
ymholai Llew Hughes,
Cwm-y-glo am wraig od o Lanrug
a fu farw yn 1895. Ni welais un
ateb.

Pan oeddwn yn blentyn yn
Bryn Marian, wrth droed allt Bryn
Maen, Ceunant, Llanrug soniodd
fy mam am y wraig hon.

Yn yr Hafod (cyn dod y
Butlers) yr oedd yn byw. Nid wyf
yn sicr o'i henw ond daw rhyw
adlais fel "Mrs Lane" i'm cof –
ond mae tros hanner can
mlynedd wedi mynd er hynny a
pheth bregus yw'r cof!

Tystiolaeth fy mam oedd y
byddai'r wraig yn hela'r tir o Ben
Cefn i'r Waunfawr a Phonrug
pob nos leud lawn gyda'i cheffyl
a'i chŵn. Cododd arswyd mawr
ar fy mam un noswaith pan oedd
yn hwyr yn dod adre a hithau ond
llances ifanc.

Rhyw ugain llath o'i blaen o
gae deg acer Hafod Ruffydd
daeth ceffyl enfawr tros y wal
gerrig i'r ffordd a'i bedolau yn
fflachio ar y meltin, ac ar yr ail
naid 'roedd yng nghae Drws
Ddeugoed a phac o gŵn yn ei
ddilyn.

Gwelodd fy mam y wraig
ryfedd hon llawer gwaith wedyn.

Pan yn hela gwisgai gôt a
chlôs llwyd golau, esgidiau du at
ei phengliniau gydag
ysbardunau arnynt, crafat gwyn
o sidan a "brooch" ynddi a het
ddu, galed, ar ei phen.

Pan laddwyd y ceffylau
hardd a chostus ar ôl yr angladd,
bu tristwch mawr yn yr ardal a
phawb yn condemnio fath
ffoloneb.

Rhyfedd fod yr unig ateb i
Llew wedi dod o Lundain ynte?

Wedi bod yn athro yn
Llundain am 34 mlynedd 'rwyf
wedi ymddeol fel prifathro ac yn
cael ychydig o hamdden.

Yr eiddoch yn gywir,

J.G. Williams

(Brawd Mr Robt. Williams, Llain
Gwta, Llanrug. 'Jack Post' i lawer
yn Llanrug, ond 'Jack Tŵr' i'm
hen gyfeillion.)

35a Aberfeldy St.,

Poplar,

Llundain.

E14 ONU.

GŴYL WERIN CAERNARFON

Annwyl Olygydd,

Hoffwn roi gwybodaeth i'ch
darllenwyr o ŵyl werin sy'n cael
ei chynnal yng Nghaernarfon ar
Hydref 2-3, 1981. Ar y nos
Wener cynhelir noson o Gawl a
Chân yng nghwmni Dafydd Iwan
a Pharti Eryri. Ceir
gweithgareddau drwy gydol y
Sadwrn, gydag hyfforddiant
mewn dawnsio gwerin i'r plant
yn y bore, Steddfod Dafarn yn y
prynhawn a chyngerdd gyda
Plethyn a llu o artistiaid eraill yn
y nos. Gorffennir yr ŵyl gyda
Twmpath Dawns a bwyd i bwy
bynnag fydd ei angen.

Cefnogir yr ŵyl gan:

Cyngor Celfyddydau Gogledd
Cymru;

a Chyngor dre' Caernarfon.

Yr eiddoch yn gywir,

B.S. Prydderch,

Glandŵr,

24, Cei Banc,

Caernarfon.

NID MYFI

Annwyl Olygydd,

Tynnaf eich sylw at yr erthygl
'Plu'r Gweunydd' gan John Ellis
Williams, Eco'r Wyddfa,
Gorffennaf. Mae Mr Williams yn
cyfeirio at yr eneth yn y darlun fel
Jini Preis o Lanbabo. Carwn
ichwi wybod mai Jini Edwards,
Tyddyn Pwll, Deiniolen y mae yn
cyfeirio ati, wedyn wrth gwrs Jini
Preis trwy briodas.

Pwrpas y llythyr hwn wrth
gwrs, yw fod rhai o'm ffrindiau,
wedi gwneud y camgymeriad
mai myfi y mae Mr Williams yn
cyfeirio ati.

Gŵr Jini Preis, nee Edwards,
oedd fy nghefnder, Tom Preis, Y
Fron, Deiniolen.

Yr eiddoch yn gywir,

Jane Preis Jones

EISTEDDFOD GERDDOROL ALLENYDDOL LLANNEYFYDD A CHEFNBERAIN

MEDI 26ain, 1981

Rhaglenni ar gael os anfonir at
Rhian Huws Williams, Myfoniog,
Llanneyfydd, Dinbych

PENISARWAUN

PRIODASAU - Llongyfarchiadau Dewi Jones, 8 Bryntirion a Llywela Roberts o Gaernarfon; Eleri Williams, Tan y Gaer a Leigh Roberts o Lanrhymni ac Ella a Derlwyn o Lanberis. Dymunwn yn dda i'r tri pâr ifanc.

LLONGYFARCHWN - Danny ac Annette, 22 Bryntirion ar enedigaeth merch fach, Tracy. Cafwyd mab bach o'r diwedd yn Tawelfa. Da iawn wir, a phob lwc i Myfanwy, Dic a'r bychan. Fe anwyd merch fach hefyd i Elfyn a Menna Griffith.

PEN-BLWYDDI - Dymuniadau da i Irfon Hughes, Cae Howell a Marian Jones, Cae Corniog yn un ar hugain oed. Diwedd y mis fe fydd Alison Jones, Weirglodd Las a Diana Griffith, 22 Bryntirion yn ddeunaw oed.

Mae Mrs N. Roberts, Vine Cottage yn hen nain am y tro cyntaf, Gareth Sion yw enw'r bachgen bach.

PARTI - Cafwyd te parti i ddathlu priodas tywysog Cymru yn y stryd ym Mryntirion. Fe ddaeth trigolion Llys-y-gwynt a rhai o Fryn Eglwys i'r wledd, a oedd wedi cael ei threfnu gan Mrs Elisabeth Jones, Mrs Gwenda Jones a Mrs Ann Paterson, oll o Fryntirion. Fe gyflwynodd Mrs Owen Thomas, Tai Newyddion ddarnau arian i'r plant, ac fe rannodd Mr Mike Lamb feiro i'r rhai hŷn. Cynigiwyd yr llwncdestun gan Mr Perrot. Bu parti yn y Waun ac ym

Mhen Pwll Coch hefyd.

EGLWYS SANTES HELEN - Bedyddiwyd Sian Lewis, Pen Pwll Coch ar Awst 1 gan y Parch Gwynfor Williams, rheithor Llanrug. Cydymdeimlwn â Mrs M.I. Roberts, Tai Croesion a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith, Mrs Roberts, yng Nghwm-y-Glo. Ymfalchiwn gyda Mrs M. Jones, 5 Llys-y-Gwynt o glywed fod Dewi Jones ei hŵyr wedi ennill tlws eto am bysgota.

CYDYMDEIMLWN - Â Mr Richard Jones, Heather Bank, o golli ei dad yn Ynys Môn.

DAMWEINIAU - Torrodd Osian ei fraich wrth chwarae ac fe fu braich Gwenllian mewn sling am gyfnod. Cafodd David bwythau i'w goes a bu Berwyn yn yr ysbyty am noson yn ystod y gwyliau.

DYMUNWN YN DDA - I'r plant a'r rhai sydd yn mynd i golegau ac ysgolion newydd. Llongyfarchiadau gwresog hefyd i blant y pentref a'r cylch ar eu llwyddiant yn yr Arholiadau lefel 'O' a lefel 'A'. Pob dymuniad da hefyd i'r rhai sydd yn dechrau swyddi am y tro cyntaf.

LLONGYFARCHION - i Islwyn Williams, Cae'r Bleddyn ar ei luniau ardderchog yn y gyfrol 'Adar yr Ardd'. Bydd chwech o lyfrau yn y gyfres. Mae Islwyn yn gweithio yng Ngwasg Gwynedd.

DWYLO I FYNY - YM MHENISARWAUN

Na, peidiwch a dychryn. Nid Clint Eastwood sy wedi dod i robio'ch banc, na'r 'Jackal' yn gorfodi'ch awyren chi i hedfan i Giwba, 'Dwylo i Fyny' ydi teitl rifiw ddiwedddara' Theatr Bara Caws, a gafodd ei pherfformio yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn ogystal a'i theithio o amgylch gwahanol ganolfannau yng Ngwynedd yn ystod mis Medi.

"Sioc soldiwr ydi hi," meddai Sioned Huws, gweinyddwr y Cwmni - "o leia' dyna be' ddywedodd yr actorion wrtha'i. Ac o farnu oddi wrth y cleciadau a'r martsio a'r drymio dwi'n glywed o'r stafell nesa', dwi'n meddwl eu bod nhw'n iawn." Ond o dan wyneb comedi'r sioe, y mae neges ddifrifol sef y ffordd y mae rhyddid a democratiaeth cymdeithas yn cael ei beryglu gan bwerau cudd, adain dde, milwriaethus sy'n treiddio o'r tu allan ac yn gweithio oddi mewn.

Y 'troopers' yw Mari Gwilym, Myrddin Jones, Sara Harris-Davies, Gari Williams, Dyfan Roberts a Clive Roberts sy'n mentro'n ôl i fyd y llwyfan broffesiynol wedi cyfnod yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Hefyd bydd band o dri yn cadw'r curiad sef Catrin Edwards, Tim Baker a Derek Salmon, ac mae holl faes y gad yng ngofal Gruffydd Jones.

Nid yw 'Dwylo i Fyny' yn gynhyrchiad addas i blant a chynhelir yr holl berfformiadau mewn gwestai a chlybiau. Ymysg y lleoedd y byddwn yn ymweld a hwy fydd Clwb Penisarwaun nos Wener, Medi 11. Cewch fanylion pellach am y daith yn eich papurau wythnosol, felly peidiwch a cholli'r cyfle i'w gweld!

GWYDRO DWBL? ARFON WINDOW FITTERS Ltd.

56a Ffordd Penchwintan, Bangor
Bangor 52313

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL
SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL

Cyfarwyddwr: Ian Harris

PEN-BLWYDD HAPUS I'R TRÊN BACH



Ar Orffennaf 17 eleni 'roedd Rheilffordd Llyn Padarn yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeg oed. Dyma fenter leol a gychwynnwyd ar ôl cau y chwarel i geisio creu gwaith i ryw ychydig o ddynion a golodd eu swyddi yn y chwarel ac ar yr un pryd i geisio cadw rhyw gysylltiad â'r gorffennol. Un o'r pethau sy'n nodweddiadol o Rheilffordd Llyn Padarn yw ei bod yn fenter wedi ei chefnogi gan lawer iawn o bobl leol, neu bobol â chysylltiad â'r ardal, a bod y rhan fwyaf wedi mentro, nid yn gymaint er mwyn gwneud elw, ond er mwyn creu gwaith a denu ymwelwyr i wario eu harian gwyliau yn yr ardal. Er mai ond wyth sy'n llawn amser ar y lein mae eraill yn cael gwaith dros dro yn yr haf a chwmniau eraill yn cael gwaith o herwydd bodolaeth y rheilffordd.

Tystiodd un efrydydd o'r Coleg Normal a gafodd waith dros dro adeg gwyliau'r haf pa mor werthfawr oedd y ddisgyblaeth a ddysgodd drwy weithio fel 'giard' a phwysleisiodd fod y gwaith hwnnw yn fagwrf a dderbyn cyfrifoldeb.

Cychwynnwyd fel Cymdeithas ond bellach mae'n Gwmni

Cyfngedig ac, yn wahanol i'r rhan fwyaf o reilffyrdd cul eraill, mae pob gweithiwr yn gyflogedig a'r Cyfarwyddwyr bellach yn Gymry Cymraeg.

Mae'r deisen ddathlu wedi ei gwneud gan Mrs Janet Horman, gwraig Dafydd Horman, un o'r nifer o bobol ifainc a gyfrannodd at y gronfa sefydlu'r Gymdeithas ac un a gafodd waith yn nhymor yr haf ac yntau'n fyfyrwr pa well ffordd i hybu'r dathliad nag iddo fo a'i wraig (sy'n dod o Lanberis) roi teisen i'r staff. (Enillodd Janet ernes iddi hi ei hun adeg 'Steddfod Caernarfon pan gynlluniodd gacen ac arfbais Gwynedd wedi ei wneud mewn sigwr arno. Codwyd swm sylweddol o arian i'r Steddfod drwy raffl ar y gacen.)

Mae Vic Bradley, Rheolwr y lein wedi trefnu parti pen-blwydd i'r staff ar ddiwedd y tymor a gobeithio y gwelir rhai o'r hen aelodau o'r staff yno hefyd. Yna bydd gwledda ar y deisen.

Cofied pob Cymro mai ein trên bach ni ydi hon - mae'r mwyafrif o'r cyfranddallwyr yn Gymry a gresyn na fuasai mwy o fentro cyffelyb i greu gwaith i'r ardaloedd hyn.

ARBRAWF DDIDDOROL 'STEDDFOD LERPWL

Ar 25 Gorffennaf cyhoeddwyd Rhestr Testunau Eisteddfod Lerpwl, sydd i'w chynnal ar Sadwrn, Mawrth 13, 1982 yn Neuadd Stanley, Prifysgol Lerpwl. Mae'r cyhoeddiad eleni yn garreg filltir bwysig iawn yn natblygiad yr Eisteddfod gan fod y pwyllgor yn cynnig y Gadair am gystadleuaeth arbrofol iawn.

Cynigir y Gadair a gwobr ariannol o £30 am 'Ddociwmentari i barhau am 20 munud ar gyfer radio ar unrhyw destun.' Gofynnir i'r cystadleuwyr fynd ati i wneud dociwmentari cyflawn, yn cynnwys yr holl sgysiau, gwaith ymchwil a golygu. Gall y gwaith terfynol gynnwys tapiau yn ogystal â'r sgrïpt gyflawn.

"Credwn mai dyma'r tro cyntaf erioed i Eisteddfod gynnig y Gadair am ddociwmentari ar gyfer radio," meddai'r Dr Dic Williams, brodor o Drawsfnwydd sy'n swyddog cyhoeddusrwydd yr Eisteddfod. "Gobeithiwn y

bydd y testun chwyldroadol hwn yn tanio dychymyg cystadleuwyr ledled Cymru, ac y cawn ymateb dda i'r gystadleuaeth."

Mae'r gystadleuaeth yn adlewyrchu pwysigrwydd Radio fel cyfrwng ym mywyd Cymru, a daeth cefnogaeth eisoes i'r arbrawf oddi wrth Mr Meirion Edwards, Golygydd Cyffredinol Radio Cymru, sy'n cynnig rhan o'r wobr.

"Mae polisi'r pwyllgor o lunio testunau sydd yn debygol o ddenu gwaith a fydd yn cyfrannu yn barhaol at ddiwylliant y genedl eisoes wedi dod i'r amlwg," ategodd Dr Williams. "Cyhoeddwyd yn ddiweddar fanylion am gystadleuaeth arbennig ar gyfer Eisteddfod 1983. Cynigir gwobr o £100 am gasgliad o Emynau achlysurol, a gobeithir cyhoeddi'r casgliad buddugol."

Y beirniad yn Eisteddfod Lerpwl 1982 fydd y Prifardd Jams Nicholas, Archdderwydd Cymru.

LLANRUG

NEWYDDION O HAFAN ELAN – Nos Wener, Gorffennaf 10, cafwyd noson hynod o ddiddorol ac addysgiadol yng nghwmni'r gŵr gwadd, sef y Parch W.O. Roberts, Anedd Wen. Rhoddodd ei atgofion personol i ni o dan y teitl 'O droed y Moelwyn i Odre'r Wyddfa'. Cawsom hefyd y fraint o gael cwmni Mrs W.O. Roberts.

Talwyd y diolchiadau gan Miss M. Owen, rhif 3, ac ategwyd gan M.M. Williams, Rhyd. Dymunwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Parch a Mrs W.O. Roberts am fod yn ymwelwyr mor ffyddlon â'r stad.

Nos Iau, Gorffennaf 30 cafwyd noson o adloniant ysgafn wedi ei threfnu ar yr rybudd gan rai o drigolion y stad. Llywydd y noson oedd Mr R.G. Jones, Rhif 13. Cafwyd eitemau amrywiol gan y rhai canlynol: Mr A. Jones, Rhif 18, Mrs D. Jones (Y Warden). Rhif 18, Owain Eilir a Ieuan, Rhif 24, a Miss M.I. Rowlands, Cilmeri. Diolch yn fawr iddynt i gyd am noson mor hwyllog.

ADREF O'R YSBYTY – 'Rydym yn falch iawn fod Mr. T. Pritchard, Rhif 4, wedi dod adref o'r ysbty. Dymunwn adferiad buan iddo.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir ein cydymdeimlad llwyr â Mr J.O. Roberts a Miss E. Williams, Rhif 2 yn eu profedigaeth o golli gwraig a chwaer annwyl, sef y ddiweddar Mrs Glenys Roberts.

WEDI GWELLA – Da gweld bod Mrs D. Jones (Y Warden), wedi gwella ar ôl cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

DIOLCH – Dymuna Mr J.O. Roberts a Miss E. Williams, Rhif 2, Hafan Elan a'r teulu oll ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu caredigrwydd, haelioni, a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist. Gan fod y cardia, llythyrau, a'r rhoddion haelionus mor niferus fe fydd yn amhosibl cydnabod yn unigol. Dymunant yn arbennig ddiolch i feddygon a staff Môn ac Arfon, Bangor am y gofal tyner a roesant i'r ddiweddar Mrs Glenys Roberts.

TRIP DIRGEL – Mehefin 21 bu rhai o drigolion y stad am drip dirgel wedi ei roi a'i drefnu trwy garedigrwydd Clwb Snow Town Breakers. Cychwynwyd dros y bont newydd i Fôn. Ar ôl bod o amgylch yr ynys 'roedd te wedi ei baratoi ym Miwmares, mewn lle glân a chyfforddus.

'Roedd yn ddiwrnod bendigedig, yr haul yn gwenu trwy'r dydd.

Mawr ddiolch i chwi hogia, yn sicr 'roedd yn drip a erys yn y cof yn hir. 'Doedd dim angen stampiau gwyrdd o gwbl ar y trip hwn!

Penillion gan y Parch W.O. Roberts ar ei ymweliad â Canolfan Hafan Elan ar Fehefin 24.

HEN DEULU HAFAN ELAN

Hen deulu Hafan Elan
Sydd yma'n cadw gwyl
I ddathlu'r mis y ganwyd
Rhyw rai, mewn gwledd a hwyl

Rhyw deulu llon sydd yma,
Heb neb yn tynnu'n groes.
'Does yma ddim cweryla
Ond mae yma dynnu coes.

Mae rhai mewn oedran aeddfed,
A'u cof yn fyw a chilir:
Atgofion lu sydd ganddynt
Am droeon môr a thir.

Bu rhai o deulu'r Hafan
Yn byw'n yr India draw,
Rhaf eraill fu yn Lerpwl
Yng hantol bomiau brow.

Bu rhai yn cadw Capel
Cymraeg yn Llundain fawr
Ond yma'n Hafan Elan
Y maent yn byw yn awr.

Daeth rhai i drigo yma
O bentre' bach Llanbêr,
O'r Cwm, a bro Brynrefail,
Deiniolen bro y sêr.

O'r Felinheli hyglod
Yr hana un o'r criw, –
Hen fro y morwyr enwog
Fu'n hwylio ar Ffilat Huw Puw.

Un arall sydd yma'n hanu
O Fôn sydd dros y dŵr
Mae wedi hen gartrefu
Yn Arfon deg rwy'n siŵr.

Ein gwesty-wraig sy'n hanu
O bentre Carmel gwiw
Mae wrth ei bodd yn canu
Ei chlod i'w Harglwydd Dduw.

Mae rhai nad ydynt yma
Oherwydd llesgedd blin
Dymunwn iddynt hwythau
Lawn iechyd wedi'r drin.

Canmolwn yn ddibetrus
Yr Hafan hyfryd hon;
Tan ofal tyner Dilys,
Pawb yma sydd yn llon.

Boed i hen deulu'r Hafan
Flynnyddoedd o gyd-fyw;
Boed i bob un ohonoch
Hir oes dan fendith Duw.

(Y Parch W.O. Roberts)

PRIODAS – Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 18 priodwyd Myfanwy, merch Mr a Mrs G.E. Jones, Gorwel a Dr Medwyn Williams, mab Mr a Mrs R.H. Williams, Awel-yr-Hesg, Afon Rhos yng Nghapel Mawr, Llanrug. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn 22, Bryn Rhos, Rhosbodrual, Caernarfon.



DIOLCH – Dymuna Medwyn a Myfanwy ddiolch i'w teulu, ffrindiau ac ardalwyr Llanrug a Deiniolen am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu priodas.

PRIODASAU – Ein llongyfarchiadau i Mr Gwyn Daf Owen, Ferndale, ar ei briodas â Miss Glenda Ann Hughes, Llanberis. Athro ysgol yw Gwyn Daf, a'i briod yn weinyddes yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon. Byddant yn cartrefu ym Methel. Hefyd i Mr Gwyn Martin Williams, Ty'n y Coed a Miss Clydwen Haf Griffiths, Caernarfon.

LLWYDDIANT – Daeth llwyddiant eithriadol i ran Mayda, wyres Mrs Morgan Jones, Bronallt, yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafodd hi, a Geraint o Gorseinion gyntaf ar ganu deuawd dros 21ain, gyda chanmoliaeth arbennig gan y beirniad. Bellach, mae Mayda wedi cwblhau ei chwrs yng Ngholeg Aberystwyth yn llwyddiannus.

MARW – Daeth tristwch i'r ardal o glywed am farwolaeth Mr Arthur Pritchard, Glanfa. 'Roedd yn enedigol o Lanrug. Gedy briod, Mrs Nesta Pritchard, dwy ferch, Gwyneth a Menai, ynghyd â dwy chwaer, Mrs S. Thomas, Min y Rhos, a Mrs J. May Jones, Ger-y-Ffynnon. Cydymdeimlir yn ddwfn â'r teulu oll yn eu hiraeth.

Ar Orffennaf 28, bu farw y cyfaill Mr R.G. Jones-Evans, 39 Bro Rhyddallt. Brodor o Llanfhaearn oedd Mr Evans. Rhoddodd wasanaeth clodwiw i'r Eglwys Fethodistaidd yn Hermon, fel blaenor ac arweinydd y gân am flynyddoedd lawer. Gedy briod, Mrs Clarrie Evans, mab, Mr Peris Jones-Evans, a merch, Mrs Margaret Sellers. Diolchwn am ei wasanaeth i achosion crefyddol yr ardal, gan gydymdeimlo â'r teulu oll

yn eu galar a'u hiraeth.

Ar Awst 20, daeth y newydd trist am farwolaeth Mr H.E. Jones, Y Fedwen, yn 69 mlwydd oed. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Mrs Dora Jones, ei ferch Myra Bryn a'r teulu oll yn eu hiraeth.

PRIODAS – Yng Nghapel Bethel ar Awst 8 priodwyd Eirian Hughes, merch Mr a Mrs Merfyn Hughes, Twll-y-Clawdd, Llanrug a Gwynfor Williams, mab Mr a Mrs Robert Williams, 38 Bro Rhyddallt. Gweinyddwyd gan y Parch Ronald Wyn Roberts. Yr organyddes oedd Mrs Beti Owen. Byddant yn cartrefu yn 7 Stryd yr Wyddfa, Llanberis.



GWELLHAD BUAN – Bu llawer o drigolion y pentref yn yr ysbyty yn ddiweddar ac yr ydym yn dymuno adferiad llwyr a buan iddynt oll. Yn eu plith Mr Tom Griffith, Bryn Celyn; Mrs G.A. Williams, Bryn Teg; Mr Richard Hughes-Jones, Bryn Afon; Mrs E. Owen, 3 Talybont a Mr O. Davies, Plas Gwyn.

DAMWAIN – Dymunwn adferiad buan i Louise, merch hynaf Mr a Mrs R. Bernard, Pen-y-Lan ar ôl damwain gyda'i beic.

Da gweld Iwan Rhys, mab bychan Mr a Mrs Geraint Parry, Bro Dawel wedi gwella ar ôl ei damwain.

DIOLCH – Dymuna'r Eco ddiolch i Gerwyn a'i fam, Mrs E. Ll. Jones, Bodlondeb, ac hefyd i Mrs Roberta Griffith, Bod Elwy am werthu'r papur ers ei sefydlu.

Ar yr un pryd croeso i Mrs Nia Hughes, Graianfryn a fydd yn cymeryd lle Roberta ac i Mrs Eirwen Rowlands, Llys Forgan. Bu Mrs Rowlands a'i mab Arwel yn barod eu cymwynas sawl tro i werthu'r Eco. Hi fydd yn gyfrifol 'nawr am y gwerthiant o'r llythyrdy i'r Sefydliad Coffa.

LLONGYFARCHION – I blant yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau lefel 'O' a lefel 'A' yn Ysgol Brynrefail.

PEN-BLWYDD – Ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau am iechyd i fwynhau llawer blwyddyn arall i Mrs Aubrey Williams, Venice a ddathlodd ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed ar Awst 29.



PRIODAS – Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 26 priodwyd Anne Griffith, unig ferch Mrs Grace Griffith a'r diweddar Mr Tom Griffith, Bryn Alaw a Mr John Gwyn Parry, mab Mr a Mrs W. Parry, 27, Lôn Eilian, Caernarfon. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts a'r organydd oedd Mr C.P. Jones (ewythr y briodferch).

DIOLCH – Dymuna teulu'r diweddar Arthur Pritchard, Glanfa, Llanrug, ddatgan eu diolch cywiraf am yr holl gardiau, a llythyrau, dderbyniwyd, ac am bob gair o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn. Diolch hefyd am y rhoddion. Derbyniwyd £250. Penderfynwyd rhannu £100 i blant bach Ysgol

Pendalar, £100 i Ganolfan Segontium, a £50 tuag at gŵn i'r deillion.



PRIODAS – Dydd Sadwrn, Awst 8 priodwyd Gerwyn mab Mrs E.L. Jones a'r diweddar Mr Edward Llywelyn Jones, Bodlondeb a Janet merch Mr a Mrs R.O. Roberts, Can Coed, 15 Maesincla, Caernarfon, yn Eglwys Crist, Caernarfon. Byddant yn cartrefu yn Borthwen, 3 Glanffrwd, Stryd Newydd, Bethel.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd noson o Foes a Phryn hynod o lwyddiannus er budd y Clwb ddiwedd mis Mehefin a gwnaed elw sylweddol. Bu'r merched yn hynod brysur yn paratoi stondinau ac yn trefnu'r te ar gyfer y noson a diolch am llwyddiant y fenter. Ddydd Iau Gorffennaf 9, bu taith ddigrl y clwb o Lanrug i Gaernarfon, Llanberis, Capel Curig, Betws y Coed a Threfriw i Gonwy a Llandudno a threulio tua dwy awr yno ac yna ymlaen drwy Ddyffryn Conwy i Lanrwt, Llangernyw, Llanfairtalhaearn, Llanfannan ac i Ddinbych ac aros yno i gael swper ac yna adref ar hyd ffordd y glannau. Bu i bawb fwynhau eu hunain yn fawr iawn. Er pan gyfarfu'r Clwb ddiwethaf daeth profedigaeth i ran Mrs Nesta Pritchard, Glanfa ym marwolaeth ei phriod, Mr Arthur Pritchard, ac y mae ein cydymdeimlad gyda hi yn ei phrofedigaeth a chyda ei ddwy

**SETIAU
TELEDU LLIW
AIL LAW
MEWN CYFLWR
RHAGOROL
SIOP TELEDU**

**T
CEPAS**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
(Ffôn: Llanberis 205
gyda'r nos)

STORFA

Mace
**O.R. & M.
PARRY**
**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

LLANRUG (parhad)

chwaer, Mrs J. Griffith Jones, Talybont a Mrs S. Thomas, Min y Rhos. Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad â Mrs Jones Evans, Bro Rhyddallt yn ei phroffedigaeth o golli ei phriod, Mr J.G. Jones Evans a fu am gyfnod yn is-gadeirydd y Clwb.

UNDEB Y MAMAU – Bu trip Aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion yn llwyddiannus a threfnwyd y daith gan y Rheithor. Cychwynwyd allan drwy Nant y Garth a thros Bont Britannia i Sir Fôn ac yna dros Bont Telford yn ôl i'r tir mawr a thrwy Fangor a Dyffryn Ogwen i Fetws y Coed, Trefriw a Chonwy ac yna trwy Lansantffraid Glan Conwy i Westy Plas Maenan am bryd o fwyd a noson lawen. Bu i amryw o aelodau ddatgan eu diolch. Mwynhawyd y noson gan bawb.

BEDYDD ESGOB – Ymwelodd ei Ras Archesgob Cymru â phlwyf Llanrug ar y Sul olaf ym mis Gorffennaf i weinyddu'r Sacrament o Fedydd Esgob ac ef hefyd a weinyddai'r Cymun Bendigaidd yn cael ei gynorthwyo gan y Rheithor. Y rhai a dderbyniodd Fedydd Esgob oedd Mr a Mrs Brynwyn Morris, Ty'r Ardd; Emma Barnard, Pen y Lan; Llinos Davies Bod Awel; Dylan Owen, 2 Rhos Elan; Alan Jones, 11 Bryn Moelyn; Ieuan Wyn Jones, 18 Hafan Elan; Peter Lloyd Jones, 2 Bryn Fedwen; a Christopher Gardiner, Becws y Bryngwyn. Yr oedd yn wasanaeth hyfryd iawn yng ngwydd nifer luosog o'r aelodau. Yr organydd oedd Mr J.T. Morris, Erw Wen; ac yr oedd yr Eglwys wedi ei haddurno yn hardd iawn ar gyfer yr achlysur. Yn ystod yr wythnos cyn y gwasanaeth bu rhai o frodyr yr Eglwys wrthi yn brysus yn peintio ac yn glanhau'r parwydydd a bu'r chwiorydd yn brysus hefyd yn rhoi spring clining i'r Eglwys a diolchwn am eu parodrwydd i wneud y gwaith yn hollol wirfoddol.

YFYNWENT – Y mae'r gwaith o dorri gwair ym Mynwent Eglwys Sant Mihangel wedi ei ddechrau ac fe obeithir y bydd yn cael ei offen cyn bo hir. Y mae'n waith anodd iawn a buom yn ffodus iawn i gael un i wneud y gwaith gan fod gweithwyr yn mynd yn brin iawn. Diolchwn hefyd i Mrs B. Williams, Gwydryn Newydd am rodd o £5 tuag at gronfa'r fynwent. Bydd y Rheithor a'r Wardeiniaid yn ddiolchgar am bob rhodd tuag at Gronfa'r Fynwent.

MARWOLAETH – Ar ôl cystudd byr bu farw Mr Gwilym Jones Evans, 39 Bro Rhyddallt yn ysbyty Môr ac Arfon, Bangor. Roedd yn 76 mlwydd oed. Bu Mr Jones Evans yn flaenor, arweinydd y gân a thrysorydd yng Nghapel Hermon am ddeugain mlynedd.

Bu gwasanaeth yn Hermon ar Awst 4 ac wedyn yn Amlogsgfa Bangor. Gweinyddwyd yr angladd gan y Parch Eryl Blainey, Llanfairfechan; y Parch Gwilym Williams, Y Bala a'r Parch W.O. Roberts, Llanrug. Yr organydd oedd Mr John G. Jones, Llanrug.

Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs C. Evans a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

GENEDIGAETH – Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Dylan Hughes, 2 Crawia, ar enedigaeth mab, Gerallt Dion.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Dylan Hughes, 2 Crawia ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab, Gerallt Dion.



PRIODAS – Yng Nghapel Pontrhythallt ar Awst 8, priodwyd Eleri Williams, Tanygaer a Leigh Roberts, 2 Lynton Place, Llanrhymini, Caerdydd. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts a'r Parch D.R. Roberts. Cyflwynwyd y briodferch i'w gŵr gan ei brawd Bryn, a'r morynion oedd Eirian (chwaer) a Samantha (nith i'r priodfab). Y gwas oedd Philip Bond (ffrind). Yr organyddes oedd Gwen Williams. Cafwyd y wledd briodas yng ngwesty Carreg Brân, Llanfairpwll. Y mae Leigh wedi graddio yn y Gyfraith ac yn paratoi ar gyfer swydd fel Swyddog Masnach Safonol, ac Eleri yn dilyn cwrs SRN fel nyrs. Byddant yn ymgartrefu yn Llanilltud Faerdre.

MERCHED Y WAWR – Bydd y tymor yn dechrau ar nos Fawrth, Medi 8 am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd, pryd y cawn glywed yr awdures Jane Edwards yn annerch ar y testun, 'Llenyddiaeth Ifanc'. Apeliwn am bresenoldeb yr aelodau yn y cyfarfod agoriadol hwn, ac estynnwn groeso cynnes i'r aelodau newydd ymuno â ni.

Y SEINDORF – Bu misoedd Gorffennaf ac Awst yn rhai prysur iawn gyda phob Sadwrn yn llawn. Ym mis Gorffennaf ymwelwyd â charnifalau Talwrn, Tregarth, Caernarfon a Gelli Lydan, ac ym mis Awst carnifal Dwyran, Porthmadog a Chwm-y-Glo. Cymerwyd rhan mewn cyngerdd ar Faes Caernarfon ar nos Fawrth, Gorffennaf 21. Trefnwyd dwy Helfa Drysor ddifyr, y gyntaf ar nos Iau, Gorffennaf 17, pryd y cyrhaeddodd pawb Westy'r Victoria yn ddiogel. Yr enillwyr oedd 1. Mr James Jones, 2. Mr Richard O. Jones. Enillwyd y raffl gan Mr Goronwy Roberts, Llys Dorfil. Nos Iau, Awst 6, yr enillwyr oedd 1. Berwyn Jones, 2. Mr Alf Parry, 3. Mr Clifford Williams. Enillydd y raffl oedd Mr John Williams, Gweledfa.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL PONTRHYTHALLT – Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd Capel Pontrhythallt ym mis Gorffennaf. Llywyddwyd y cyfarfod a chymerwyd y rhan arweiniol gan Mrs Ifor Williams, Gwelfryn. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs W.A. Jones, Dalar Deg. Rhoddwyd y te gan Mrs H.W. Jones, Bron Wylfa. Trefnwyd i gael Noson Goffi a byrddau gwerthu nos Wener Hydref 16. Croeso i bawb.

Jones, Tanhafodlas ar ei llwyddiant yn yr arholiad Lefel A. Hefyd i Jeanette Murray, Hafodlas a Dilwyn Morris, Merddyn am basio'r arholiadau TAG a TAU. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

CROESO – cynnes i'r ardal i Mr a Mrs Peter Baxter a'u mab Cynrig sydd wedi symud i fyw i Pant Hyfryd. Daw Mrs Gwen Baxter yn wreiddiol o ardal Bethesda. Pob hapusrwydd a dedwyddwch iddynt yn ein plith.

PLANT LLANRUG 19??



Un arall o luniau Mr Leslie Larsen o blant Ysgol Gynradd Llanrug. Enwau, gwybodaeth, hanesion os gwelwch yn dda!

DOSBARTH ARCHAEOLEG LLANRUG

Ym mis Medi bydd dosbarth archaeoleg Llanrug dan nawdd y W.E.A. a Choleg y Brifysgol, Bangor, yn ymgynnull am yr ail flwyddyn i drafod agweddau ar gynhanes Cymru a Phrydain. A hoffech chi wybod am hen, hen hanes ein gwlad? Na – nid am Ddewi Sant, Llywelyn Fawr, William Morgan neu Harri Tudur, ond yn hytrach am gymdeithas yr amaethwyr cyntaf ddaeth i'r ynysoedd hyn tua chwe mil o flynyddoedd yn ôl, a chymdeithas y gofaint metal cyntaf a sefydlwyd yma oddeutu pedair mil o flynyddoedd yn ôl. Mae Gogledd Cymru yn frith o safleoedd a chelfi y bobl hyn. Faint ohonoch sydd yn gwybod am chwareli bwyell cerrig Penmaenmawr a Mynydd Rhiw, cromlech Capel Garmon, Barclodiad y Gawres, Bryn Celli Ddu a Bryn yr Hen Bobl? Wyddoch chi fod bwyell pres tair mil a hanner o flynyddoedd oed wedi eu darganfod ger Llyn Padarn? Os am wybod mwy, yna dowch yn llu i'r dosbarthiadau, fel y cawn oll ddyfod yn fwy hyddysg yng nghynhanes ein gwlad a'n treftadaeth.

I gychwyn y flwyddyn, trefnir taith i ymweld â rhai o'r prif safleoedd archaeolegol yn Arfon. Bydd y daith yn cychwyn ger y Gors Bach yn Llanddeiniolen am 12.30 ar Fedi 19. Ymunwch â'r daith a dowch i'r dosbarth. (Pawb i ddod â'i gar ei hun ar y daith.)

Dyma fanylion y dosbarth:

Man cyfarfod – Ysgol Gynradd Llanrug

Amser – 7.00 p.m.

Noson gyntaf – Nos Lun, Medi 21, 1981

Darlithydd – Dr J.L.I.W. Williams, Tiwtor mewn Archaeoleg, Adran Efyrdiau Allanol, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor.

"NEWID DDAETH ..."




**'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr,
Ac yn codi efo'r wawr,
I ddilyn yr ôg, ar ochr y Glôg,
A chanlyn yr arad goch
Ar ben y mynydd mawr.**

Na nid Alun Mabon yw'r gŵr sydd yn y llun ond Harry Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant yn aredig ei dir garw. Tynnwyd y llun ar derfyn dydd. Dyma fyddai trefn dydd Harri Jones – codi hefo'r wawr, godro'r gwartheg, cael y llefrith i lawr i'r lôn bost mewn caniau trymon, brysio i lawr o'r Ceunant i Bontrhythallt i ddal y trên chwarel, treulio'r diwrnod fel creigiwr yn Chwarel Dinorwig, hel ei baciau am bump ac am y trên yn ôl i Bontrhythallt, cerdded yn ôl i fyny gelltydd Ceunant ac i Tŷ Uchaf, rhoi'r harnes am yr hen geffyl gwedd, aredig hyd nes i'r haul suddo ym Mae Caernarfon, noswyllo a mynd trwy'r un drefn y diwrnod dilynol.

Oes ganddon ni hawl i gwyno am ein safonau byw heddiw deudwch? Mae'n gwestiwn gen i.

MODURDY MENAI



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

CEUNANT

O'R YSBYTY – Croeso adre o'r ysbty i Mr Francis Guy, Bryn Tirion a Mrs E. Thomas, Arwelfa. Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r ddau.

LLWYDDIANT – Balch oeddym o ddeall fod John Tudor Owen, Glan Gors wedi ennill gradd M. Add. ym Mhrifysgol Lerpwl. Mae Mr Owen ar hyn o bryd yn brifathro yn Hoylelake.

LLONGYFARCHIADAU – i Susan

LLANBERIS

WEDI GWELLA – Croeso mawr i Martha Hughes, 92 Maes Padarn ar ddod adref o'r ysbyty ym Mangor, lle y derbyniodd driniaeth lawfeddygol. Hefyd John Prydderch, Bronallt ar ddychwelyd adref o Ysbyty Môn ac Arfon.

PEN-BLWYDD – Gwell hwyr na hwyrach Jane – llongyfarchiadau ar gyrraedd eich pen-blwydd yn 21 oed. Merch Annie a Myrddin Pritchard, Ffordd Padarn yw Jane, ac yn fawr ei pharch yn yr ardal.

DIOLCH – Dymuna Valerie Ann Parry, merch Betty a Cledwyn Parry, Glan-y-Don ddiolch i'w chyfeillion am eu cardiau a'u hanrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain oed.

YN YR YSBYTY – Dymunir adferiad llwyr yn fuan iawn i'r cyfeillion hyn sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd: Miss Edwina Jones, Tai unllawr Plastirion, Mrs Annie Roberts, 17 Dol Eilian a'i mab Cledwyn, Mrs Mair Owen, Dôl Eilian a Mr W.J. Roberts, Rhianfa a Mrs Evan Jones, Stryd y dŵr.

NEWYDDION TRIST – Daeth y newydd i'r ardal am farwolaeth Mrs Ben Owen, priod y diweddar Barch Ben Owen, a fu yn weinidog ar eglwys Nant Padarn a Jeriwsalem am flynyddoedd cyn symud i'r De. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma roedd Mrs Owen wedi colli ei golwg a gorfu iddi fynd i ysbyty'r deillion. Estynnir cydymdeimlad llawer o'r trigolion lleol a'r unig ferch – Eirlys a'i theulu.

LLONGYFARCHWN – Mrs Eunice Owen, Meifod ar fod yn nain am y tro cyntaf. Deallwn fod gan lolo a'i briod fab bychan ers rai wythnosau bellach.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cafodd y Sefydliad golled fawr ym marwolaeth Mrs Robert Morris. Mrs Morris oedd yr aelod olaf o'r rhai a sefydlodd cangen Llanberis a bydd chwith mawr ar ei hôl. Yr oedd yn siriol bob amser, gyda chof eithriadol a hiwmor ffaeth. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr â'i hunig ferch, Mrs Heulwen Bealby, a'i hunig chwaer Mrs M. Lewis a'r teulu i gyd.

Ym mis Mehefin buom ar ein taith ddirgel. Cawsom ymweliad byr â stiwdio 'Pretty Ugly Pottery' yng Nghaernarfon ac wedyn ymlaen i gael swper yn Ty Mawr Llanfairpwll. Diolch yn fawr i Mrs Arfon Evans a Mrs Annie Blodwen am drefnu'r noson.

Yng nghyfarfod Gorffennaf bu Mrs Pat Jones, Brynrefail yn dangos i ni sut i wneud 'Macramé', ac y mae wedi ennyn diddordeb ymysg yr aelodau i wybod mwy am y grefft yma.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos lau, Medi 24 pryd y disgwylir Mrs Ann

Griffiths o'r 'Citizen's Advice Bureau'.

Y TRIPIAU – Mis y tripiâu yw Gorffennaf wedi bod ers blynyddoedd bellach. Bu'r Ysgolion Sul a'r mudiadau lleol yn mwynhau eu hunain yma ac acw. Aeth Clwb y Methedig i Dywyn am ddiwrnod a chael cinio yng Ngwesty'r Ddraig Goch, a Chlwb yr Henoed am hanner diwrnod i'r Rhyd pryd y cawsant ddiwrnod cynnes a braf. I'r Rhyd hefyd yr aeth yr Ysgolion Sul fel arfer ac rwy'n siŵr y bydd trip eleni yng nghof Dylan, mab bychan Anna a Tony Williams, Stryd y Ffynnon am amser maith. Bu yn anlwus iawn yn ystod y prynhawn – syrthiodd a thorri ei fraich. Dyna siomiant ynte Dylan – ond bydd trip eto y flwyddyn nesaf wyddost – a diolch fod y fraich yn gwella a thithau wedi bod yn fachgen bach mor ddrwg.

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd cyfarfod Gorffennaf ar y 7ed o'r mis dan lywyddiaeth y Canon Alun Jones. Mwynhawyd anerchiad difyr iawn gan y Parch L. Arridge o Fangor ar fywyd y Doctor Griffith Evans. Diolchwyd iddo gan Miss C. Gillespie a Mrs Denness Hughes. Rhoddwyd y te yn ystod y prawn gan aelodau Nant Peris.

PRIODASAU – Emrys a Bethan – Yn Eglwys Llanddinorwig, Deiniolen ar Orffennaf 27 a'r Canon C.D.L. Griffiths, Abergwaun yn gwasanaethu priodwyd Emrys mab Mrs Betsi Lloyd Jones, Grove House a Bethan – merch Mr a Mrs W.H. Griffiths, Fferm Llys, Penisarwaun. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn Cae'r Bythod Clwt-y-bont. Daeth lluo o gyfeillion i ddymuno'n dda iddynt yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

Pauline a Dilwyn – Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 18 yn eglwys Sant Padarn, priodwyd Pauline merch ieuengaf Mr a Mrs R.H. Williams, 5 Rhes-y-Faenol, a Dilwyn mab Mr a Mrs O.J. Griffiths, 4 Maesdre, Aberffraw.

Gwasanaethwyd gan y Parchn. Canon Alun Jones a John Evans, Llanfaelog, gyda Mr Huxley Thomas wrth yr organ, a'r delynores Rhian Williams, Llangejni gyda'r Delyn. Athro yn Amlwch yw'r priodfab a'r briodferch yn athrawes yng Nghaergybi. Byddant yn cartrefu yng Ngaerwen.

Diwrnod i'w gofio oedd hwn i Hilda a Bob, pan oedd eu pedair merch gyda'u teuluoedd a'u plantos bach wedi ymgynnull â'i gilydd i fwynhau un o'r diwrnodiau hapusaf yn eu bywyd.

Glenda a Gwyndaf – Ar Awst 1 priodwyd yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Canon Alun Jones a'r Parch W.O. Roberts, Llanrug yn gwasanaethu, Glenda Ann, unig

ferch Mr a Mrs Kyffin Hughes, 10 Rhes-y-Faenol a Gwyndaf, mab Mr a Mrs Edward Owen, Fetndale, Llanrug. Yr organydd ydoedd Mr Huxley Thomas. Darparwyd y wledd briodasol yng nghwesty Gwynedd a daeth 60 o wahoddedigion yno i ddymuno yn dda iddynt. Wedi'r mis mēl ym Mlackpool byddant yn cartrefu ar Stad y Rhos, Bethel.

Derlwyn ac Ella Wyn – Ar un dydd Sadwrn ym mis Awst yng Nghapel Coch gyda'r gweinidog y Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu, priodwyd Derlwyn John, mab Mr a Mrs W.T. Roberts, 15 Maes Padarn ac Ella Wyn Morgan o Fethel. Daeth lluo o gyfeillion i ddymuno'n dda i'r ddau yng Ngwesty Dolbadarn.

Byddant yn cartrefu ym Methel.

DIOLCH – Dymuna Valerie, Brenhines y Carnifal, ddiolch ar ei rhan hi, a'r ddwy weinyddes Delyth a Jennifer i Bwyllgor y Carnifal am eu haelioni, i bawb a fu'n eu cynorthwyo a'u dysgu ar gyfer y diwrnod mawr, ac i'r lluo cyfeillion am yr anrhegion a dderbyniwyd ganddynt. Diolch yn fawr iawn.

Y BLAID LAFUR – Ym mhwyllgor blynyddol y Blaid Lafur etholwyd y rhai a ganlyn yn swyddogion am y flwyddyn: Llywydd, y Cynghorydd Francis Jones; Is-lywydd, Allan Parry; Trysorydd, Llew Roberts; Ysgrifennydd, Mrs V. Norton.

Cytunodd y pwyllgor i'r ddau Gynghorydd Lleol, Mr Francis Jones a Mr Brian Jones gyfarfod yn y dyfodol agos i wrando cwynion neu awgrymiadau'r cyhoedd ac i geisio eu helpu mewn unrhyw fodd.

CASGLIAD – Casglodd Miss C. Gillespie £34.95 tuag at Gronfa Cymdeithas Genedlaethol y Plant. Cynorthwywyd hi gan Mrs Phillips, Mrs Allen, John a David Ellis o Nant Peris.

Y BRIODAS – Cafodd Wendy merch

Mr a Mrs Evan R. Roberts, 5 Rhes Olgra anrhydedd fawr iawn. Dewiswyd hi i gynrychioli Nyrsus y Fyddin yng ngwasanaeth priodas y Tywysog Siarl yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul. Mae ei phriod hefyd yn dilyn cwsr meddygol gyda'r Fyddin ac yn astudio ar gyfer yr arholiad derfynol i fod yn seiciatrydd.



Y RAS RAFFTIAU – Wel, dyma fenter newydd sbon eto ar Lyn Padarn, a mawr ein diolch i fechgyn y Frigâd Dàn leol am feddwl am y ras, am ddarparu rafft, ac am gymryd rhan yn y ras.

Nid peth hawdd oedd ceisio symud y clamp mawr trwsgwl am filltir o ffordd ac yna dychwelyd i'r fynedfa. Ond, gyda gwrhydri mawr, bechgyn Llanbêr ddaeth yn ôl yn goncwerwyr. Da iawn wir – a diolch am rywbeth i lawenhau ynddo ynghanol y glaw a'r gwynt a'r oerni y Sadwrn hwnnw.

DATHLU'R BRIODAS – Bu plant yr ardal yn dathlu'r Briodas Frenhinol drwy gael te parti yn y stryd. Rhoddwyd gwahoddiad i'r pensynwyr hefyd, a derbyniodd y plant y darn arian a gafodd ei fathu i gofio'r achlysur. Bu amryw o'r partion hyn, pob un yn dathlu yn ei gylch ei hun.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty
Trwyddedig

A la Carte

Bwyd Basgedi

Bwyd Môr Ffres

Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn

Partion

Ciniawau

Gwleddoedd

Priodasau

Lle i 110 ar y tro
Ffoniwch i fod yn saff o le

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

MARWOLAETHAU - Mae'r wythnosau diwethaf yma wedi trallodi amryw o deuluoedd yr ardal. Collodd y gymdogaeth gymeriadau annwyl, ac yn siŵr ichi mae'r ardal yn dlotach o'u colli. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd hynny yn eu colled a'u tristwch.

John Jones - Ar Orffennaf 3 yn 78 oed bu farw John Jones, priod Elizabeth Jones, Bryn Eithin, 1 Pentre Castell. Bachgen o'r ardal hon ydoedd ond wedi symud i fyw gyda'i deulu i Wigan. Gwasanaethodd fel gyrrwr gyda'r Rheilffyrdd Prydeinig hyd ei ymddeoliad, ac yna dychwelyd i'r hen fro. Cymeriad hynod o dawel a dymunol ydoedd gyda gwên a gair caredig i bawb bob amser. Bu'r iechyd yn fregus dros amser maith, ond bu gofal ei briod yn ofalus ac annwyl hyd y diwedd. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Jerusalem gyda'r Parch Huw John Hughes yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â'r weddw, y tair merch a'u teuluoedd yn eu colled.

David Jeffrey Roberts - Yn yr Ysbyty ym Mangor ar Orffennaf 3 bu farw Dafydd J. Roberts, Sŵn-y-Gwynt yn 73 oed. Fel Dafydd Taff yr adnabyddid ef gan bawb, ac yn wir roedd yn adnabyddus iawn mewn llawer cylch. Un o feibion y diweddar Dafydd Roberts - (Dafydd Rhelfa) ydoedd - ac wedi treulio ei oes yn yr ardal oddigerth y blynyddoedd a dreuliodd gyda'r fyddin yn yr Eidal. Gweithiodd gyda'i dad yn y chwarel am flynyddoedd cyn y rhyfel, ac wedi dychwelyd o'r rhyfel bu'n gweithio llechi yma ac acw hyd ochrau Cefn Du. Roedd yn greffwr celfydd ac yn weithiwr caled. Hoffai'r awyr agored - ac roedd yn naturiaethwr brwd - yn adnabod yr adar hyd ochrau'r mynyddoedd a glannau'r llynnoedd. Yn naturiol felly ei ddiddordebau ydoedd pysgota, saethu a garddio. Un difyr iawn ydoedd Dafydd am sgwrs, yn enwedig sgwrs am bysgota. Byddai rhyw ramant yn ei sgwrs - nid oedd neb gwell am stori na Dafydd Rhelfa.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Coch dan arweiniad y Parch Marcus Robinson a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir â'i weddw, ei frodyr a'i chwaer, a'r teuluoedd i gyd yn eu galar.

Yn ystod yr amgylchiad derbyniodd Mrs Olwen Roberts, ei weddw, offrwm gan amryw o gyfeillion. Cyflwynodd y cyfan o'r arian - £65 - i Gronfa'r Arennau sydd wedi ei sefydlu yn yr ardal.

Margaret Morris - Yng nghartref ei merch yn Nottingham ar Orffennaf 13 bu farw Margaret Morris, Bromwydd yn 86 oed. Priod y diweddar Robert Morris, B.A. un o athrawon yr ysgol Ramadeg Brynrefail ydoedd, ac wedi ei geni a'i magu yn yr ardal ac oddigerth ychydig flynyddoedd y bu

yn yr Amerig treuliodd ei blynyddoedd yn Llanberis. Daeth llw mawr o gyfeillion i'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Preswylfa, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch Marcus Robinson. Siaradwyd ar ran aelodau'r eglwys gan y blaenorhynaf Hugh R. Jones, pryd y cyfeiriodd at ffyddlondeb Maggie Morris (dyma fel yr adwaenai pawb hi) at yr achos ar hyd y blynyddoedd. Siaradodd Harry Bealmy ei mab yng nghyfraith gan roddi diolch am gael adnabod cymeriad mor hynod o garedig a deallus, un fu yn ffrind iddo ef a'i briod ac i'w blant hyd y diwedd. Dilynnwyd y gwasanaeth yn y capel gyda gwasanaeth preifat i'r teulu yn unig yn Amlwgfa Bangor.

Estynnir cydymdeimlad yr ardal gyfan i Heulwen a'r teulu yn eu trallod.

GWERTHFAWROGIAD - Mae colli un cymeriad tebyg i Maggie Morris nid yn unig yn creu bwlch yn y cylch bach o ffyddloniaid Preswylfa, ond yn creu bwlch mwy o lawer ym mywyd yr ardal yn gyffredinol. Roedd hi yn ffrind i bawb, heb air gwael am neb, ond yn credu y gorau am bawb bob amser. Bu yn weithgar gyda phob achos da yn yr ardal, ac yn arbennig felly gyda gwaith yr eglwys. Cymerai ran yn gyhoeddus ac ni flinai weithio gyda'r genhadaeth a mudiad y merched. Roedd hi'n un o'r hanner dwsin a ddechreuodd Sefydliad y Merched yn yr ardal a bu'n ffyddlon i'r sefydliad hyd y gallai. Cadwodd yn ifanc ei hysbryd a'i syniadau a byddai'n barod am chwerthiniad iach a rhyw stori ddoniol gyda'i chyfeillion neu gymdogion bob amser. Mawr oedd ei gwerthfawrogiad o weithgareddau Clwb yr Henoed ac wrth ei bodd yng nghwmni'r pensïynwyr. Yn wir 'Yr hyn allodd hon - hi a'i gwnaeth.'

Bobby Roberts - Ar ôl gadael yr ysbyty ond ychydig ddyddiau i aros yng nghartref ei ferch yn Llanfair, Sir Fôn bu farw Bobby Roberts lonfa yn 68 oed. Bu'n wael ers amser maith, a dioddefodd ei afiechyd yn ddewr iawn. Gorfu iddo dreulio y rhan fwyaf o'i amser yn yr ysbyty. Ef eto yn un o blant yr ardal, wedi gweithio ei oes yn yr iard yn Chwarel Dinorwig, yn greffwr medrus wedi dilyn crefft ei dad - y diweddar John Roberts, Mowlder. Meddai ar bersonoliaeth ddymunol iawn, bob amser yn barod ei gymwynas - ac yn fawr ei barch gan bawb. Roedd yn aelod ffyddlon yn Nant Padarn. Ar ôl gwasanaeth yn y tŷ dan arweiniad y Parch John S. Roberts, Amlwch, claddwyd ei weddillion ym mynwent Llanrug. Cydymdeimlir â'i unig ferch a'i theulu, a hefyd ei unig chwaer, Mrs Dilys Owen a fu'n gynorthwy a chwmni mawr iddo drwy'r blynyddoedd er pan gollodd ei briod; hefyd ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Clara Roberts a'i theulu.

LLONGYFARCHIADAU - Estynnir llongyfarchiadau calonnog iawn i Gareth, mab Mrs Eluned Mai Jones, 3 Rhos y Cae ar ei benodiad yn brifathro Ysgol Bwlchgwyn ger Wrecsam. Ar ôl dilyn cwrs addysgol yn y Coleg Normal, Bangor bu Gareth yn dysgu yn ysgolion Monksdown a Wooltow yn Lerpwl. Symudodd i Gymru a bu'n ddirprwy brifathro yn ysgol Bryn Pennant, Mostyn, Clwyd am dair blynedd. Dymunir iddo bob llwyddiant yn ei swydd newydd.

LLWYDDIANT - Cafodd Rhian Owen, Stryd Siarlot lwyddiant mawr yn yr Eisteddfod Genedlaethol - daeth yn drydedd ar yr unawd i ferched dan 18 oed. Da iawn Rhian.

RHEOLWR GWESTY - Ar ôl dilyn blynyddoedd o wasanaethu gyda chwmnïau yn ymwneud â gwahanol westai yng Nghymru a Lloegr mae Robin - mab Mr a Mrs Elis Jones Erw'r Coed wedi ei ddyrchafu yn Reolwr Gwesty'r Llwyn Iorwg yng Nghaerfyrddin. Llongyfarchiadau Robin - onid yw'r Llwyn Iorwg yn cael ei gyfrin un o westai gorau Cymru? Ardderchog wir - a meddwl mai Cymro yw'r prif reolwr.

YMDDEOLIAD - Rhyw deimladau digon cymysglyd oedd gan Tom R. Jones (Rallt Goch) dirprwy brifathro Ysgol Gynradd Llanrug, y diwrnod olaf o dymor yr haf. Er ei fod wedi rhoi 32 mlynedd o wasanaeth yn yr un ysgol, roedd meddwl am golli cwmni'r plant a cholli'r cysylltiad a'r cyfrifoldeb o'u dysgu a'u paratoi am y dyfodol yn achosi rhyw mawr yn ei feddwl. Gŵyr yr holl fro am ei hoffter o blant nid yn unig yn yr ysgol, ond yn ei ardal ei hun, plant cylch ei gartref, a phlant Ysgol Sul Capel Coch. Nid oes dim yn ormod ganddo

pan yn darparu ar eu cyfer, ac mae yn ffrind calon i bob un, ac mae'r plant eu hunain wedi deall hyn ac yn ei barchu i'r eithaf.

Cyn iddo ymddeol o'r ysgol cyflwynwyd anrheg werthfawr iawn iddo ar ran y plant a'r athrawon - sef cyfrol hardd odidog o grefftwaith Gwasg Gregynog. Ar ran staff y gegin cyflwynwyd darlun o Ddyffryn Llanberis iddo. Er mai ymddeol o waith dyddiol y mae Tom R. Jones, mae mor brys ag erioed, hwyrach ychydig prysurach, gyda gofal diacon yng Nghapel Coch, yr Ysgol Sul, ymweld â phob claf yn eu cartrefi ac yn yr ysbytai, ac ar y Sul yn gwasanaethu yma ac acw i helpu'r eglwys bach yn y cylch. Mae ei gyfraniad i'r gymdeithas yn amhrisiadwy - rhywbeth na all arian ei brynu. Ein dymuniad iddo yw hir oes, iechyd da a nerth ac ysbryd newydd i gario'r gwaith da ymlaen.

CRONFA'R ARENNAU - Rai wythnosau'n ôl daeth nifer o wragedd ifanc yr ardal at ei gilydd i ffurfio pwyllgor i godi arian at Gronfa'r Arennau - Ysbyty Glanclwyd. Mae amryw o fudiadau lleol a gwestai lleol yn awyddus i godi arian i'r gronfa yn ystod misoedd y gaeaf sydd i ddod. Noson cystadleuaeth y Dartiau yng Ngwesty Dolbadarn casglwyd £35. Ysgrifenyddes y pwyllgor yw Mrs Joan Roberts, Stryd Tomos.

Y CARNIFAL 81 - Eto eleni cafwyd carnifal ardderchog gyda'r tywydd yn heulog a braf. Mae dyled yr ardalwyr yn fawr iawn i'r ychydig wyr ifanc gweithgar sydd yn paratoi a gofalu am weithgareddau'r wythnos ac i sicrhau llwyddiant yr ymdrech.

Diolch yn fawr iddynt i gyd.

BEICWYR MEDRUS



Plant safon 4 ysgol gynradd Llanrug yn arddangos eu tystysgrifau medrusrwydd beicio.

TAN-Y-COED

I'R YSBYTY - Aeth Mrs Catherine Evans i Ysbyty Gallt-y-Sil, Awst 18. Bydd yn aros yno am bythefnos. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da iddi o'r ardal. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu'n ôl i'w chartref, wedi'r egwyl hon.

MARW - Brawychwyd yr ardal ddydd Gwener, Awst 14, oherwydd marwolaeth sydyn Mrs E. Jones, Bro-Dawel, a hithau ar gychwyn i ymweld â'i theulu yn yr Almaen. Cydymdeimlwn â'i chwaer yn yr Almaen, a'i theulu oll yn y cylch yma ac yn yr Almaen. Bu angladd Mrs Jones ddydd Mawrth, Awst 18, y Parch W.O. Roberts yn gwasanaethu.

TRIP - Dydd Sadwrn, Awst 29 bydd plant Ysgolion Sul Llanrug a Than-y-Coed yn mynd am eu trip blynyddol i Wersyll Butlins ym Mhwlheli. Tywydd braf a hwyl fawr iddynt.

LLONGYFARCHIADAU - I blant yr ardal am eu llwyddiant yn eu harholiadau ysgol - Enid Wynne, Llety Llwyd, Margaret E. Roberts,

Tainewyddion a Dafydd Hughes, Rallt Deg. Pob llwyddiant iddynt eto i'r dyfodol.

DIOLCH - Dymuna Linda Wynne Jones, Pant Clyd ddiolch o galon i'w chymdogion, ei theulu a'i ffrinidau am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati pan gymerwyd hi i'r ysbyty yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

LLWYDDIANT - Enillodd chwaer Linda, Ann Jones yr ail wobwr allan o 90 ym mabolgampau 'Clwb Poni' yn Ninbych yn ddiweddar. Hefyd enillodd Dystysgrif Amaethyddiaeth a Garddwriaeth gydag anrhydedd, ar ddiwedd ei blwyddyn gyntaf ar Gwrs Amaethyddol yng Ngholeg Glynllifon.

Bydd Ann yn cychwyn yr ail ran o'i chwrn yng Ngholeg Amaethyddol Llanbadarn Fawr ar Fedi 25. Pob llwyddiant iddi i'r dyfodol.

LLWYDDIANT - Llongyfarchiadau i Manon Llwyd Evans ar ei llwyddiant yn ennill gradd Dosbarth 1 o dan nawdd yr Ysgol Gerdd Frenhinol am chwarae'r ffidil.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

LLANBERIS (Parhad)

MARWOLAETHAU

Cledwyn Jones – Ddydd Gwener Awst 7 bu farw Cledwyn – mab Mrs Annie Wheldon Jones, a'r diweddar Edwin Jones, Maes Padarn yn yr ysbyty ym Mangor. Dyma fachgen ifanc 57 oed a ddioddefodd loes yn dawel a di-rwgnach am flynyddoedd lawer. Un cysur mawr iddo ar hyd y blynyddoedd blin ydoedd cariad mawr mam a ffyddlondeb chwaer. Er ei fod yn gwanhau o wythnos i wythnos a'r golwg yn raddol ballu, ni ddarfu gofal ei fam a'i chwaer. Gofalant amdano ddydd a nos ac er eu digalondid llwyddiasant i gadw ei ffydd hyd y diwedd. Mawr yw edmygedd yr ardal ohonynt.

Claddwyd ef ar Awst 12 ym mynwent Nant Peris gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu.

Elena Roberts – Ar ôl wythnosau yn yr ysbyty Eryri Caernarfon ar Awst 10 bu farw Elena Roberts, Llys Caradog yn 75 oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn y Losgfa Bangor gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu.

Gweddwyd'r diweddar E.O. Roberts, Y Postfeistr ydoedd, ac yn adnabyddus iawn yn yr ardal fel 'Mrs Roberts Post'. Bu yn aelod ffyddlon o eglwys Gorffwysfa, ac yn gefnogol i bob achos da.

COLLI CHWAER – Bendithiwyd y ddiweddar Mary Hughes, Stryd-y-Dŵr (gynt o Gaer Fan) â phum merch a dau fab. Ychydig wythnosau'n ôl daeth y bwch cyntaf i'r plant. Tra ond yn 50 oed bu farw Eurwen May Lloyd yn ei chartref yng Nghaernarfon a mawr yw cydymdeimlad yr ardalwyr i'w chwiorydd, Heulwen Morris, Mary Thomas, Ceridwen Jones a Gwyneth

Evans, hefyd y brodyr.

Cafodd Mrs Gracie Davies, Woodford, newydd brawychus yr wythnos ddiwethaf pan glywodd am farw sydyn ei chwaer Betty ym Malltraeth, Sir Fôn. Bu Betty farw tra yn dilyn ei gorchwylion dyddiol yn ei chartref. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu colled.

GARTREF O'R YSBYTY – Croeso gartre o'r ysbyty i Mr Robert Owen, Coed Mawr a Mrs Jennie Land Jones, 81 Maes Padarn.

LLWYDDIANT EIN PLANT – Llongyfarchiadau gorau i'r llu o blant yr ardal a fu yn dra llwyddiannus yn arholiadau Lefel A a Lefel O. Hefyd, estynnir llongyfarchiadau i'r amrywa fu'n llwyddiannus gydag arholiadau'r piano.

Dymunir pob llwyddiant pellach i'r rhai fydd yn symud i'r colegau ymhell ac agos.

MARWOLAETH SYDYN – Daeth Marie – unig ferch Mrs Davies a'r diweddar Jessie Davies, Stryd-yr-Wyddfa ar ei gwyliau gyda'i phriod i'r ardal yn ystod mis Awst. Wedi dychwelyd i'w chartref yng Nghaerdydd cafodd ei phriod drawiad ar ei galon a bu farw. Bu yr amgylchiad sydyn yn sioc fawr i Marie, ac hefyd i'w mam oedranus. Mae cydymdeimlad yr ardalwyr yn ddwnf iawn â'r teulu hwn.


O SINGAPORE – Ychydig fisoedd yn ôl clywsom lais Janet, merch Mrs Maud Burford, Maes Padarn yn siarad o Singapore gydag Alun Williams ar ei raglen 'Alun yn Galw'. Y mis yma, mae Janet a'i theulu wedi cyrraedd adref i aros gyda'i mam am wyliau. Mor falch mae'r ardalwyr o'i gweld yn edrych mor iach a hapus. Dymunwn iddi bob llwyddiant pellach wedi iddi gyrraedd yn ôl i Singapore.

O'R CARNIFAL



Dyma i chi gystadleuaeth i'r genod bach! Criw ychydig yn hŷn o ffatri Greengate yn mwynhau'r Carnifal.

HELFA DRYSOR AR DROED YN LLANRUG



* MAN CYCHWYN A GORFFEN Y DAITH.

— FFYRDD — LLWYBRAU CYHOEDDUS

➔ CYFEIRIAD Y DAITH

DYMA GŴLE I CHWI GAEL MAP O DAITH YR HELFA DRYSOR. DOWCH Â CHOPI O'R "ECO" EFO CHI - A DIM OND DATRYYS Y PROBLEMAU FIDD RAID !!

RHYWBETH AT DDANT PAWB

Mewn cyfarfod diweddar o bwyllgor cangen Llanrug o Blaid Cymru trefnwyd rhaglen amrywiol o weithgareddau i'w cynnal yn fisol o hyn hyd haf 1982.

Pwysleisir bod rhai o'r dyddiadau a nodir eto i'w cadarnhau a chyhoeddir y manylion mewn digon o bryd yn siopau'r ardal ac yn ngholofnau'r Eco.

Dyma'r digwyddiadau:

17 Medi – 'Hel eich traed' – sef helfa drysor gerdded o amgylch Llanrug. Byddwch yn sicr o fod angen y map a welwch ar y dudalen hon.

15 Hydref – Noson o adloniant yng nghwmni'r Dewin Doniol a Seindorf Llanrug.

19 Tachwedd – Y Cyfarfod blynyddol
2 Rhagfyr – Dawns Werin a lluniaeth lonawr – Cwmni Theatr Bara Caws

18 Chwefror – Noson o ffilmiau

18 Mawrth – Gyrfa Chwist

22 Ebrill – Y Ffair Wanwyn

20 Mai – Helfa Drysor – ond ar olwynion y tro hwn!

12 Mehefin – 'Taith ddirgel' – Efallai y byddwch angen pasport.

Y CLWB CANT

Dyma enillwyr y Clwb Cant diweddaraf: 1. Hefin Jones, Pantmwyn; 2. O.E. Evans, Monalt a Phyllis Ellis, Penisarwaun.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

HEL ACHAU

gan Iwan Roberts

Bûm wrthi ers rhai blynyddoedd bellach yn hel fy achau, ac yn cael pleser mawr o ddarganfod ffeithiau a gwybodaeth am fy hynafiaid na wyddwn i, nag unrhyw aelod arall o'r teulu amdanynt. Mae bron a bod yn obsesiwn erbyn hyn, a threuliais oriau lawer yn holi'r teulu, yn pori drwy bob math o gofnodion mewn archifdai a llyfrgelloedd, yn cerdded mynwentydd ac yn ymweld â chofrestrfeydd.

Llenwais ffeil drwchus ag enwau, cyfeiriadau, dyddiadau a phob math o ffeithiau eraill, ond mae pob darn o wybodaeth newydd yn codi cwestiynau newydd, cwesitynau sy'n arwain at fwy o gwestiynau. 'Does dim diwedd a dweud y gwir.

Sut mae mynd ati i hel achau? Sut mae cychwyn! 'Rwy'n sicr fod llawer iawn ohonoch chwi a diddordeb mawr yn eich achau ond heb fod yn siŵrsut i fynd ati i chwilio. Y cam cyntaf yn ddiau yw holi. Holi eich teuluoedd, yn enwedig yr aelodau hynaf, holi pobl eraill o'r un ardal neu sy'n hanu o'r un ardal a'ch teulu, rhai a fu'n gymdogion neu'n ffrindiau i'r teulu. Mae ymhob ardal rai sy'n adnabyddus fel pobl a gwybodaeth fanwl a thrylwyr am yr ardal a'i phobl. Dylech nodi pob tamaid o wybodaeth, yn enwedig enwau, dyddiadau, enwau cartrefi a chysylltiadau teuluol. O'm profiad fy hun medraf ddweud ei bod yn well paratoi cwestiynau cyn ymweld â phobl, yn enwedig rhai mewn oed. Cewch lawer mwy o wybodaeth o ofyn cwestiynau pendant fel 'Beth oedd enw tad hwn a hwn' neu 'Beth oedd enw cartref hon a hon nag a gewch drwy ofyn cwestiynau cyffredinol fel 'Beth ydych yn gofio am fy nheulu'.

Wedi cael stôr o wybodaeth yn y modd yma, y lle nesaf i ymweld ag ef yw'r archifdy. Mae tri archifdy yma yng Ngwynedd: un yng Nghaernarfon, un yn Llangefni a'r llall yn Nolgellau, un ar gyfer y dair hen sir. Os yw'ch teulu yn hanu o Wynedd, yna fe fyddwch yn siŵr o ddod o hyd i lawer yn yr archifdai i'ch cynorthywo. Mae archifdai wedi eu sefydlu ymhob sir bron ym Mhrydain erbyn hyn.

Gofynnwch yn gyntaf am gael gweld y cyfrifiadau. Fel y gwyddoch, cynhelir cyfrifiad o'r holl wlad bob deng mlynedd, cynhaliwyd y cyntaf ym 1841. Yn ôl cyfraith gwlad mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y rhain yn gyfrinachol am gyfnod o gan mlynedd, felly dim ond cyfrifiadau 1841, 1851, 1861 ac 1871 fydd ar gael ar hyn o bryd, ond bydd Cyfrifiad 1881 ar gael yn y dyfodol agos. Mae holl boblogaeth y wlad wedi eu cyfrif a'u dosbarthu fesul plwyf. Ceir rhestr gyflawn o bob tŷ yn y plwyf. Gyferbyn â phob tŷ ceir enw pennaeth y teulu yn ogystal â'i oed, ei alwedigaeth a phlwyf ei eni. Yna ceir rhestr o aelodau eraill y teulu, eu perthynas i bennaeth y teulu (e.e. gwraig, mab etc.) eu hoed, eu galwedigaeth, a phlwyf eu geni. Ceir yn ogystal enwau unrhyw weision, 'lodgers' neu westeion eraill oedd yn y tŷ ar ddiwrnod y cyfrif.

Mae'n amlwg fod llawer o wybodaeth ddefnyddiol i'w gael o astudio'r cyfrifiadau yma. Gellir amcangyfrif dyddiadau

geni o sylwi ar oed y gwahanol aelodau o'r teulu yn y flwyddyn benodol. Gellir hefyd amcangyfrif dyddiadau priodas o sylwi ar y flwyddyn mae pâr ieuanc yn ymddangos gyntaf yn y cyfrifiadau neu o sylwi ar oed y plentyn hynaf.

Ffynhonnell arall y dylid ei harchwilio yn yr archifdy yw cofrestrau plwyf. Mae rhain yn stôr gyfoethog o wybodaeth i unrhyw un sy'n chwilio am hanes ei deulu. Ceir yma gofnodion bedyddio, priodi a chladdu. Ar gofrestr bedydd ceir enw'r tad a'r fam. Weithiau fe geir hefyd enw'r cartref a galwedigaeth y tad, ond 'roedd hyn yn dibynnu ar y rheithor a gadwai'r cofnodion. Nid oedd unrhyw reolau pendant ynglŷn â'r wybodaeth a ddylai ymddangos yn y Cofnodion. Dylid cadw mewn cof hefyd nad yw cofnod o fedydd bob amser yn rhoi syniad o ddyddiad geni. 'Roedd rhai plant wedi tyfu neu hyd yn oed yn bobl mewn oed cyn cael eu bedyddio. Gwelais amryw gofnod o deuluoedd cyfan yn cael eu bedyddio gyda'i gilydd.

Mewn cofnod priodas ceir enw'r priodfab a'r briodferch yn ogystal ag enwau eu cartref ac enwau eu tadau. Os ydych yn ffodus cewch hefyd enwau eu mamau, ond 'roedd hyn hefyd yn dibynnu'n hollol ar y rheithor.

Yn anffodus, nid yw pob cofrestr plwyf ar gael yn yr archifdai. Mae rhai yn aros yn yr eglwysi, a bydd gofyn i chwi gysylltu â'r rheithor er mwyn eu harchwilio. Ceir hefyd fylchau yn y cofrestrau sydd ar gael yn yr archifdy. Yn aml aeth y cofrestrau ar goll cyn eu trosglwyddo i'r archifdy. Mae aml i gofrestr hefyd wedi dirywio neu bydru oherydd effeithiau lleithder a diofalwch mewn rhai eglwysi. Os dewch ar draws y broblem yma ceisiwch gael cyfle i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae yno gasgliad llawn o'r 'Bishop's Transcripts' ar gyfer esgobaeth Bangor. 'Roedd yn ofynnol i bob rheithor, ar ddiwedd blwyddyn, anfon ei gofrestrau plwyf at yr esgob ym Mangor. Yno caent eu copio, cyn eu hanfon yn ôl i'r plwyf. Y copiau yma yw'r 'Bishop's Transcripts' sydd yn awr yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Os na ellwch ddod o hyd i gofnod bedyddio arbennig yn y Cofrestr plwyf, chwiliwch am gofnodion y capeli. O gwmpas dechrau'r ganrif cychwynnwyd cadw'r cofnodion bedyddio gan lawer o'r capeli. Yn anffodus mae

gan yr anghydfurfwyr rywbeth i'w ddysgu gan yr eglwyswyr am gadw cofnodion. Prin iawn yw'r cofnodion sydd wedi goroesi o'r ganrif ddiwethaf. Pwy a'wyr faint o'r dogfennau yma, dogfennau sy'n amhrisiadwy i'r hanesydd lleol, sy'n llwydo neu droi'n llwch ar waelod rhyw gwpwrdd neu silff mewn festri laith. Buasai gweinidogion ac ysgrifenyddion ein capeli yn gwneud cymwynas fawr â'r gymdeithas pe baent yn trosglwyddo'r dogfennau yma, sef cofrestrau bedydd, llyfrau eisteddleoedd, llyfrau'r trysorydd ac yn y blaen i'r archifdai. Mae copiau ar gael yn yr archifdy o gofrestri cynnar (hyd at 1837) y capeli lleol a fodolai ar y pryd, capeli fel Capel Coch, Capel Dinorwig a'r Capel Mawr. Gorfodwyd y capeli i drosglwyddo'r cofrestrau yma i'r llywodraeth pan ddechreuodd cofrestru swyddogol yn 1837, ac o'r herwydd maent ar gael heddiw.

Gobeithiaf barhau y mis nesaf drwy sôn am ffynonellau pellach


y dylid eu harchwilio. Yn y cyfamser os oes eisiau cymorth neu gyfarwyddydarrhywunsydd a diddordeb mewn chwilio am eu hachau, byddaf yn falch iawn o'u cynorthwyo. Byddwn yn falch hefyd o unrhyw gymorth gan ddarllenwyr yr Eco am fy nheulu fy hun. 'Rwyf eisiau unrhyw wybodaeth am loan ac Elin Williams. 'Roeddynt yn byw mewn bwthyn o'r enw 'Y Fachwen', o dan Capel Dinorwig. Bu loan farw yn 1870 ac Elin yn 1902 yn 99 oed. Fe'u claddwyd yn eglwys Nant Peris. Byddwn yn ddiolchgar hefyd am unrhyw wybodaeth am deulu Penrallt, bwthyn arall gerllaw Fachwen, a theulu Glangors, uwchben capel Sardis, Dinorwig. Yn olaf a all rhywun fy nghynorthwyo i ddod o hyd i gofnodion claddedigaethau ym mynwent Macpelah, Deiniolen? Byddwn yn ddiolchgar iawn o gael golwg arnynt. Fy nghyfeiriad yw: Pendyffryn, 4 Talybont, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: Caernarfon 5649

ANRHEGU DIRPRWY-BRIFATHRO



Mr Derfel Gruffydd (Prifathro) yn cyflwyno rhodd i Mr T.R. Jones.

Roedd diwrnod olaf tymor yr haf yn ddiwrnod arbennig iawn i Mr T.R. Jones, Rallt Goch, Llanberis, oherwydd ar y diwrnod hwnnw gorfu iddo ffarwelio â phlant ac athrawon Ysgol Gynradd Llanrug ar ôl 32 mlynedd o wasanaeth yn yr ysgol. Mr Jones oedd Dirprwy-brifathro'r ysgol, ac ar achlysur ei ymddeoliad cyflwynodd Mr Derfel Gruffydd, y Prifathro, gyfrol hardd o Wasg Gregynog iddo. Yn ogystal derbyniodd Mr Jones ddarlun o Ddyffryn Llanberis gan staff cegin yr ysgol. Pleser i'r Eco, ar ran pawb yn y fro ac yn enwedig ar ran plant Llanrug ddod a heddiw, yw dweud "Diolch yn fawr Mr Jones, ac ymddeoliad hapus iawn i chwi."



Dyma lun o ddosbarth olaf Mr T.R. Jones yn Ysgol Gynradd Llanrug. Yn y llun hefyd gwelir Prifathro'r Ysgol, Mr Derfel Gruffydd.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: PENYLLYN 518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

HEN ARWYDDION TYWYDD

Y mae arwyddion y tywydd yn amrywio o fro i fro. Dyma benillion y tywydd gyfansoddodd fy nhad dros drigain mlynedd yn ôl. Gellir canu'r penillion canlynol ar yr alaw Pen Rhaw.

GLAW

Mae brân uwchben Dinorwig draw
Yn gwaeddi braw tra hyllig:
A'r creyr-glas ar draeth y llyn
Yn adyn dychrynedig:
Fe ddaw y glaw i lawr yn glau -
Mae'r borau dan y barrug.

Mae ieir-y-grug o drum Cefn Du
Yn tyrfu ar y terfyn:
A'r ffarmwr draw yn galw'n uwch
Wrth nôl ei fuwch a'i fochyn;
A'r glaw yn fras o'r cwmwl fry
Yn dechreu dysgu disgyn.

Hen wig y ddôl dry'n fedd i'w chôr,
A'r llyn dry'n Fôr lweydydd,
Pan gura'r ddrycin yn ddi-len
Ar aden yr ehedydd:
A brigau'r coed ar fryn a phant
Yn sturmant i'r ystormydd.

Niwl Criccieth acw draw ar frys
Yn wregys gylch y brynau:
Ysgrympiau trymion fory fydd,
A thrennydd melit a th'ranau;
Mae'r tai'n llawn mwg a'r merched
fflwch
Mewn d'ryswch yn y drysau.

Mae gwynt y De a'i arw ru
Yn chwythu'r dail o chwithig:
A brain y môr fel 'llygad dydd'
Yn britho'r dolydd deilig:
Bydd croesi fory'n sych a da
Trwy'r Bala'n waith trybeilig.

O Wyddfa wen! dydi heb gur,
Wnei'r glaw yn bur aberoedd:
Fe ddysgi wersi da i lu
Drwy ganu mewn drycinoedd;
Ac esgyn fry uwch storm a'i rhu
I nwyfus fro y nefoedd.

TYWYDD SYCH

Y mae rhyw fwrllwch yn y nant
A'r Ceunant Mawr yn canu:
Yr afon goch arafa'n gam,
A'i physg dinam yn llamu:
A tharw'r ddôl yn rhuo bas
Cawn awyr las yfory.

Mi glywais dwr 'Jac' a'i lu
Yn nythu acw neithiwr:
Fe dybiais fod rhyw ryfel fawr
I lawr yn simdda'r parlwr:
Ac 'roedd y lleuad ar lun cwch -
Mi welwch fis o sychtwr.

Mae ieir Tŷ Du yn chwarae'n dwr
A phentwr o lyffantod:
A defaid clau ar fryniau clir
Y Clegir fel ceiliogod:
Cawn dywydd teg mae Carlo'r ci
Yn coethi ar ôl y cathod.

EIRA

Er noethi'r fraich mae'n poethi'n
siwr,
Mae'r chwys fel dŵr diarbed.
O! Glogwyn Coch! mewn gwres fel
hwn
Mi dalwn am dy weled
Rhywsur, wir, drwy siwt o ia,
A'r eira'n dod i waered.

Glan Rhyddallt

GWYDDEL YN GYMRO

Bu farw Mr Daniel Kelly, 2
Thomas Street, Caernarfon,
ganol Medi 1941 yn 68 oed.
Ganwyd Daniel Kelly yn yr
America fel Gwyddel ond
dewisodd fod yn Gymro. Yr oedd
ei rieni wedi mynd i fyw i'r
America gyda miloedd eraill o
Wyddelod amser y newyn mawr
yn yr Iwerddon.

Pan oedd Daniel Kelly yn
chwech oed daeth ei rieni i fyw i
Gaernarfon i weithio ar y
rheilffordd a osodwyd i lawr pryd
hynny. Mynychai'r ysgol geiniog
yn y dref a daeth yn Gymro selog.
Ymddiddorai ym mhob
traddodiad a hanesion y dref a'r
wlad. Daeth yn gyfaill mawr i
Eifionydd, Gwynfor, a Meuryn ac
eraill.

Dysgodd Dan Kelly Gymraeg
a'i siarad yn ramadegol ac yn
hynod o ofalus. Derbyniwyd ef
yn aelod o'r Orsedd yn
Eisteddfod Genedlaethol
Caernarfon a chafodd yr enw
barddol 'Mab Erin'. Yr oedd yn
gyfaill personol i Mr Lloyd
George o'i etholiad gyntaf.

Fel aelod o'r Eglwys Babyddol
pwysodd ar Esgob Mynwy yr
angenrheidrwydd i'r offeiriad
ddysgu Cymraeg a thalu mwy o
sylw i'r iaith yn eu gwasanaeth.
Llwyddodd ei apêl at yr Esgob.

Bu'n gweithio fel barbwr am
flynyddoedd, a disgrifiwyd ef
gan Eifionydd fel "gŵr y min a'r
geiriau mawr." Claddwyd ef ym
mynwent Llanbeblig.

Am drin pen a glawleni, - am eillio,
Am ellyn a'i hogi,
Am ganmawl rhyddfrydawl fri,
Nid un cool yw Dan Kelly.

Alafon

PASIANT C



Llun o Basiant Beibl i Bawb o Bobl y Byd, i ddathlu Trydydd Jiwibili y Feibl Gymdeithas 1954 a
Cadwer cof am y ddau a drefnwyd y pasiant, sef Mr William Jones, Eirianfa a Mr Gwilym
I mi fel un o'r cymeriadau yn y pasiant, dyma'r amser mwya' difyr imi erioed ei gael, o fynd
ac roeddynt bob amser yn barod i'n hyfforddi gydag amynedd. Meddyliaf hefyd am y croeso
aelwyd y ddau.

Gwerthfawrogiad yw hyn gan Carys Hughes (Jones gynt o Glan Bogelyn, Cwm-y-glo), merch

SINC DYFFRYN, CHWAREL DINORWIG



Anfonwyd y darlun uchod gan Mr Goronwy Williams, 6 Felin Gerrig, Llanllyfni, gynt o
Pant Sardis, Dinorwig. Cred fod y llun wedi ei dynnu tua 28 mlynedd yn ôl. Dyma'r
enwau: - RHES GEFN: Meurig Jones, Llanrug; Efan Williams, Crawia, Llanrug;
Hugh Hughes, Bethel; Owen Williams, Gallt y Foel; Aled Evans, Cwm-y-Glo; David
Jones (pwyswr), Deiniolen; a Bobbie Woodcocks, Deiniolen. RHES GANOL: Ken
Mowll, Penisa'r-waun; a John P. Roberts, Dinorwig. RHES FLAEN: Thomas Morris
(dreifar), Dinorwig; Owen Thomas, Deiniolen; a Goronwy Williams, Dinorwig.



DRAENOG

TRIP AM DDIM AR Y TRÊN : os ydych yn
dymuno trip am ddim ar drên ewch ag
Almaenes i Fangor neu cysylltwch â...

WM-Y-GLO



athlu dau canmlwyddiant geni Thomas Charles o'r Bala; yn ystwyddyn 1955 gan blant y Cwm.

ch i berfformio, a mawr ein diolch heddiw yw cael cofio am William Jones a Gwilym Evans

wn yn gael gan Mrs Jones, Eirianfa pan y byddwn yn mynd yno i ddysgu ambell i gân ar

ATGOFION AM Y DDAU GRYDD

Pan oeddwn i'n blentyn yn Llanrug yn y tridegau, yr oedd dau grydd yn y pentref, sef Rolant Roberts, 'Crydd Bach Waun', a Dafydd Pritchard, 'Dafydd Crydd'.

'Roedd gweithdy'r Crydd Bach hanner ffordd rhwng Groeslon Post a Chroeslon Marc, yn union lle mae modurdy John Trefor heddiw, - rhyw hen gwt bach blêr a lliw coch arno. Ond wedi i chwi fynd i mewn iddo 'roedd yn grand ryfeddol, gyda lluniau o bob lliw ar y waliau, lluniau timau pêl-droed gorau Lloegr, Aston Villa, Arsenal, Burnley ac eraill. 'Roedd y Crydd Bach wedi bod yn cadw siop crydd yn yr ardal am dros hanner can mlynedd, a bu ei dad a'i frawd yn cadw siop crydd o'i flaen yn Rhes Bryn Coch.

Esgidiau hoelion mawr fyddai gennyf fi yn mynd i'r ysgol ac yn chwarae ers talwm. Byddai'n had yn dweud bob amser, 'Os wyt eisiau esgid i bara'n hir, dos â hi i Crydd Bach Waun, ond dos ag esgid Dydd Sul i Dafydd Crydd'. Y rheswm am hyn oedd bod y Crydd Bach yn defnyddio ffordd hen ffasiwn i galedu'r lledr, sef ei guro â mwrthwl. Felly at y Crydd Bach y byddwn yn mynd â'r esgidiau hoelion mawr, - byddent yn ardderchog i sgelfrio ar Lyn Glanmoelyn! - mynd â nhw i'r siop wrth fynd i'r ysgol yn y bore, a'u cael yn ôl tua phump yr hwyr.

Byddai'r Crydd Bach yn cau ei weithdy am hanner awr wedi pedwar bob dydd, rhoi ei gôt fawr amdano a'i het galed ddu, a llond ei sach o esgidiau wedi eu gwadnu; a'i gyfarchiad siriol ar y ffordd bob amser fyddai, 'Hei, sumai!' Byddai'n galw mewn ambell i dŷ ar y ffordd adref i Waunfawr, ond yn gyntaf byddai'n galw yn nhŷ tafarn Glyn Twrog am lasiad, wedyn i lawr â fo am Benbont, ac weithiau byddai'n galw acw gydag esgidiau wedi eu gwadnu. Byddem ni blant yn ei wyllo'n yfed ei ddiod trwy ddrws talcen Penbont, - 'roedd drws gwydr yno pryd hynny. 'Roeddem ni'n methu deall beth oedd yn ei yfed, rhyw ddiod melyn, a ninnau'n meddwl mai peth du a ffroth arno oedd bob cwrw. Deall wedyn mai 'bitter ale' oedd o!

Wedyn fe gerddai adref i Groeslon Uchaf, Waunfawr lle 'roedd yn byw, dipyn o gamp o

wybod bod gelltydd Fodlas mor syth. 'Roedd wedi gwneud hyn yn ôl ac ymlaen am hanner cant o flynyddoedd, taith o ryw dair milltir un ffordd.

'Roedd Gweithdy Dafydd Crydd ar Groeslon Post, yn union lle mae iard Gwilym Cerrig Beddi heddiw. 'Roedd dwy siop yn yr un adeilad a oedd o bren a sinc, sef gweithdy'r crydd, a'r drws nesaf, siop bapur newydd a llyfrau, - gwerthid beics yno hefyd, - yn cael ei chadw gan Owen Edwards, Fron Chwith, Rhos Ddu wedyn.

Dyn bychan a rhyw ychydig o herc ganddo oedd Dafydd. 'Roedd yn cael ei gyfrif yn grydd da iawn. Os oedd y Crydd Bach yn cerdded i'w waith, beic oedd gan Dafydd, ac ar ben hynny, beic merch oherwydd ei gloffni.

Credaf fod mwy o gymdeithas yng ngweithdy Dafydd Crydd nag yng ngweithdy'r Crydd Bach; byddai llawer o ddynion yn mynd yno am sgwrs. 'Roedd Dafydd yn byw mewn tyddyn oedd ar bwys cae chwarae'r pentref. Byddai hogiau ieuanc yr ardal yn cicio ffwtbol ar ôl dod adref o'r chwarel, ac yn aml byddai'r bêl yn mynd drosodd i gae Dafydd. Byddai'n gwylltio'n gacwn ac yn aml yn malu'r bêl.

Ond credaf bod dipyn o dlodi mewn ardal fel Llanrug ar ôl colli cymeriadau fel y ddau grydd.

Rybelwr Bach

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA


LLANBERIS

Ffôn:
PENLLYN 285
neu PADARN 327

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



BETWS GARMON

PRIODAS - Dymuniadau gorau i Carol Jones, Tŷ Coch ac Alan Griffiths, Caeathro ar eu priodas yn ddiweddar.

CŴN DEFAID - Bu'r ymryson ar Awst 14 a 15 yn Ystrad Isaf (trwy

garedigrwydd Mr a Mrs G. Owen). Y beirniad oedd Mr Harry Lloyd Griffith, Talysarn a'r enillwyr oedd: (Cwpan Coffa John Lewis Trosgol) - Geraint Owen, Waunfawr; (Dan 21 oed) - Huw M. Roberts, Bethel. (Dosb. 4) - 1 a 4. A.J. Williams, Waunfawr; 2. O.P. Pritchard, Betws

Garmon; 3. Geraint Owen, Waunfawr; 5. G. Owen. (Dosb. 3) - 1. Emyr Evans, Betws Garmon. (Agored) - Alan Jones, Pontllyfni. (Dosb. 2) - 1. J.R. Griffith, Talysarn.

Enillwyr y raffl oedd: 1. B.H. Owen, Nant Peris; 2. Aled Taylor, Waunfawr; 3. R.E. Morris, Waunfawr; 4. Islwyn, Gwasg Gwynedd; 5. Len Williams, 16 Gerlan Road, Bethesda.

Dymuna aelodau'r pwyllgor ddatgan eu diolch i bawb a'u cefnogodd.

PLESERDAITH Y NIAGARA

Ychydig ar ôl dychwelyd o'u gwyliau yn Canada eleni aeth Mr a Mrs Myrddin Williams, Penterfyn am dro i Ddyffryn Nantlle i weld eu hen gyfaill Mr W.J. Jones, Talymignedd. Yn ystod y sgwrs soniodd Myrddin Williams am y wefr a gafodd o edrych ar yr afon Niagara a'i cheunentydd enwog. Soniodd hefyd mai'r peth cyntaf a ddaeth i'w feddwl oedd y gân enwog honno a glywsai yn cael ei chanu 'slawer dydd mewn Eisteddfodau lleol am Bleserdaith y Niagara. Yn naturiol ddigon, gan fod W.J. yn un o gantorion enwoca' ei ddydd, aeth y ddau i sôn am y diweddar G.T. Jones, Llanrug (Guto Buarthau i'w gyfoedion) yn canu y gân enwog am drasiedi'r ddau blentyn ar yr afon. Dyma atgofion W.J.:

ATGOFION W.J. Jones
Talymignedd Isaf, Nantlle


Fy hoff bleser pan oeddwn yn ieuanc fyddai cael ymuno a cyd-deithio i wahanol eisteddfodau yng nghwmni prif gantorion ac adroddwyr fy nglyfnod.

Cofiaf ddod i Eisteddfod Drws y Coed ar noson braf o Fai yn y flwyddyn 1927 yng nghwmni y diweddar 'faritone' enwog sef G.T. Jones o Lanrug ynghyd â'r adroddwraig arbennig o'r Waunfawr sef 'Gwaenferch'.

Cofiaf i ragbrawf yr adrodd gael ei gynnal mewn hen adeilad a berthynai i gwmni yr hen waith copr, yr uchaf o'r ddau, a fyddai yng ngodre Gallt Drws y Coed. Cynhelid rhagbrawf y canu yn y Capel. Gwledd bythgofiadwy i mi fyddai cael y pleser o wrando ar nifer fawr o gantorion o fri yn cystadlu ar yr unawd Gymraeg. Maent yn rhy niferus i'w henwi, ond o sylwi yr oedd gan bob un ohonynt eu cân arbennig eu hunain, cân a fyddai'n gweddu orau i'r llais o ran ansawdd a theimlad. 'Pleserdaith y Naiagra' oedd ffefryn y diweddar G.T. Jones o Lanrug. Fel Guto'r Buartha yr adweinid ef y pryd hwnnw. Yr oedd yn adnabyddus iawn trwy Ogledd Cymru gyfan fel unawdydd arbennig iawn. Yr oedd ei bersonoliaeth hardd a'i arddull fel llwyfannwr yn tynnu

sylw'r beirniad a'r gynulleidfa. Nid yn unig gyda'i lais cyfoethog a melodaidd y byddai yn denu sylw'r gwrandawyr ond yr oedd ei naturioldeb a'i wên foddhaus pan fyddai'n agor yr unawd safonol yma, sef 'Pleserdaith y Naiagra'. Llwyddai bob amser i roddi darlun byw o'r llanciau nwyfus un dydd ar doriad gwawr mewn pleserfad yn hwylio ar y Naiagra fawr. Yr oedd ei ddatganiad bob amser yn lliwgar ac yn feddylgar iawn. Gallech weld trwy ddrych eich meddwl y dŵr mor llyfn a gwydr gloyw glân a'r llanciau nwyfus yn eu hafaiith yn y cwch, heb sylweddoli eu perygl. Ond pan oedd y llais o'r lan yn eu rhybuddio trwy weiddi 'Ahoi ... Ahoi, mae'r rapids gerllaw, Ahoi', rhybudd oedd hwn fod y cwmp gerllaw. Yn y rhan gyffrous yma y byddai'r hen G.T. ar ei orau. Newidiai ei wynepryd ac edrychai yn frawychus gan droi ei ddau lygaid treiddgar i wahanol gyfeiriad oddi ar y llwyfan cyn taro'r 'Ahoi' nes y byddai'r capel yn diasbedain. Ond pan yn dod i'r ail 'Ahoi' mi fyddai hwnnw fel carreg ateb, fel pe bai yn cael ei gario i'r pellteroedd gan greu awyrgylch effeithiol dros ben. Nid wyf yn cofio i neb ei guro ar y gân arbennig hon. Cofiaf iddo'r noson honno dynnu'r lle i lawr fel yr arferem ddweud. Roedd yno guro traed a dwylo, rhai yn chwibanu ac yn gweiddi er ceisio ei ail alw i'r llwyfan fel pe baent mewn cyngerdd, ond fe lwyddodd yr arweinydd o'r diwedd i'w tawelu hyd nes daeth yn amser i'r beirniad ddod ymlaen i'w cloriannu. Dyfarnodd y wobwr gyntaf o ddigon i G.T. gyda chanmoliaeth uchel iawn. Cafodd gymeradwyaeth fyddarol gan y gynulleidfa pan gerddodd yn hamddenol a dringo i'r llwyfan i dderbyn ei wobwr. Caniatawyd iddo ei hail ganu, peth anghyffredin mewn eisteddfod, ond llwyddodd i'w chanu yr un mor wefreiddiol yr eildro. Noson fythgofiadwy.

Wrth geisio rhoddi dipyn o hanes yr eisteddfod yn Nrws y Coed soniais am y cantorion fel yr oedd gan bob un ohonynt eu ffefryn mewn caneuon. Balch wyf o gael sôn fod gan yr adroddwyr hefyd eu hoff adroddiad. Wel ffefryn 'Gwaenferch' bob amser fyddai



Rhaeadr Niagara — un o ryfeddodau naturiol y byd.

'Gwron y Conemaugh' yn y stori frawychus honno sef 'Dinistr Johnstown'. Yr oedd ganddi ddawn arbennig iawn o dynnu darlun byw o'r drychineb yn enwedig y marchog dewr yn carlamu hyd lethrau'r brynau gan weiddi 'Ffowch i'r brynau am eich einioes' i rybuddio'r trigolion islaw fod muriau'r llyn mawr a oedd yn uchel yng nghanol y brynau yn dechrau gwegian dan bwysau'r llifeiriant ar ôl dyddiau o law trwm.

Fe ddylanwadodd perfformiad gwyh 'Gwaenferch' o'r adroddiad arbennig yma yn fawr arnaf. Yr wyf hyd heddiw yn gweld y darlun yn glir trwy lygad atgof o dros hanner can mlynedd yn ôl, yn enwedig ddarlun byw o'r marchog, sef 'Gwron y Conemaugh' yn carlamu ar gefn ei geffyl i gyfeiriad y bont gan ddal i weiddi, 'Ffowch i'r brynau am eich einioes, ffowch'. Yr oedd 'Gwaenferch' mae'n amlwg wedi astudio'r stori gyffrous yma yn drwyadl. Tremiai ei lygaid byw tua'r brynau a'r bont lle ceisiai'r

marchog ei chroesi cyn i'r llifeiriant ei oddiweddyd. Edrychai yn welw ar y llwyfan fel pe bai yn dyst byw o'r gyflafan. Roedd y ddawn o greu awyrgylch yn rhan ohoni. Byddai'r gynulleidfa megis yn dal eu gwynt pan fyddai yn cyrraedd yr uchafbwynt sef darlun o'r bont a'r marchog yn mynd i ganlyn y llifeiriant a dim ond atsain o lais y marchog i'w glywed yn y gwynt.

Roeddwn i yn rhyw gysuro fy hun mai chwedl oedd hi, tebyg i stori Gelert, ci Llywelyn, hyd y priodais â merch o Ddrws y Coed yn y flwyddyn 1932. Dyma pryd y sylweddolais fod yr hanes yn wir bob gair, gan i wr ieuanc o Goleg y Bala gael ei alw yma'n weinidog yn y flwyddyn 1856, Mr E.W. Jones oedd ei enw a bu yn gweinidogaethu yma hyd y flwyddyn 1872 pryd yymfudodd i America ynghyd â theulu arall neu ddau o Ddrws y Coed yno yr un amser. Trist yw meddwl iddynt i gyd golli eu bywydau yn ninistr llifeiriant Johnstown.

ATHRAWES YN YMDDEOL



Y Parch S.O. Hughes, Bethel yn cyflwyno rhodd o flodau ar ran plant ac athrawon Ysgol Gynradd Bethel, i Mrs M.L. Evans fel gwerthfawrogiad o saith mlynedd o wasanaeth fel athrawes.

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL


Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Penyllyn 236.



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

UN O STORIAU'R CYFAR MAIN gan Y Gwalch

Erstalwm, doedd pobl y wlad ddim yn cymowta gymaint i wario ac i edrych ar siopa. Roedd y rheini yn dod atyn nhw, fel petae, ar ffurf y gwerthwyr teithiol: Robin Sneits a Hala Binna ac yn nes i fy amser i, Dyn Du Un Daint.

O Fangor y byddai o'n dod, a bag yn llawn o ddillad sidan ar ei ben o, nes yr oedd o'n edrych fel llythyren T. Roedd ganddo fo glwt pwddin am ei ben, ac un sgythrant melyn yng nghil ei geg, fel baedd gwyllt. Ac roedd tad Now Bach, a oedd wedi bod yn soldiwr, yn dweud fod yna adar mawr piws yn India, yn dod allan nos i dynnu dannadd pobl a oedd yn cysgu hefo'u cega yn agored. Ond doedd yna fawr o goel ar betha hwnnw yn y Waen, byth ar ôl iddo fo weld Ioan Fedyddiwr yn disgwyl moto wrth dalcan cotsiws Griffiths rhyw noson fawr pan oedd o'n dod adra o Ben Bont.

Ond ychydig wyddai neb am y dyn du, onibai fod ganddo fo gôt fawr at ei draed haf a gaeaf, ac os byddai o wedi tynnu honno, roedd o'n arwydd cystal a gweld Niwl Conwy, ei bod hi am afael mewn tywydd.

Roedd Siani'r Efail hyd yn oed wedi methu mynd i'w fasgiad o, pan oedd hi'n hel tail ceffyla hyd y lôn, a fynta yn eistedd ar ei fag wrth y gweithdy yn disgwyl Joni Huws chwech. Roedd hi'n dweud mai o swabia Bombay roedd ei gychwyniad o, ac mai nid cari-dym oedd o, o bell ffordd.

Ond doedd hynny yn dileu dim ar ei arswyd o gan blant bach y Waen a rhai o'u mamau, ac yn wir roedd yna straeon brawychus yn cylchredeg amdano fo yn Ysgol Tan Coed – yn enwedig beth a oedd ganddo fo yn ei fag, ac roedd Tomos Owen, Tŷ Newydd wedi mynd mor bell ag awgrymu wrth fy nhad, ei fod o yn un go sownd am ferched.

Roedd ganddo fo gledda yn ei fag meddai rhai, ac roedd o wedi bygwth Margiad Huws hefo fo pan wrthododd hi brynu pais, a honno yn rhatach na beth fasa hi'n gael ar y Maes. Roedd Bob Bach Rallt yn dweud fod rhywun wedi ei weld o yn practiceio saethu mës yng nghae Bryn Madog, hefo rifolfar. Roedd yna stori arall ei fod o wedi rhedeg ar ôl howsgipar Now Jones i'r beudy, ac onibai iddi gael gafael ar bicwach godi ar wal y bing a'i dal hi ato fo, mi fasa wedi darfod amdani.

Ond fel y darganfuwyd, roedd ganddo fo rywbeth saith gwaeth yn ei fag nag arfa rhyfel, ond ddaeth hynny ddim i'r amlwg tan ar ôl yr helynt honno hefo Anti Nel.

Roedd hi'n perthyn gwaed coes bren i mam, ac mi fyddai yn dod acw i springclinio. Doedd hi fawr o gorffyn i gyd, ac roedd hi unwaith wedi cael ei charcharu ar Ellice Island, ac wedi gweld Prif Weinidog y Tylwyth Teg ar Gors Cae Coch.

Roedd hi'n llunau'r spens rhyw ddiwrnod, a bwndel o ryw hen sgideuach o gwmpas ei thraed hi, a phwy ddaeth ond Dyn Du Un Daint ac agor ei fag ar y rhiniog rhag i neb gael cyfle i roi clep ar y drws yn ei wyneb o. "We don't want anything today," meddai Anti Nel,

"You're not the missus," medda fynta.

"I'm the missus today," medda hitha a ffling i ryw hen welington at-o – beth welais a fy llygad fy hun – ac onibai ei fod o yn un sydyn hefo'i ben, mi fasa wedi cael ei sawdl hi yn

ei dalcan. Dyma fo yn rhoi clep ar ei fag a'i goleuo hi cyn iddo fo gael ei phartneras hi yn ei wegil.

Wrth gwrs, mi es i â'r stori i'r ysgol, ac roedd hi'n hysbys i bawb erbyn nos fod Anti Nel yn fos ar Dyn Du Un Daint, ond ymhen rhyw dridia, roedd Now Bach wedi dod ag un arall, a fu'n foddion i daflu dŵr oer am ben pob dim ac achosi i bawb fod fwy o ofn ddengwaith nag y buon nhw erioed o'r blaen.

Roedd ei fam o wedi dod adre rhyw ddiwrnod yn swp sal – a doedd hi ddim yn adeg iddi gael y beil chwaith. Roedd hi'n dod o Siop Gron hefo neges ar draws Gors Goch, a beth welodd hi'n eistedd a'i gefn ar dŷ gwair Cerrig Gwynion, ond y dyn du. Roedd ei fag o ar ganol y llwybr yn agored, a beth oedd yn sefyll yn syth bin allan o hwnnw, ond neidr fawr. Roedd hynny ynddo'i hun yn ddigon iddi ollwng ei neges a rhedeg bob cam rownd Arthur Terrace, ond mi welodd rywbeth arall oedd yn saith gwaeth. Doedd gan y dyn du ddim cerpyn amdano.

Pan fagodd hi ddigon o blwc i ddweud y stori i gyd wrth ei gŵr ar ôl iddo ddod adre, dyma hwnnw'n dweud yn ddigon didaro, ei bod hi'n beryg bywyd swyno nadroedd wedi gwisgo amdano. Fasa'r neidr ddim yn nabod ei meistr, ac mi fasa yn ei bigo fo mewn munud, ac mi fasa hwnnw yn bwrw ei groen wedyn bob blwyddyn gron tra bydda fo byw – os byw fydda fo hefyd.

Pan ofynnais i i Now sut liw oedd ar y neidr, doedd o ddim wedi meddwl gofyn, ond roedd o braidd yn siŵr mai un felen oedd hi hefo llygaid gwyrdd. Mi es innau i chwilio i'r llyfr natur hwnnw a brynodd mam yn ocsiwn Doctor Roberts, ond doedd yna yr un trychfil yn hwnnw yn agos i'r disgrifiad, a phan ddywedais i wrth Now, dyma fo'n dweud mai wedi gyrru i ffwrdd amdani yr oedd o reit siŵr.

Welwyd mo'r dyn du wedyn am bobiad neu ddau. Roedd hi'n ganol haf, a phwy ddaeth tros y mynydd am wythnos o wyliau i'r Gors, drwy'r Rhiwlas dan gicio tynia a difetha ei sgidiau', ond Dei Braich Melyn, achos roedd ei dad o yn gyfyrdar i mam.

Roedd o'n hŷn na mi, ac yn fentrus. Unwaith aeth ar gamfa led ar hyd gribau'r beudai rownd yr iard ac ar ben tŷ gwair heb unwaith roi ei draed ar lawr, ac yr oedd yna sôn ei fod o un diwrnod golchi wedi rhoi ceiliog ei nain drwy'r mangl. Synnais i fawr glywed amser rhyfel ei fod o wedi ei ladd yn dal yr Airborne Bridge, yn Arnhem.

Roedd o wedi bod yn celcio, a dyma ni i siop Waen i nôl Wdbein bach gan gymryd arnom mai i Jac Pensarn yr oedd o, am ei fod o yn digwydd bod yn teneuo rwdins i nhad.

Wrth ddod adre, pwy ddaeth allan o Dŷ Gwyn ar ein sodla ni, ond Dyn Du Un Daint. Roedd yna rhyw iâs yn fy nghrwm i tan nes y trodd o i lawr am dŷ Robin Bilws. Dyma ni yn ein blaena a throsodd i Barc Nant Efa i danio a chwythu mŵg drwy ein

trwyna, a dyma fi'n deud wrth Dei hanes y neidr a'r cledda. Ond i'm mawr syndod, dyma fi'n darganfod mai nid gennym ni yn unig oedd yr hawlfraint ar y dyn du. Roedd o'n dod i P'esda, meddai Dei, a Jac Blac oedden nhw yn ei alw fo ffordd honno, a'i fod o mor ddiniwed ag oen bach.

Toc, dyma ni'n ei glywed o yn troedio heibio a dyma ni'n cwrcwd tu ôl i ryw eithen. Mi aeth dan siarad a fo ei hun, ac erbyn hyn roeddwn i ar dân i gael blaen arno fo i ddeud wrth mam, er mwyn iddi gael cyfle i roi clep ar y drws a'i gloi o. Ond i'm mawr ryddhad i, dyma fo'n troi ar hyd llwybr Cae Bifan, a ninnau'n ei ddilyn o, o lech i lwyn, a dyma fo'n ei rhoi hi i lawr ar bompren Cae Hob, a'r peth nesa dyma fo'n agor ei fag a dechrau tynnu amdano.

Roedd Dei erbyn hyn yn sipian ei wynt ac yn gegrwrth, ac roedden ni ein dau a'n llygaid ar y bag yn disgwyl i'r neidr ddod allan. Yn lle hynny, dyma'r dyn du yn neidio i'r ffos a'i glwt am ei ben.

"Mae o'n mynd am ddowc," meddai Dei.

Ond roedd y dyn du wedi canfod ei gamgymeriad yn rhy hwyr. Doedd yna ddim soltrwydd yng ngwaelod y ffosydd mawn fel y fam Ganges. Dyma fo i lawr at ei geseiliau, a dechrau gweiddi fel cyw mul, ac mae'n amlwg mai ar ei ffordd i'r tanddaearol leoedd yr oedd o,

"Mae'r diawl gwirion yn mynd i fodd," meddai Dei. Ac erbyn hyn roedd yr argyfwng wedi dileu ein hofnau. Dyma ni a ras at lan y ffôs a doedd yna ddim ond prin ei glwt

pwddin o yn y golwg. Dyma ni'n cythru yn ei freichiau o ac roedd o'n gafael fel fais, ac roedd hi'n amlwg os nad oeddai ni yn mynd i'w dynnu allan, ei fod o yn benderfynol o fynd a ni y ffordd arall hefo fo.

Mi cawson o allan yn y diwedd, a berfad o fawn i'w ganlyn, nes yr oedd o yn edrych yn dduach nag y bwriadodd ei fam iddo fod. Wedi ei gael i'r lan, dyna lle roedd o yn gorwedd fel llo gwlyb, a ninnau yn dyheu o'i gwmpas o, a'r adeg honno y sylwais i ei fod o wedi ei gam fedyddio. Roedd ganddo fo ddau ddaint arall beth bynnag ymhen draw ei geg.

Ar hynny dyma fo yn codi fel creyr glas, yn noeth lymyn a'i freichia ar led ac yn dechrau areithio mewn rhyw iaith ddieithr. Roedd Dei yn dweud wedyn mai diolch i ni roedd o yn ei ffordd ei hun. Ond wneuthon ni ddim aros i gael cyfieithiad. I ffwrdd a ni fel geifr am y tŷ gwair a neidio y tu ôl i ryw gilcin tâs, a phan y daru i ni fentro sbecian trosti, dyna lle roedd o yn hel ei dacla at ei gilydd a'i chychwyn hi a'i drowsus ar ei fraich.

Ymhen tipyn dyma ni'n clywed mam yn galw ar y dynion am fwyd hefo'r grogan fawr, a dyma ni i'r tŷ. Roedd Jac a Robin Sam a Frank Captan rownd y bwrdd hefo ni yn tŷ llaeth yn lloewcio.

Dyma Dei a fi yn dal ein trwyna yn ein powlia tatws llaeth a chadw yn reit swat.

Mae'r hen ddyn du wedi mynd oddi ar wyneb daear, a'i enaid o yn Nirfana. A debyg gen i nad ydy hwnnw ddim gwahanol i liw enaid rhywun arall erbyn heddiw.

BETHEL

DAUNSWYR MORRIS – Cynhaliwyd Noson Goffi llwyddiannus yn y Neuadd nos Wener, Gorffennaf 10. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am roddion mewn newyddau ac arian ac i'r rhai fu'n helpu'r pwyllgor ar y noson.

Enillwyr y raffi oedd: **Potel o Sieri:** (rhoddedig gan Mr a Mrs W. Guy, Ystoria Treflyn) – Evans 7 Tan-y-Cae. **Pâr Addurnedig (ornaments)** (rhoddedig gan Mr a Mrs R. Williams, 10 Tan-y-cae – Williams, 4 Tan-y-cae. **Bocs o Lysiau:** (rhoddedig gan Mrs Lynwen Morris, Perthi) – Lyn a David Roberts, 12 Tan-y-Buarth.

Cafodd y dawnswyr Morris haf llwyddiannus iawn gan ymddangos yn ogystal ag yng ngharnifal Bethel, ym Mhenisarwaun, Llanberis, Caernarfon, Caergybi a Chwm-y-glo. Y grŵp coch gafodd y wobr gyntaf yng ngharnifal Llanberis gyda'r grŵp gwyrdd yn ail. Llongyfarchiadau mawr i'r genethod i gyd ac i'r rhai sydd yn eu dysgu.

I orffen y tymor eleni bydd y dawnswyr yn mynd i Westy'r Fictoria, Llanberis nos Wener, Medi 4 am gyw iâr a chips a disgo.

YR YSGOL FEITHRIN – Oherwydd y gwaith sydd yn mynd ymlaen yn y Neuadd ni fydd yr Ysgol Feithrin yn agor eleni tan y Diolchgarwch. Gobeithir y bydd y gegin newydd bron yn barod erbyn hynny ac y bydd yr Ysgol Feithrin yn gallu derbyn y plant newydd fydd yn 2 a hanner mlwydd oed ac sydd yn edrych ymlaen at ddechrau yn yr ysgol.

MERCHED Y WAWR – Bydd cyfarfod cyntaf y tymor yn yr ysgol am 7.30 Medi 9. Mae noson ysgafn wedi ei threfnu gan aelodau Merched y Wawr Llangefni. Ar gyfer tymor 1981-2 mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu a thaer erfynnir am eich cefnogaeth i'r gangen ym Methel.

Bydd croeso cynnes i aelodau hen a newydd ymuno â ni.

LLONGYFARCHIADAU – i bawb o blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau yn ystod yr haf ac sydd yn mynd yn ôl i'r ysgol neu ymlaen i waith neu golog.

LLONGYFARCHIADAU – i Miss Ella Morgan sy'n athrawes yn yr ysgol ar ei phriodas gyda Mr Derlwyn Roberts yn ystod yr haf.

Llongyfarchiadau hefyd i Eirian Hughes, Twll Clawdd, Llanrug (gynt o Waen Deg) a Gwynfor Williams;

i Gwen Ellis Jones a Mr Lloyd Jones

ac i Einir Hughes a Geraint Jones a briodwyd ym Methel yn ystod yr haf.

Dymunwn bob bendith iddynt i gyd yn eu bywyd priodasol.

CAPEL Y CYSEGR – Yn ystod y gwanwyn a'r haf bu rhai o aelodau Cysegr yn brysur yn ail wampio'r gegin ac yn adeiladu toiled newydd. Erbyn hyn mae'r gwaith bron wedi ei orffen ond fod angen peintio.

Gwnaed apêl am roddion i dalu am y gwaith a bydd Mrs Mair Jones, Glan Gors neu un o'r swyddogion yn falch o dderbyn cyfraniadau.

YR YSGOL – Bu cryn waith yn yr ysgol yn ystod yr haf, ar y to a thu mewn. Rhoddwyd gweresogyddion newydd drwy'r ysgol ac er ei bod digon blêr wythnos yn ôl, diolch i'r glanhawyr agorwyd yr ysgol yn lân ac mewn pryd ddydd Mercher.

Dymuniadau gorau i'r plant ar flwyddyn newydd yn yr ysgol, yn enwedig i'r rhai sydd yn dechrau ar eu gyrfa yn yr Ysgol Gynradd a hefyd yn yr Ysgol Uwchradd.

LLONGYFARCHIADAU – i Miss Eleri Owen, 3 Glan Llyn ar ei hapwyntio yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

O SIAMBR SELWYN

'Rwyf newydd gyrraedd adre o Brifwyl Maldwyn, ac yn teimlo fy mod wedi 'siarjio'r batris' am flwyddyn arall.

'Rwyf wedi addo i mi fy hun sawl tro, y byddwn yn cadw draw o'r brifwyl am un flwyddyn, er mwyn cael mynd am y "gwyliau breuddwydiol" yna drwy gydol yr haf, a chael mynd ar daith o gwmpas y byd unwaith yn rhagor. Ond na, fedra' i ddim cadw draw o'r Steddfod, - rhamant Hong Kong, traeth Bondai, a sgertiau gwellt Hawaii neu beidio, - "Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon."

Llongyfarchiadau cynnes i'r bandiau lleol, ac i blant y fro a gyrhaeddodd lwyfan y brifwyl. Llawenydd personol i mi oedd llwyddiant Leslie Williams, Llanfairpwll, ar ei gamp yn ennill y goron driphlyg fel petai. Cofiaf i mi ei feirniadu am y tro cynta' yn Eisteddfod y Talwrn sawl blwyddyn yn ôl bellach. Cefais y fraind o wrando arno ddwsinau o weithiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mawr obeithiaf, er ei lwyddiant cenedlaethol y bydd iddo barhau i ddiddori cynulleidfaoedd ein heisteddfodau llai.

Llawenydd i mi hefyd oedd gweld Mr John Griffith Jones, Abergele yn codi ar alwad yr utgyrn i gael ei arwisgo â medal ryddiaith yr Eisteddfod. Cefais y fraind o ddyfarnu tair cadair eisteddfod iddo yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Cadair Gŵyl Fawr Glannau Merswy yn gynharach eleni, am gyfres o dair stori fer. Llongyfarchion cynnes i'r ddau brifardd newydd o boptu'r Fenai hefyd.

Rhaid peidio ag anghofio B.I. Evans, sy'n byw yn hen gartre W.J. Gruffydd ym Methel. Nid yn

unig y llwyddodd B.I. i arwain Côr Caernarfon i fuddugoliaeth unwaith eto, ond llwyddodd hefyd i ennill gwobr am gyfansoddi.

O sôn am W.J. Gruffydd, derbyniodd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen gais gan Gyngor Arfon yn ddiweddar, am iddynt awgrymu enw ar y Stad Ddatblygu yn Saron. Mae'r stad arfaethedig hon ar lecyn o dir yn union gyferbyn â Gorffwysfa, sef cartref y diweddar athro, bardd a llenor W.J. Gruffydd.

Gan ei bod yn flwyddyn can mlwyddiant geni Gruffydd, penderfynodd y Cyngor yn unfrydol i awgrymu 'Bro Gruffydd' fel enw ar y stad, gan gofio i drigolion pentrefi eraill cyfagos anrhydeddu eu henwogion drwy enwi stadau ar eu holau; fel Bro Silyn yn Nhalysarn, Ffordd Cynan ym Mhorthaethwy a Bro Syr Ifor yn Nhregarth.

Penderfyniad Cyngor Arfon fodd bynnag oedd galw'r stad yn 'Gongol Ddu'. 'Gongol' sylwch gair sy'n odli'n berffaith â

'mongol'. Mae'n wir i hen fwthyn uncorn a elwid yn 'Congl Ddu'. neu 'Y Gongl Dduw' fod ar y llecyn tir hwn mor bell yn ôl â 1752 o leiaf, gan i mi ganfod o hen gofrestr fod yna un o'r enw Robert Griffith yn byw yno yr adeg honno.

'Roedd yr hen 'Gongl Ddu' yn enghraifft berffaith o'r hyn oedd hen dyddynnod cynnar. Ffenestri bach, drws isel, ac un corn, ond enw cwbl anaddas oedd 'Congl Ddu' arno, gan fod y tyddyn hwn (pan oedd) yn sefyll ar wastadedd heb na chilfach yn agos ato.

Mae 'na aml i le yng Nghymru a'r gair 'Congl' ynddo. Ceir 'Congl Meinciau' ger Botwnnog, 'Conglwal' yn Ffestiniog, a 'Conglgau' yn Llŷn. Ers talwm, mawn yn unig a arferid ei losgi, ac ar ganol yr ystafell y byddai'r tân, a thwll yn y to i'r mwg fynd allan, gyda'r canlyniad y byddai'r nenfwd yn mynd yn ddu - dyna'r esboniad efallai o 'Congl Ddu'.

Ond yn ôl at benderfyniad Pwyllgor Datblygu a Mwynderau Cyngor Arfon, a'i GONGOL DDU.

Meddyliwch am roi gair cwbl ddisynnwyr a gwallus o ran gramadeg gyferbyn â chartref un o lenorion enwocaf Cymru. Meddyliwch hefyd am y sbort a wna'r Saeson (ac mae Saeson yn sicr o ddod yno i fyw) drwy ei gyfieithu i 'Black Corner'.

Clywais sibwrdd hefyd i ddatganiad gael ei wneud yn y pwyllgor - "na fu i Gruffydd wneud dim i Fethel, ac na ddylid ei anrhydeddu."

Na!, peidiwch a chwerthin, ond cydymdeimlwch â'r sawl a wnaeth y datganiad. Mae'n amlwg nad yw'n gyfarwydd â Cherddi Gruffydd, ac nad yw erioed wedi darllen ei glasur - 'Hen Atgofion'.

Cydymdeimlad ag ef am iddo ddangos ei anwybodaeth, a'i annog i ddarllen 'Hen Atgofion' o glawr i glawr. Buan iawn y daw i sylweddoli rwy'n siŵr mai Bethel oedd barddoniaeth Gruffydd, ac mai trigo y bu yng Nghaerdydd ond BYW ym Methel, drwy gydol ei oes.

Yr hyn a wnaeth W.J. Gruffydd oedd cyflwyno Bethel a'i thrigolion i'w gyd-Gymry, ac yn wir onibai amdano fo fyddai Bethel yn ddim ond smotyn dinod ar fap Cymru.

I Fethel y deuai Gruffydd ar ei wyliau bob haf, ac yn aml iawn deuai ei gyfaill yr Athro Gruffydd

John Williams gydag ef, a byddai ef yn aros gyda ni ym Mryn Alun. 'Roeddwn i'n falch o weld y 'dyn o'r sowth' yn dod acw, oherwydd cawn swlltyn ganddo bob tro.

Ymddeolodd W.J. Gruffydd ym 1946, a daeth adre i 'lannau Menai dlawd'. 'Roedd o'n selog yn y gwasanaethau ym Methel bob Sul.

Bu farw yn ei gartref yng Nghaernarfon ar Fedi 29, 1954, a'i gladdu dan gysgod yr Hen Ywen a anfarwolwyd ganddo, ym mynwent Llanddeiniolen ar Hydref 2.

Dyma ddau ddyfyniad allan o ddarlith canmlwyddiant W.J. Gruffydd, a draddodwyd ym mhrifwyl Maldwyn eleni, gan Marian Goronwy Roberts, un o'i gyn-ddisgyblion disgleiriaf. Dyma'r agoriad.

"Ganed William John Gruffydd ar Chwefror 14, 1881 ym Methel, Arfon, a thyfodd i fod yn Wyddfa o bersonoliaeth ac athrylith, ac yn un o'r grymsterau mwyaf nerthol ym mywyd y Gymru Gymraeg am hanner canrif."

A dyma'r clo i'r ddarlith. "Am gyfnod ar ôl ei farw bu tuedd i'w anghofio; ond dim ond am gyfnod. Dod yn ôl y mae ffeithiau mawredd. Gellir anwybyddu'r Wyddfa - am gyfnod; ond nid byth ei dileu."

Gyngor Arfon ydy'n rhy hwyr i chi ail-ystyried? "Congol Ddu" ta Bro Gruffydd.

Peidiwch a gwneud eich hunain yn destun gwawd i Gymru gyfan.

NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU - i Siân Ellen, Llys Awel a Sharon, Llys Dorfil, Llanrug ar eu llwyddiant mewn arholiad dan nawdd Ysgolion Cerdd Brenhinol Llundain, Siân Gradd 2 (ymarferol) a Sharon Gradd 1 (ymarferol a theori). Hefyd i David, Llys Awel a Hefin, Tŷ Isa ar eu llwyddiant yn arholiad Lefel O.

GWAELEDD - Dymunir gwellhad buan i amryw a'r ardal sydd yn wael, rhai mewn ysbytai ac eraill yn eu cartrefi.

LLONGYFARCHION - i Hefina a Keith Roberts, Glanffynnon, Llanrug ar enedigaeth merch, chwaer fach i Beverly ac wyres arall i Mr a Mrs T.G. Pritchard, Bronallt.

GWYLIAU - Balch oeddym o gael croesawu amryw o blant y Nant gartref ar eu gwyliau yn ystod yr haf. Gobeithir iddynt fwyhau eu hunain yn eu hen gynefin.

CARNIFAL - Cafwyd carnifal llwyddiannus eto eleni, fe'i cynhaliwyd yng nghae Tŷ Isa trwy garedigrwydd Mr a Mrs Meirion W. Pritchard. Y beirniaid oedd y Parch a Mrs Gwynfor Williams, Llanberis a'r Frenhines Valerie Llanberis. Dydd Sadwrn cafwyd trip i'r plant i wersyll Butlins Pwllheli, fe'i trefnwyd gan bwyllgor y carnifal a chafodd pawb amser hapus iawn. Diolch i bawb am bob cefnogaeth.

APWYTNIAID - Balch iawn oeddym fel ardalwyr o ddeall fod y Parch Ifor Phillips wedi ei apwyntio yn Ganon a llongyferchir ef ar ei ddyrchafiad Mae'r Parch Ifor Phillips wedi ei eni a'i fagu yn y Nant, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs John Phillips, Fron Goch. LLONGYFARCHIADAU - i Ann Caroline, Tan y Bryn ar ddathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed. - i Mrs Searell Jones, Elidir ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar y dydd olaf o Awst.

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?

A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

Welsh
Development Agency

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!
Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yn Nhŷ Glas, nos lau Gorffennaf 16, cafwyd adroddiad o'r cyfarfod cyffredinol blynyddol yn Llundain gan Mrs Howdle o Lanberis. Paratowyd y te gan Helen Jones a Carol Houston. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i enillwyd gan Mair Williams.

CLWB MAMAU - Yng nghyfarfod mis Gorffennaf yn Nhŷ Glas, cafwyd arddangosfa o drefnu blodau gan Mr R. Griffiths o Waunfawr (cyn-bostfeistr Brynrefail). Fe wnaed y te gan Moira Ellis a Jackie Jones; rhoddwyd anrheg y mis gan Audrey Roberts ac fe'i enillwyd gan Mr King.

CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI - oherwydd y tywydd anffafriol ar Awst 15, bu'n rhaid trefnu ar frys i gynnal y gystadleuaeth yn festri'r Capel. Dyma'r canlyniadau.

Dan 3 oed: Tony Roberts. **Dan 7 oed:** Paul Anthony Jones, Nicola Houston a Lynette Marie yn gydradd 1af. Darren Williams, Kelvin Houston, Paul Allan Roberts, Marian Jones a Martin Owen yn 2il. **Dan 11 oed:** Llyr Jones a Sally Ellis yn gydradd 1af. Mandy Wyn a Richard Ellis yn gydradd 2il. Wendy ac Anrew Roberts yn gydradd 3ydd. **Dros oed:** Llinos Roberts a Monica Mc Affarty yn 1af. Delyth Roberts a Christine Jones yn 2il. Janet Jones a Rachel Jones yn 3ydd. **Dros 18 oed:** Glenys Jones a Carol Houston yn 1af. Sheila Williams a Shirley Roberts yn 2il. **Addurno Beics:** Darren Williams - 1. Andrew Roberts - 2. Paul Roberts - 3.

Dymuna'r pwyllgor ddatgan eu diolch i'r beirniaid, sef Evan ac Edith Owen a Noel Williams, am eu gwasanaeth ac am eu rhoddion. Diolchwn hefyd i swyddogion y capel am gael defnyddio'r festri.

Enillwyr y raffl 1. Aled Green, 2. Neil Roberts, 3. Iestyn Jones, 4. Pat Jones.

Yr ydym yn ddiolchgar i Huw a Barbara Owen o'r Ffrisen am eu rhoddion at y raffl.

Oherwydd y tywydd ar Awst 15, gohiriwyd y Mabolgampau a'r Gemau Giamocs hyd nos lau, Awst 20.

Dyma'r canlyniadau:

Ras Babanod: 1. Darren, 2. David, 3. Paul. **Ras Sach dan 7 oed:** 1. Kelvin, 2. Todd, 3. Marian. **Ras Sach dan 11 oed:** 1. Sally, 2. Andrew, 3. Paula. **Dros 11:** 1. Kathy, 2. Delyth, 3. Einir. **dros 11 oed (bechgyn):** 1. Iestyn, 2. Iwan, 3. Richard. **Ras Wy a Llwy:** oherwydd prinder wyau, trefnwyd pedair ras! 1. Andrew, Glenda, Terry, Neil, Sheila, 2. Sally, Paula, Kathy, Susan, Delty, Alwyn, 3. Richard, Paul, Einir, Maureen. **Ras Dair Coes:** 1. Kathy a Delyth, 2. Sally a Caron, 3. Andrew a Llyr.

GEMAU GIAMOCs - fel arfer cafwyd pedwar tîm, sef:

1. Carl (capten), Islwyn, Iestyn, Gill a Kathy; 2. Alwyn (capten), Ashley, Richard, Neil a Delyth; 3. Anita (capten), Gwyn, Iwan, Einir a Carol; 4. Glenys (capten), Maureen, Shirley, Terry a Lew.

Tîm Carol a fu'n fuddugol gyda 19 o bwyntiau, tîm Anita yn ail, tîm Alwyn yn drydydd a Thîm Glenys yn bedwerydd.

Enillwyd tlysau ras y pentref gan Carl Hasson ac Anita Jones.

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyr mis Gorffennaf.

3. 1. Pat Mowll, 2. Jilli Siop Ganol, 3. John Williams.

10: 1. Gary Jones, 2. Elwyn Jones, 3. Dafydd Price.

17: 1. Will Hughes, 2. Liz Thomas, 3. Dwynwen Owen.

24: 1. Geraint Roberts, 2. Sheila Williams, 3. Carl Hasson.

31: 1. Seth Thomas, 2. Colin Wager, 3. O.J. Williams.

DIOLCH - Dymuna Huw a Dilys Evans a'r teulu, Min-y-Don ddiolch i'w perthnasau, cyfeillion a chydweithwyr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu mab Huw yn ddiweddar.

CWM-Y-GLO

UNDEB Y MAMAU - Trefnwyd Noson Goffi hynod lwyddiannus gan aelodau Undeb y Mamau er budd Y Ganolfan Gymdeithasol ac fe lwyddwyd i roi cyfraniad sylweddol i Gronfa y Ganolfan. Bu'r aelodau yn brys iawn yn trefnu ac yn gweithio ar gyfer yr achlysur a diolchwn iddynt am eu llafur. Bu taith ddigrl hynod lwyddiannus hefyd wedi ei threfnu gan y Rheithor ac aed trosodd i sir Fôn ac yna trwy Ddyffryn Ogwen a Dyffryn Conwy i Blas Maenan i fwynhau pryd o fwyd a theulio'r gweddill o'r noson mewn sain cân a thelyn. Diolchwyd gan nifer o'r aelodau.

MRS C. OWEN, ISFRYN - Ym marw Mrs C. Owen, Isfryn, fe gollwyd talp o hanes yr ardal. Bu'n aelod gwerthfawr a selog o Eglwys Sant Gabriel a bu hi a'i diweddar briod yn gofalu am yr eglwys am nifer fawr o flynyddoedd. Mawr oedd ei gofal am yr adeilad a phleser iddi oedd gofalu am Dŷ yr Arglwydd ac yr oedd graen ar bopeth a wnâi. Yr oedd ei gofal am ei theulu yn fawr iawn hefyd; er i'r plant fod wedi gwneud eu cartref eu hunain yr oedd cariad mam yn cyrraedd atynt bob amser. Yr oedd Mrs Owen yn aelod o Undeb y Mamau a bu'n drysorydd y gangen am oddeutu pum mlynedd a deugain ac nid oedd pall ar ei gweithgarwch. Bu am gyfnod hefyd yn ofalwr yr ysgol gynradd ac yno hefyd rhoes ei gorau bob amser. Meddai ar gymeriad hoffus ac yr oedd ganddi natur hapus a gallai gellwair yn ysgafn a chwareus. Yr oedd iddi onestrwydd a didwylledd ac yr oedd yn wraig y gellid dibynnu arni bob amser. Rhoddodd o'i gorau i blant yr Ysgol Sul yn Sant Gabriel ac y mae chwithdod ar ei hôl. Bydd Cwm-y-Glo yn llawer tlotach hebdi ond

diolchwn i Dduw am roi iddi lety unnos yn y Cwm. Gallwn ddweud yn ddibetrus "Hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth."

GEMAU GIAMOCs - Cyrchodd torf hwyliog i'r maes chwarae ar nos Fawrth, Mehefin 30 i'w diddanu gan bedwar tîm o'r pentref yng nghystadleuaeth gemau giamocs. Y tîm buddugol ar ddiwedd yr ornest oedd Stryd Newydd, Bryn yn ail, Dolafon yn drydydd ac, yn sicr o wella erbyn y tro nesaf, tîm yr Allt Goch yn olaf.

Trefnwyd yr holl weithgareddau gan Graham Hobby ac fe'i cynorthwywyd gan G. Hefin Jones. Meistr y corn siarad oedd Mr Lloyd Owen a dyma ganlyniadau'r noson: **RASUS PLANT.** Dan 5: 1. Owain Gwyn, 2. Cheryl, 3. Gareth. Dan 8: 1. Dewi, 2. Rhian, 3. Nia. Dan 11: 1. Barry, 2. Colin, 3. Sandra. **Ras Sach Dan 8:** 1. Catrin, 2. Rhian, 3. Andrew. **Rasus tîm:**

Cerdded ar grât llefrith. 1. Solafon, 2. Bryn, 3. Stryd Newydd, 4. Allt Goch. **Ras Sachau:** 1. Stryd Newydd, 2. Bryn, 3. Dolafon, 4. Allt Goch. **Ras Berfa â dŵr:** 1. Bryn, 2. Stryd Newydd, 3. Dolafon, 4. Allt Goch. **Ras Cwmp Ddŵr:** 1. Bryn, 2. Solafon, 3. Stryd Newydd, 4. Allt Goch. **Ras Beics Araf:** 1. Allt Goch, 2. Bryn, 3. Dolafon, 4. Stryd Newydd. **Gornest Dynnu:** Stryd Newydd.

Diolchwyd i bawb a wnaeth y noson yn llwyddiant gan Mr Llew Hughes a chyflwynodd blac wedi ei wneud o lechen i Peter Cassey, capten y tîm buddugol. Braff oedd cael dechreuad mor llwyddiannus a champus i weithgareddau'r haf.

GOHEBYDD YR ECO - Er i Dafydd Price ddatgan rai misoedd yn ôl ei fod yn ymddiswyddo fel gohebydd yr Eco, nid ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i ohebydd newydd. Yn wir, mae Dafydd yn dal i dderbyn newyddion. Llauer o ddiolch iddo. Felly beth amdani, Bobl y Cwm! Cysylltwch â Tony Elliott, 3 Bryn Eglwys, Penisa'rwaun.

DINORWIG

BARBECIW - Nos Wener, Gorffennaf 17, yn y Ganolfan, cynhaliwyd Barbeciw ar ran adran Cymdeithas Feibla Deiniolen a'r Cylch. Mwynhawyd Selsig a chwpaned o de. Treuliwyd noson ddiddorol yn cymryd rhan mewn cwis ar gwestiynau amrywiol wedi'i drefnu gan Lywydd y cyfarfod y Parch Trefor Lewis, Deiniolen, ac yn gwrando ar ddoniau lleol yn cyflwyno eitemau o ganeuon. Cymerwyd rhan gan Mr Ifan B. Roberts; Miss Annette B. Roberts, Miss Olwen B. Roberts a Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Miss Ruth Jones, Foelgron. Cafwyd perfformiad ar y piano gan Miss Alwena Morris, Cefn Coch. Talwyd diolch gan Mr Bobbie Williams, Ysgrifennydd y Gangen, a'r Parch Trefor Lewis, ar ran y pwyllgor am y gefnogaeth a roddwyd i'r fenter.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Prawn Sadwrn, Gorffennaf 18, aeth aelodau'r Gymdeithas ar wibdaith ddigrl wedi'i threfnu gan yr Ysgrifennydd, Mrs Megan P. Morris. Wedi cychwyn o Ddinorwig aethpwyd trwy Tregarth, Llandegai, ac i Landudno, lle treuliwyd tua

dwyawr a hanner yn siopaathorheulo. Oddi yno aethpwyd am de wedi'i drefnu heb yn wybod i'r aelodau yng ngwesty Tan Lan, Betws-y-coed. Wedi te aethpwyd am Benmachno a thrwodd am Tŷ Mawr, Wybrnant, cartref yr Esgob William Morgan, cyfieithydd y Beibl Cymraeg, 1588. Dyma'r tro cyntaf i fws gyrraedd y lle o ochr Penmachno. Wedi cyrraedd Tŷ Mawr, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Jones, ceidwad y tŷ, ar weithgareddau a hanes bywyd yr Esgob Morgan. Edrychwyd ar nifer o feiblaau a chreiriau yn y tŷ. Troi'n ôl adref trwy fwch Llanberis wedi mwynhau diwrnod eithriadol o braff gyda'r haul yn gwenu. Enillwyr y Cwis a drefnwyd yn y bws gan Mrs Megan P. Morris, oedd Mrs Mary Williams, Mrs Alice Griffith, a Mrs Hannah M. Roberts. Talwyd diolch am y trefniant i Mr Gwilym L. Williams, Deiniolen Motors; Mrs Megan P. Morris, yr ysgrifennydd, a Mrs Dilys Williams, Trysorydd, gan Mr O.R. Williams.

O'R YSBYTY - Da gennym ddeall bod Mrs J. Jones, Cegin sydd wedi treulio

SIOE GWNINGOD

Cofiwch am Sioe Gwningod flynyddol Llanrug a'r Cylch sydd i'w chynnal ddydd Sadwrn, 5ed Medi yng nghanolfan gymdeithasol Cwm-y-glo. Bydd y drysau ar agor am 1.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

GWASANAETH AMBIWLANS SANT IOAN

Bu'r ymdrech i werthu baneri yn yr ardal yn un llwyddiannus iawn. Dymuna'r manylion:

Brynrefail - £19.90

Cwm-y-Glo - £20.43

Llanrug - £43.45

Dymuna'r casglwyr ddiolch o galon i'r holl gyfranwyr.

CYSTADLEUAETH C.4.C.

£500 i'w ennill



Gall Curiad gynnal eich cymdeithas chi. Manylion yn Curiad

PAPUR BRO CYMRU GYFAN

CURIAD

Papur Bro Cymru Gyfan

'Carlo Windsor yw ei enw e' GOLWG AR Y BRIODAS

ECSCLIWSIF - S.4.C. Rhaglenni'r Sianel

CYSTADLEUAETH C.4.C. Dros £500 i'w ennill

Y Blewyn Glas

rhifyn Gorffennaf/Awst

AR WERTH 30c

peth amser yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor yn well. Parhaed i wella.

I'R YSBYTY - Anfonwn ein cofion at Miss Mair Foulkes, Garnedd Wen, Fachwen sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Brysied adref.

LLONGYFARCHIADAU - Estynnwn ein llongyfarchiadau calonnog i Mr a Mrs David J. Thomas, Tŷ Capel Sardis, a Mr a Mrs J.R. Williams, 2 Bro Elidir, Dinorwig, ar ddathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar. Pob bendith i'r dyfodol. Llongyfarchwn Miss Alison Jones, Foel Gron, a Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol ar eu gwaith gyda'r arholiadau lefel 'O' Pob llwyddiant i'r dyfodol.

DIOLCHIADAU - Dymuna Mr a Mrs J.R. Williams, 2 Bro Elidir, ddiolch i bawb am bob dymuniad da ac anrhegion a dderbyniwyd ar eu priodas ruddem ar Orffennaf 30.

CARPEDI

ALUN GLYNJONES

(Wetton a Thomas)

14, Ffordd Garth, BANGOR Ffôn 53705

(gyferbyn â'r orsaf fysiau)

Gostyngiad sylweddol am arian parod

Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd lle bo ansawdd yn cyfrif



LLENNI



DEINIOLEN

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Susan a B. Hughes, 2 Helen Villa, Clwt-y-bont, ddiolch i'w ffrindiau a'r teulu a phlant ysgol Gwaun Gynfi am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd eu mab bychan, Mark, ar ôl damwain, a'i arhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, ac am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DIOLCH – Dymuna Mrs Jenny Evans, 3 Hafod Olau ddiolch yn gynnes iawn i Mrs Iorwerth Roberts, 8 Hafod Olau a Mrs G. Lambert am eu caredigrwydd tuag ati ar ôl damwain, a hefyd i'w chyfeillion ar ei harhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Diolch i bawb a anfonodd gardiau.

DIOLCH – Dymuna Mrs Annie Williams, 8 Y Bwthyn ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80. Diolch i bawb.

DIOLCH – Dymuna Mrs K. Thomas 4, Tai'r Faenol ddiolch o galon i'w pherthnasau, ei ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90. Diolch i bawb.

BEDYDDIO – Ar Fehefin 14 yn Eglwys Crist, Llanddinorwig bedyddiwyd mab bychan Iorwerth Wyn ac Ann Jones, Fron Deg, Clwt-y-bont. Bedyddiwyd ef gan y Parch Trevor Jones, Caernarfon. Ei dadau bedydd oedd Elwyn Griffiths a John Eilir Griffiths, a'i fam fedydd oedd Alison Wyn Jones. Enw'r mab bychan yw Michael Iorwerth Jones.



Y Parch Trevor Jones yn dal Michael Iorwerth.

Y CARNIFAL – Eleni eto cafwyd hwyl yn Neiniolen yn ystod wythnos y Carnifal. Er bod y tywydd yn ein herbyn ar ddiwrnod y carnifal ni wnaeth amharu dim ar hwyl a miri'r plant, ond trueni fod llawer o bobl y pentref wedi methu dod i mewn i neuadd yr ysgol oherwydd prinder lle.

Y dydd Sadwrn blaenorol cafwyd rasio beiciau modur gan Glwb Beiciau Modur Padarn. Roedd plant o amryw bentrefi o Wynedd yn cymryd rhan.

Nos Sul cafwyd Cyngerdd Cysegredig yng Nghapel Ebeneser. Cafwyd gwledd gan y rhai oedd yn bresennol ac roedd canmol mawr i'r plant a'r oedolion a gymerodd ran. Arweinydd y noson oedd y Parch Trevor Lewis.

Nos Lun roedd gemau pêl-droed pump bob ochr. Y buddugwyr am yr ail flwyddyn yn olynol oedd Hafod Olau, gyda Gallt-y-foel yn dynn wrth eu sodlau.

Nos Fawrth cafwyd Disco agored yn iard yr Ysgol Feithrin. Roedd pawb o bo oled wedi mwynhau eu hunain.

Nos Fercher cynhaliwyd cyngerdd a choroni y frenhines Bridget yn Festri Ebeneser. Cymerydd rhan gan blat Ysgolion Sul y pentref. Yr arweinydd oedd Mr W.J. Eames a'r llywydd oedd Mrs Enid Roberts. Canwyd cân y coroni gan Annette, Olwen a Marina Roberts, y geiriau gan Mr John Evans (Joni'r Iard), a'r gerddoriaeth gan Annette. Canwyd y Corn Gwlad gan Eifion Hughes.

Nos Iau – Noson y Mabolgampau yn y cae chwarae, lle bu llawer o blant y pentref yn llwyddiannus.

Nos Wener dangoswyd ffilmiau i'r plant iau yn yr ysgol gan y Parch T. Lewis. Y ddwy ffilm oedd 'Gwaed ar y Sêr' a 'Teliffant'. Yn hwyrach yn y noson cynhaliwyd Bingo yn yr ysgol. Dymunwn ddiolch i Mrs Eirwen Roberts (cogyddes yr ysgol) am drefnu'r noson, a hefyd i Mr Ellis Wyn Williams, Deiniol Road am alw yn y Bingo gyda llawer o hiwmor.

Dydd Sadwrn arweiniodd y Seindorf yr oymdaith drwy'r pentref yng nghanol y glaw gyda dawnswyr 'Tinies' o Gaernarfon, Brenhines Bridget a breninesau gwadd yn dilyn. Agorwyd y carnifal yn neuadd yr ysgol gan Cefin Roberts o'r rhaglen Ffalabalam. Dyma'r buddugwyr:

Gwisg ffansi o dan 4 oed: 1. Aeron Jones; 2. Calvin Jones; 3. Leah Wyn. **Dan 8:** 1. Jean Williams; 2. Nia Land; 3. Derwyn Jones a Barry John. **Dan 12:** 1. Dylan Jones; 2. Karen Jones; 3. (cydradd) Jenny Williams a Sharon Williams. **Gwobr gan y beirniad i Mark Thomas.** **Dan 16:** 1. Carys Evans; 2. Wendy Jones; 3. Paula Hughes. **Dros 16:** 1. Neil; 2. (cydradd) Eurwyn Jones a Margaret Ford. **Hysbysiad dan 8:** 1. Eilir Williams. **Dan 12:** 1. Dylan Williams; 2. Ceri Williams. **Cwpl dan 10:** 1. (cyfartal) Dylan a Gwen; a Nia a Gavin. 2. (cyfartal) Eilir a Derwyn; a Dylan ac Amelia. **Dan 16:** 1. Karen a Beverley. 2. (cyfartal) Donna a Della a Ruth a Laura. **Dros 16:** 1. Tommy Arfon ac Annette. **Grŵp dan 16:** 1. Rose Red o'r Guides. **Addurno Beic:** 1. Eilir Williams; 2. Kevin Edwards; 3. Mari Wyn. **Addurno Coets:** 1. Julie Griffith; 2. Maria Jane; 3. (cyfartal) Gwawr Williams a Karen Jones. **Tebgyrwydd riant a phlentyn:** Joyce a Della Wyn Jones. **Nain Ddeniadol:** Margaret Jones, Pentre Helen. **Daeth dwy frenhines yn fuddugol:** Brenhines Nia, Penmaenmawr; Brenhines Juliet, Bethesda.

Dymuna'r pwyllgor a'r is-bwyllgor ddiolch o galon i bawb am bob help a chefnogaeth yn ystod yr wythnos. Diolch yn arbennig i swyddogion Ebenezer am gael defnyddio'r capel a'r festri; i Mr Eames am gael defnyddio'r ysgol; i Mr J. Evans am gyfansoddi cân y coroni. Y beirniad Edwin ac Alun Wyn Evans, y Parch T. Lewis; i bawb a fu'n hyfforddi'r plant ar gyfer y ddau gyngerdd. Band Arian Deiniolen, ac i bawb a gyfrannodd trwy arian neu nwyddau. Diolch yn fawr i bawb.



Brenhines Carnifal Deiniolen a'i gosgordd.

Dyma benillion coroni'r frenhines Bridget (gan Mr John Evans – Joni'r Iard):

Brenhines fwyn Gwaengynfi Yw Bridget Hughes eleni.
A phawb drwy'r fro yn uno 'nghyd Yn drefnu i'w choroni.
Mae'n eneth fwyn a rhadlon A chywir iawn ei chalon,
Mae'n haeddu holl anrhydedd bro Ac ar ei phen rhown goron.

Dylifo mae'r anrhegion I'r fwyn frenhines dirion.
Cyfarchion lu o bob rhyw fan O'r ysgol a'i chyfeillion.
Dwy forwyn arni'n gweini Morynion tlws Gwaengynfi O Rhes Caradog Sharon gu A Donna'n llawn direidi.

Marchogion dewr Eryri Yw Barry a Mackensi
A gwylio maent bob cam o'r daith Er llwyddiant y coroni.
Tywsog o'r math gorau Yw Karen Hughes, Fron Olau

Mae'n gwylio y frenhines fwyn Ers toriad gwawr y borau.

Mae'r fraint o ddodi'r goron Yng ngofal Susan dirion;
Brenhines fu am flwyddyn lawr Yn llanw'r swydd mor ffyddlon.
O'r Mynydd daeth eleni Yn hoenus hardd a heini,
Ein diolch fo i Susan gu Brenhines Ninteen Eighty.

Wel! diolch unwaith eto Am ddiwrnod gwerth ei gofio.
Mae'r gweithgareddau'n dal o hyd Ym mhentref bach Llanbabo;
I'r holl ardalywyr ffyddlon Diolchwn oll o galon
Am drefnu gwledd i loni'r fro Mewn byd o flin dreialon.

Ar ôl yr awr goroni Ymunwch pawb o ddifri Mewn Mabolgampau, hwyl a sbri Wel! deuwch oll heb oedi.
Yn swm hen fand Deiniolen Ymunwn oll yn llawen I gicio pêl neu redeg ras O'r Garnedd hyd Moel Rhiwen.

Ar derfyn yr arwisgo Diolchwn unwaith eto I holl rieni plant ein bro Am lafur pen a dwylo.
Rhown glod i'r ysgrifennydd, Y pwyllgor doeth a'u llywydd,
Diolchwn oll a chalon rwydd I'r Seindorf a'u harweinydd.

DIOLCH – Dymuna Shân Roberts, 6 Ffordd Deiniol gynt ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

PLAID CYMRU – Cafwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen ar nos Lun, Awst 11 yn ystafell y seindorf. Adroddwyd fod yr Helfa Drysor flynyddol wedi bod yn un llwyddiannus dros ben. Diolchwyd i'r trefnwyr Mr Irfon Morris a Mr Berwyn Jones. Yr enillwyr oedd: 1. Mr Gwyn Parry, Bodrual; 2. Mr Alan Davies, Pen-y-bont; 3. Mr Phillip Jones, Tŷ'r Faenol.

Trefnwyd hefyd weithgareddau ar gyfer y misoedd nesaf. Enillwyr y Clwb 100 mis Gorffennaf: £15 – Rhif 60, Tecwyn Hughes, Rhiwen; £10 – Rhif 134, Mrs J.C. Hughes, 26 Pentre Helen. Enillwyr y Clwb 100 mis Awst: £15 – Rhif 135, Miss Awen Hughes, 26 Pentre Helen; £10 – rhif 93, Mr Glyn Edwards, Gerlan.

Gwynedd, Llandegai.

Enillwyr mis Awst: 1. £25 – rhif 2, C. Roberts, Bull Inn; 2. £15 – Mr a Mrs W. Hughes, Rhiwen; 3. £5 – Miss Margaret Owen, 76 Pentre Helen.

LLONGYFARCHIADAU – ar achlysur eu Priodas Arian i Catherine a Kenrick. Merch yw Catherine i Mrs M. Jones, 4 Y Bwthyn, Deiniolen a'r diweddar Hughie Jones oedd yn un o enwogion yr ardal gyda chanu penillion telyn ac yn un o enillwyr Eisteddfod Genedlaethol Caerffili. Maent yn byw yn awr yn 41, Y Wern, y Felinheli. Boed iddynt lawer blwyddyn eto gyda dymuniadau gorau i'r ddau oddi wrth Mam.

Melys wedi chwarter canrif Yw cael dyfod eto 'nghyd I gael dathlu priodas arian Cath a Kenrick, gwyn eu byd.
Teulu annwyl, a chyfeillion A'u cyfarchion yn ddi-ri Yn Sir Fôn yng ngwesty'r Seren Yn mwynhau rhyw hwyl a sbri.

Trefnwyd gwledd nad a yn ango O ddanteithion blasus da Pawb yn claddu am y gore 'Roast potatoes, 'chicken', ffa, Gwin o Ffrainc a gin a lime Ni raid poeni heno ffrindia Am y gŵr sy'n gweiddi 'time'.

Rhaid anghofio popeth heno Holl draferthion blin a sur Hyd nes torro gwawr y bore Heb 'hangover' blin na chur.
Gwir fod iddynt aelwyd hapus Gyda Neville teg ei bryd Ac mae yno groeso calon I'r ymwelydd ar bob pryd.

Bendith arnynt, ddau anwylaf Ar y nos arbennig hon Llauer blwyddyn arall eto Fyddo'n hapus ac yn llon.
Beth am iechyd da i'r ddeuddyn Gyda dymuniadau llon Nawr wrth ddathlu chwarter canrif Misoedd mwyn y fodrwy gron.

Joni'r Iard.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs N. ac H. Hughes, Gwyrfa Terrace a Mr Denis Hughes ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion a chardiau a'r arian a dderbyniodd Bridget fel brenhines carnifal Deiniolen. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH – Dymuna Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf, Pentir ddiolch o galon am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach, Elin Iolen.

DIOLCH – Dymuna Mrs J. Jones, 2 Hafod Olau a Mr a Mrs Owie Gibson 17 Hafod Olau ddiolch o galon i'r Parch Trevor Lewis am ei bresenoldeb yn angladd eu chwaer sef J. Hobins, 102 Ffordd Penchwintan, Bangor (Maggie Freithwan, Bethesda gynt). Diolchant hefyd i'w cymdogion a'u ffrindiau am eu cydymdeimlad yn eu profedigaeth.

Y BADAU ACHUB – Yn ddiweddar fe gynhaliwyd Dydd Baneri at y Badau Achub. Cyfanswm casgliadau Deiniolen, Dinorwig a'r Fachwen oedd £44.64. Y casglwyr oedd: Mrs J. Hughes – £2.38; Mrs C. Davies – £1.67; Miss Nickol Marzelo – £10.95; Mr R.E. Williams (Dinorwig) – £11.29; Mrs C. Price – £9.41; Mrs Phillis Jones a Mrs N. Price – £6.01; Miss Anwen Thorman Jones a Miss Delyth Williams – £2.93.

Roedd hyn yn cynorthwyo'r trefnwyr i wneud cyfanswm cylch Caernarfon yn £1,087.95. Y trefnydd lleol oedd Mrs C. Price. Diolch i bawb am eu hymdrech.

Y BRIODAS FRENHINOL – Cafodd ochr Hafod Olau barti ardderchog yn yr Avenue ar ddydd y briodas Frenhinol. Roedd y paratadau gan y gwragedd ifanc. Dymuna'r oedolion a'r plant ddiolch yn fawr iddynt am eu llafur.

CLWB ELIDIR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb uchod ddydd Mawrth,

DEINIOLLEN (Parhad)

Gorffennaf 14. Llywydd y cyfarfod oedd Mrs C. Marren, Plas Eryr. Pasiwyd cydymdeimlad y clwb â Mrs Elizabeth Jones, Bryn Eithin, Pentre Castell, Llanberis ar ôl colli ei phriod. Rhoddwyd y te gan yr aelodau canlynol: Mrs M. Griffiths, 57 Pentre Helen; Mrs M. Jones, 4 Pentre Helen a Mrs N. Hughes, Erw Fair. Enillwyd y raffl (rhoddedig gan Mrs Jennie Wyn Williams, 88 Pentre Helen) gan Mrs Mary Morris, Tŷ Capel, Cefnywaun. Mae'r aelodau yn dra diolchgar i'r rhai canlynol am eu rhoddion tuag at y trip: Ysgol Gwaun Gynfi; Mrs Clarice Roberts, Tafarn y Bull; Mrs Smalley; Miss Elinor Jones, 3 Tai Marian; Mrs M. Griffiths, 5 Maes Gwylfa; Mrs Nancy Hughes, Siop Papur Newydd a Mr Hugh Morris, 40 Pentre Helen. Cynhelir cyfarfod nesaf y clwb ddydd Mawrth, Medi 8.

Dydd Iau, Gorffennaf 16 aeth y trip blynyddol i Landudno, ond yn gyntaf aethpwyd i Gricieth i gael cinio, ac yna ymlaen i Landudno, lle bu i bawb fwynhau eu hunain. Mae'r aelodau yn diolch yn arbennig i'w llywydd, Mrs C. Marren ac hefyd i Mrs Sally Lewis am baratoi'r trip mor drefnus.

DIOLCH - Dymuna Mrs Maud Williams, Awel Menai, Caernarfon ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a gyfrannodd tuag at y rhodd a dderbyniodd gan aelodau'r staff, rhieni'r plant a frindiau, ar achlysur ei hymddeoliad o Ysgol Gwaun Gynfi. Yn ôl Mrs Williams bu'n hynod ffodus ar hyd yr amser i gael cymorth a chefnogaeth gwych bob tro y bu galw amdano. Mae atgofion hapus iawn ganddi am y gwmniaeth agos a fwynhaodd tra yn yr ysgol.

Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Mrs Nancy Rowlands a Mrs Ella Williams ddiolch yn garedig iawn i Mrs Cynthia Davies, 28 Pentre Helen, Mrs Alwena Jones, 25 Pentre Helen a Mrs Margaret Jones, 76 Pentre Helen a ymgwymerodd a threfnu te parti ar gyfer plant ac oedolion y stryd ddiwrnod Priodas

Tywysog Charles a Lady Diana Spencer. Diwrnod i'w gofio, yn enwedig i'r plant. Cafodd pob plentyn gwpan a rhoddwyd y Gacen yn rhad yn rhodd gan Mr Gwilym Rowlands, 12 Pentre Helen. Trefnwyd Disco gyda'r nos gan Mr Phillip Fleming a mwynhaodd pawb eu hunain. Dymunwn hefyd ddiolch i Mr John Williams, 11 Stryd Fawr y pentre am gael benthg y byrddau i ni oddi wrth y B.C.C.T. Diolch am ei help. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

GWOBR - Cafodd Mrs Eirwen Roberts, 47 Rhydfadog y wobr gyntaf am fod y nain brydferthaf mewn cystadleuaeth yng Ngwersyll Pontins Prestatyn yn ddiweddar. Bydd yn mynd ymlaen i'r rowndiau terfynol yn Pontins, Morcambe. Gobeithio y caiff lwyddiant eto. Hefyd cafodd Mrs Helen Lewis y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth talentau am chwarae'r piano. Mae hithau hefyd yn mynd i'r rowndiau terfynol ym Morcambe ymhen tair wythnos. Pob lwc i'r ddwy.

PENODIAD - Balch iawn oeddym fel ardalwyr o ddeall fod mab hynaf Mr a Mrs John Roberts, 47 Rhydfadog wedi cael ei benodi yn brifathro Ysgol Gynradd Hire Wych, Redbrook Maelor, ger Wrecsam. Ar hyn o bryd mae'n athro yn ysgol Rhosymedre. Mae hefyd ar ei ail flwyddyn o gwrs gradd B.Add. Anrhydedd o'r mwyafr yw clywed am un o blant ein hardal yn dod â'r fath anrhydedd i ni yn Neiniolen. Pob lwc iddo yn y dyfodol.

RHODD - Nos Fercher, Awst 19 yn Nhafarn y Bull cyflwynodd Mr Tommy Jones, capten tîm dartiau'r Bull, sic am £100 i Mrs Glenda Jones (cyn-Faer Bangor). Roedd y rhodd tuag at Gronfa Apêl Gweithwyr Dinorwig. Mrs Glenda Jones yw Cadeirydd y Gronfa Leol. Roedd Mr Dave Jones (ysgrifennydd) hefyd yn bresennol, ynghyd â Mrs Clarice Roberts a Mr D.W.E. Jones (Trysorydd ac Ysgrifennydd y Clwb Dartiau).

CARNIFAL LLANBERIS

Cynhaliwyd y Carnifal, ddydd Sadwrn, Gorffennaf 18.

Dyma'r canlyniadau:

Dan 3, unrhyw wisg: 1, Edryd Sharp; 2, Iwan Harding; 3, Sarah Jones. **3 i 5 oed, cymeriad adnabyddus:** 1, Sion Roberts; 2, Llinos Ffretwell; 3, Louise a Colin Ellis. **3 i 5 oed, gwisg hysbysebu:** 1, Carwyn Williams; 2, Paul Fleming. **5 i 7 oed, cymeriad adnabyddus:** 1, Ian Hughes; 2, Andrew Guy; 3, Faun Clarida. **5 i 7 oed, gwisg hysbysebu:** 1, Mark Ellis. **7 i 9 oed, cymeriad adnabyddus:** 1, Bryn Roberts; 2, Bethan Jones; 3, Amy Jones a Debbie Huws. **7 i 9 oed, gwisg hysbysebu:** 1, Christine Pitts. **9 i 12 oed, unrhyw wisg:** 1, Phillip Roberts; 2, Susan a Sharon; 3, Gillian a Dylan. **12 i 15 oed, unrhyw wisg:** 1, Petula Williams; 2, Rhian Powell; 3, Arwel Hughes a Geraint Morris. **Cymeriad Unigol Gorau:** Edryd Sharp. **Dros 16, unrhyw wisg:** 1, Rhian Owen; 2, Caren Roberts; 3, Pat. **Tablo Stryd:** 1, Stryd Fawr A; 2, Stryd Fawr B; 3, Nant Peris. **Grŵp Gorau ar droed:** 1, Tony, Janet a Dorothy; 2, Dilys, Anna a Maude. **Par digrif:** 1, Enfys ac Alwen. **Pram wedi ei haddurno:** Carys Parry. **Beic wedi ei addurno:** 1, Llinos Jones; 2, Wayne Torr. **Adran Arbennig (agored):** 1, Eilir Williams; 2, Dylan ac Iwan Williams. **Tablo Gorau Llanberis:** 1, Congo. **Rhif lwcus y rhaglen:** Rhif 12. **Dawnsiwr Morus:** 1, Bethel Coch; 2, Bethel Gwyrd; 3, Llanrug; 4, Llanberis. **Dawnsiwr Majorettes:** 1, Jazz Troupe Caernarfon; 2, Caernarfon Tinies.

CHWARAEON, Nos Fawrth, 14 RHEDEG

Babanod Meithrin: 1, Huw O'Donell; 2, Joanna Thornton; 3, Colin Ellis. **Dosbarth 1af,** 1, Nicola Roberts; 2, Elin Roberts; 3, Jacinta Kisalu a Louise Ellis. **1. Alwyn Thomas;** 2, Dylan Williams; 3, Arwyn Huws a Dylan Davies, Robin Owen, Darren Torr. **Dosbarth 2:** 1, Miriam Thomas; 2, Rhian Roberts; 3, Llinos Wyn Jones. **1. Colin Griffiths;** 2, Steven Baylis; 3, Ian Huws ac Anthony Roberts. **Dosbarth 3:** 1, Lyn Davies; 2, Linda Prytherch; 3, Michelle Willis. **1. Edward Rogers;** 2, Cai Williams; 3, Alun Baylis. **Rhwng 7-9 oed:** 1, Nia Thomas; 2, Bethan Jones; 3, Jackie Sellars.

1. David Griffiths; 2, Simon Williams; 3, Marc Williams. **9-11 oed:** 1, Alice Jones; 2, Diane Jones; 3, Helen Mai Pritchard. **1. Terry Saynor;** 2, Mark Owen; 3, Paul Roberts. **11-14 oed:** 1, Melanie Sellars; 2, Iona Roberts; 3, Petula Williams. **Colin Saynor;** 2, Neil Jones; 3, Haydn Jones. **100 Llath, 14-15:** 1, Ian Pritchard; 2, Nigel Rowlands; 3, Paul Thomas. **100 Llath, agored:** 1, David Griffiths; 2, Tony Jones. **100 Llath; merched 16-30:** 1, Sandra Cuthbertson; 2, Karen Roberts; 3, Mair Williams. **100 Llath, merched 30-40 oed:** 1, Marie Baylis; 2, Carys Williams; 3, Pat Turner. **Ras Filtir:** 1, David Griffiths a Carol Prydderch; 2, Michael Roberts; 3, Jason Roberts. **Ras drithroed Ysgol Dolbadarn:** 1, Helen ac Alison; 2, Janice a Bethan; 3, Catrin a Heddwen. **Ras Drithroed Ysgol Brynrefail:** 1, Iona ac Iorwen; 2, Irene a Carol; 3, Petula ac Ann. **Ras Drithroed:** 1, Vivian a Marie; 2, Jane a Gwenda. **Tim o 4:** 1, Melanie, Iona, Iorwen a Petula. **1. David, Nigel, Arfon a Paul. Ras Beic Araf ysgol Dolbadarn:** 1, Susan Evans a Paul Roberts. **Ras beic araf Ysgol Brynrefail:** Sonia Lyn a Nigel Rowlands. **Ras gyflym beic:** 1, Nia Wyn Owen; 2, Paul Roberts a Terry Saynor. **Ras gyflym beic Ysgol Brynrefail:** 1, Petula Williams a Nigel Rowlands. **Ras Sach:** 1, Alison Edwards. **Ras Drithroed Ysgol Dolbadarn:** 1, Paul a Jason; 2, Andrew a Denny; 3, Mark a Barry John. **Ras Drithroed ysgol Brynrefail:** 1, Paul a Nigel; 2, Darren a Huw; 3, Colin ac Andrew.

RAFFL FAWR

£50 Jones; 1 Trem Eilian, Brynrefail. **£30 Gweno Huws,** Coetmor, Penrhyn. **£20 Megs,** 75 Maes Padarn. **Bron Eryri, Cinio i 4 M. Broughton,** Crosville, Bangor. **Bistro, Cinio i 2 H. Jones,** Crosville, Pwllheli. **Hamper B. Hughes,** 30 Maes Cadnant, Caernarfon. **Whiskey Idris P. Jones,** Perthi, Llanrug. **Hanner Gini Mrs Owens,** 68, Maes Padarn. **Siocled A. Green,** d-o Compton House. **Sigarets D.B. Jones,** 5, Blaen y Ddôl. **Siocled N. Pritchard,** Poplars, Llanrug. **Paper Mate Irene d-o Barnett Pepper,** Caernarfon. **RAFFL PÊL-DROED** **Tedi Mawr Gwyn Ser B. No 87. 2. Eliffant Gwyrd:** Ann Evans, Llanberis. **3. Eliffant Melyn:** Ifan Thomas Llanberis. **Llygoden Lwyd:** Huw Griffiths, Llanberis.

PRYNWCH LEFRITH, NEU . . . !



Dyn llefrith ymosodol yng ngharnifal Deiniolen.



I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...

Osmond W. Shaw

DEINIOLLEN

Ffôn:

LLANBERIS 545

Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175 neu Bangor 51981

**Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .**



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

WAUNFAWR

Y CARNIFAL - Dechreuodd gweithgareddau'r wythnos a drefnwyd gan yr Ysgol Feithrin gyda seremoni goronir Frenhines Wendy yn Neuadd yr Eglwys, gan y Frenhines Lynne.

Cyfarchwyd y Frenhines â chân gan Karen Roberts a chân gan Sian Lloyd Jones. Perfformiwyd y ddawns flodau gan Suzanne, Caroline, Penny, Nia, Diane, Haf, Bethan, Ella, Gwennan a Mandy.

Cafwyd gemau a dawnsio i orffen y noson dan ofal Margaret Bevan a Heulwen Jones. Llywyddwyd gan Iris Owen a rhoddwyd y diolchiadau gan Cadi Jones.

Daeth mwy na'r disgwyl i'r gymanfa ganu nos Sul yn Eglwys Sant Ioan, dan arweiniad Mr Wyn Jones. Cafwyd eitemau cerddorol ardderchog gan Barti Lleu, a'r delynores Ann Hopcyn. Yn ystod y noson cafwyd anerchiad byr gan Mrs L. Idris Jones, y wraig wadd. Rhoddwyd y gwasanaeth agoriadol gan y Parch Glyndwr Williams, a'r diolchiadau gan Mr Gwynn Davies.

Nos Fawrth, cynhaliwyd mabolgampau yn y cae ger Coed Gwydryn, dan arweiniad Dafydd Iwan a Rob Jones. Rhoddwyd gwobrau i'r enillwyr gan y Frenhines Wendy.

Yr enillwyr oedd:

Genethod dan 5 oed: 1, Rachel; 2, Delyth; 3, Sharon. **Dan 7:** 1, Diane; 2, Bethan; 3, Sarah. **Dan 9:** 1, Felicity; 2, Gwennan; 3, Sharon. **Dan 11:** 1, Sian Ll. Jones; 2, Sian Rowlands; 3, Elli. **Dan 15:** 1, Joanne; 2, Bethan; 3, Rhian. **Bechgyn dan 5:** 1, Eilir; 2, Meilir; 3, Ceirion. **Dan 7:** Osian; 2, Gerallt; 3, Rhodri. **Dan 9:** 1, Clive; 2, Jason; 3, Wayne. **Dan 15:** 1, David; 2, Gerald; 3, Steven. **Ras wy ar lwy, dan 5:** 1, Eilir; 2, Ceryl; 3, Gavin. **Dan 7:** 1, Fflur; 2, Diane; 3, Sarah. **Dan 9:** 1, Felicity; 2, Diane; 3, Nia. **Ras Tair Coes dan 9:** 1, Tina a Haf; 2, Gerallt a Gareth; 3, Neil a Kevin. **Dan 11:** 1, Gwyn ac Adrian; 2, Michael ac Euros; 3, Jason a Jonathan. **Dan 15:** 1, Gwen a Fiona; 2, Bethan a Carmen; 3, Steven a Llion. **Naid Uchel:** **Dan 7:** 1, Diane; 2, Gerallt; 3, Bethan. **Dan 9:** 1, Clive; 2, Felicity; 3, Sharon. **Dan 11:** 1, Gwyn; 2, Euros; 3, Adrian. **Dan 15:** 1, David, 2, Jonathan; 3, Anthony. **Naid Hir:** **Dan 9:** 1, Neil; 2, Telor; 3, Dylan. **Dan 11:** 1, Jason; 2, Adrian; 3, Euros. **Dan 15:** 1, Jason; 2, Adrian; 3, Alan. **Ras Beiciau Araf:** **Dan 9:** 1, Telor; 2, Osian; 3, Neil. **Dan 11:** 1, Wayne; 2, Elli; 3, Aeron. **Dan 15:** 1, Kevin; 2, Carmen; 3, Elli. **Ras ar draws gwlad:** 1, Robert Williams; 2, Anthony Marston.

Cafwyd noson hwyliog yng nghae'r carnifal nos Fercher lle cynhaliwyd 'Gemau Giamocs' rhwng timau Y Bont, Canol y Waun, a Pant y Waun. Arweiniwyd y noson gan Rol Williams. Wedi brwydr galed tim Pant y Waun enillodd y gwpan (Geraint, Gareth, Terry, Carys, Angela a Rosalind).

Gemau pêl-droed 5 bob ochr a gynhaliwyd nos Wener a rhan o brynhawn Sadwrn, gyda Keith Owen yn ddyfarnwr. Dyma'r canlyniadau: **Dan 15:** Tim y 'Legless Five'. **Dros 15:** Tim Hogiau'r Allt.

Oherwydd y glaw ddydd Sadwrn, ni fu gorymdaith o dan arweiniad y Band Jazz o Gaernarfon, ac ni chafodd y Frenhines a'i Gosgordd eu cludo mewn ceffyl a throl o eiddo Margaret Bevan. Ond er hyn i gyd 'roedd y neuadd yn orlawn, a bu cystadlu brwd yn y cystadlaethau gwisg ffansi, a feirniadwyd gan 'Slim' o'r 'Aw'r Fawr' a'i wraig Iona. Bu'r merched ar y stondinau, a Madam Sera yn ddiwyd drwy'r prynhawn. Yr arweinydd oedd Eurig Wyn. Dyma ganlyniadau'r wisg ffansi:

Dan 4: 1, Kailey; 2, Gavin; 3, Llio. **Dan 6:** 1, Meilir; 2, Delyth; 3, Fflur. **Dan 8:** 1, Andrew; 2, Phillip; 3, Osian. **Dan 11:** 1, Nan; 2, Sian; 3, Euros. **Dan 14:** 1, Iwan; 2, Huw; 3, Heather. **Dros 18:** 1, Roseanne; 2, Margaret; 3, Ceinwen. **Addurno beic:** 1, Anwen; 2, Trystan; 3, Meilir. **Grŵp gorau:** 1, Iona a Wena. **Dol orau:** 1, Plant y Gofod. **Y ffer orau:** Anna. **Y penliniau gorau:** Michael.

Dyma enillwyr y raffl: Petrol, H. Griffiths, Rhiwlas; Nwyddau - Hannah Hughes, Rhodddu; cig - Eurwyn Williams, Waunfawr; Glo - D. Gough, Ferodo; ffrwythau - B. Williams, Llanrug; tocyn record £3 - Mair Jones, Rhosgadfan; port

- G. Lloyd, Caernarfon; sieri - A.G. Hughes, Waunfawr; gwin - Karen Wyn Bound, Betws Garmon; olew - Gareth Cadwaladr, Waunfawr; llestr pridd - Heddwel Williams, Garndolbenmaen; siocled - P. Beech, Ferodo; llestr pridd - Haydn Jones. Rhoddwyd y gwobrau gan fusneswyr lleol.

Cynhaliwyd swper y carnifal yng Ngwesty Plas Tan Dinas, yng nghwmni Traed Wadin, lle cafodd pawb gyfle i ymlacio ar ôl gweithgareddau'r wythnos.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y carnifal mewn unrhyw ffordd, a thrwy hynny ei wneud yn llwyddiant. Diolchiadau arbennig i swyddogion Neuadd yr Eglwys am gael defnyddio'r neuadd, a hefyd i Mr O.R. Williams am roi benthyg y cae.

Bydd £50 o elw'r carnifal yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Neuadd y Pentref.

Mae lluniau'r Carnifal ar gael i'w prynu neu eu gweld gan Carys Owen, Gilfach.

YR URDD - Bydd tymor gweithgareddau'r Urdd yn dechrau eto ar nos Fercher, Medi 9 yn yr Ysgol Gynradd o 6 o'r gloch hyd 7 o'r gloch. Noson ymaelodi fydd hon a bydd croeso i unrhyw un ddod sydd yn 7 oed cyn Rhagfyr 21, 1981, hyd at y rhai sydd yn eu blwyddyn gyntaf yn yr Ysgol Uwchradd. Mae'r tâl aelodaeth eleni yn 50c.

Bu pump aelod yn gwersylla yn Llangrannog yn ystod y gwyliau a da oedd deall iddynt fwynhau eu hunain. Ar nos Wener, Medi 18, bydd yr Urdd yn cynnal Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys a gofynnwn yn garedig iawn unwaith eto i rieni a chyfeillion am nwyddau i'r stondinau - byddwn yn eu derbyn yn yr Urdd nos Fercher, Medi 16. Bydd pwyllgor yr Urdd yn cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch nos lau, Medi 3.

LLONGYFARCHIADAU - I Mr a Mrs H. Parry, 16 Bro Waun; Mr a Mrs T.A. Thomas, Haulfryn; Mr a Mrs D. Parry, 4 Bro Waun; a Mr a Mrs Ray Johnstone, Tŷ Gwyn, ar ddatlu eu priodas arian yn ddiweddar.

I Ann a Raymond Edwards, Melin y Wig, ar enedigaeth merch, Lowri Angharad.

I Menna ac Elfyn Griffiths, Melwyn, ar enedigaeth merch, Rhian.

I Bethan a Rob Williams, Hafod y Rhug, ar enedigaeth mab, Edryd Gwyn.

I Mrs Mary Vaughan Jones a Mrs Gweneirys Jones, a Dylan Iorwerth, Cartrefle, ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn.

I Mrs Margaret Eaglestone, Tremallt, ar ei llwyddiant mewn Cymraeg gyda Gradd B yn arholiadau'r lefel O, a Chymraeg yn ail iaith iddi. Mae hi'n aelod o ddosbarth Cymraeg i ddysgwyr yn y Waunfawr dan ofal Mrs Gweneirys Jones.

I Nia Pritchard, Min y Grug, ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

I Linda Jones, Crud yr Awel, ar ei phen-blwydd yn 21 oed.

I Christopher Chadwick, Tan y Coed, ar ei ddywedd iad â Nina Margaret Plumb, Appleton, Caer.

I Mrs Joyce Benham, The Haven; Bethan Pritchard, Min y Grug, a Simon Roberts, Tŷ Hen ar eu llwyddiant gydag arholiadau'r piano.

I Wendy Ann Jones, Llwyn Afon ar ei phriodas â David Evans o Gaethro. Maent am gartrefu yn Arddol, Groeslon.

CYDYMDEIMLWN - Â Mr W. Jones, Llannerch, a'r teulu ar golli priod a mam annwyl.

Â Mr Emlyn Davies a Miss Annie Davies, Bodwyn, ar golli brawd ym Manceinion.

Â Mrs Frances Gilroy, Llys Gwyrfa, ar golli mam.

Â Mr Huw Parry, Bryn Golau, ar golli brawd yn Llanllyfni.

YN YR YSBYTY - Dymunwn wellhad buan iawn i Mrs Phyllis Jones, Rhoslan; Mr John Griffith, Darwayne a Mr Huw Elfed Roberts, Bryn Golau, ac anfonwn ein cofion atynt.

ADREF O'R YSBYTY - Croeso adref i Mrs J. Awstin Jones; Mrs Taylor, Dôl Erddi, Mrs Walker, Bryn Golau, Gareth Roberts, Bryn Golau; Aeron Jones, Glyn Ceris; Miss Mem Williams, Weirglodd Goch; Huw Williams, Heli a Gwilym Hughes, Tref Eilian. Gobeithio eu bônt yn dal i wella.

Ein cofion cynhesaf hefyd am lwyf wellhad ar ôl eu damweiniau i Huw Owen, 18 Tref Eilian, a Mrs Christine Hughes, 11 Tref Eilian.

GWASANAETH - Dydd Sul, Awst 15, darlledwyd gwasanaeth Oedfa'r Bore yn canolbwyntio ar y rhai anabl a nam meddyliol o Gapel Bethel, Waunfawr. Cafwyd anerchiad gan Mr R. Gwynn Davies. Cyflwynydd oedd Miss B.M. Jones a'r organyddes oedd Miss Eirlys Jones. Cymerwyd rhan defosiwn gan Mrs Megan Roberts, Caernarfon, ynghyd â phobl ifanc o Ganolfan Frondeg a phlant Ysgol Pendalar Caernarfon ac ysgol gynradd Waunfawr.

DOSBARTH NOS - Nos Lun, Medi 21, dechreuau'r dosbarthiadau Cynganeddion yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch. Mr Ifor Baines fydd yn cymryd y dosbarth.

TEYRNGED - I'r diweddar Mr RICHARD DAVIES, Timperley.

Bore lau, Gorffennaf 9, bu farw Mr Richard Davies, Timperley yn ysbty St Anne's, Altrincham. Yr oedd yn enedigol o'r ardal, ac yn fab i'r

diweddar Mr a Mrs William Jeffrey Davies, Bodwyn, Rhedai Glyn Afon, ond 'roedd wedi byw yng nghyffiniau Manceinion am flynyddoedd lawer. Yr oedd yn un o ddisgyblion cyntaf yr Ysgol Ganolraddol yng Nghaernarfon a bu'n gwasanaethu gyda'r Swyddfa Bost am dros 40 mlynedd. Dechreuodd ei yrfa yn Llythyrdy Caernarfon ac yn ddiweddarach symudodd i Lichfield, gan aros yno flwyddyn cyn ymuno â staff y Brif Swyddfa Bost ym Manceinion, a bu yno nes ymddeol o'r swydd o Arolygwr ym 1960. Cynrychiolodd yr Undeb mewn llawer cynhadledd, ac am beth amser etholwyd ef yn Ysgrifennydd a Rheolwr Clwb Cinio'r Llythyrdy. Bu am gyfnod yn gofalu am Fechgyn Negeseua'r Swyddfa Bost ym Manceinion ac 'roedd yn cael ei barchuymysg ei gyfoedion ymhob adran o'r Swyddfa. Yr oedd yn gyn-aelod o Glwb Cymraeg Manceinion ac Eglwys Bresbyteriaidd Moss Side, ond ar ôl symud i fyw i Timperley aeth yn aelod i Eglwys yr Annibynwyr Heyes Lane, lle'r etholwyd ef yn flaenor. Yr oedd ei ardal enedigol yn agos iawn at ei galon ac felly hefyd bopeth Cymreig a Chymraeg, ac edrychai ymlaen yn eiddgar bob mis am ei gopi o Eco'r Wyddfa. Gedy weddw, Gwen, ac hefyd frawd a chwaer, Mr Emlyn Davies a Miss Annie Davies, sydd yn dal i fyw ym Modwyn. Bu'r angladd yn Amlogsgfa Altrincham dydd Mawrth, Gorffennaf 14. **MERCHED Y WAWR** - yn aildechrau Medi 24 - sgwrs gan Eira Lewis Roberts.

PETH O HWYL Y CARNIFAL



Rhai o'r plant ieuengaf yn aros am ddyfarniad y beirniad.



Brenhines y carnifal a'i morwyn.



"Rwy'n siŵr mai yn y Roial Welsh mae lle'r ddau yma!"

DRAENOG



LLONGYFARCHION I GŦR CAERNARFON AR EU BUDDUGOLIAETH YN Y GENEDLAETHOL - OND BETH DDIGWYDDODD I'R RHEOL GYMRAEG AR EU POSTERI UNIAITH SAESNEG.

W.J. GRIFFITH

**PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

**GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW**

GWRES BP



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

*Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.*

DYDDIADUR

MEDI 3, IAU: LLANRUG – Cymdeithas y Chwirydd, Capel Mawr.

Clwb y Mamau – noson o 'Moes a Phryn'

WAUNFAWR – Sefydliad y Merched Pwyllgor yr Urdd yn yr Ysgol Gynradd am 7.30

MEDI 4, GWENER: LLANBERIS – Te yr Henoed.

BETHEL – Y Dawnsyr Morris yn gorffen tymor gyda noson o Gyw lâr a Disgo yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

5, SADWRN: CWM-Y-GLO – Sioe Gwningod yn y Ganolfan Gymdeithasol – 1.30 p.m.

8, MAWRTH – CWM-Y-GLO – Noson Goffi Clwb Pobol y Cwm

DEINIOLLEN – Clwb Elidir

BETHEL – Gwibdaith Clwb Bro Bethel i Ddyffryn Conwy

LLANRUG – Merched y Wawr – Anerchiad gan Jane Edwards ar y testun 'Llenyddiaeth Ifanc'

9, MERCHER: WAUNFAWR – Tymor newydd yr Urdd yn dechrau yn yr Ysgol Gynradd o 6-7 o'r gloch

BETHEL – Merched y Wawr

11, GWENER: YR ARDAL – Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Dwylo'i Fyny' yng Nghlwb Penisarwaun

14, LLUN: WAUNFAWR – Bore Agored yn yr Ysgol Feithrin

17, IAU: LLANRUG – Helfa Drysor ar droed – dan nawdd y gangen leol o Blaid Cymru

18, GWENER: LLANBERIS – Te yr Henoed.

WAUNFAWR – Noson Goffi dan nawdd yr Urdd yn Neuadd yr Eglwys

19, SADWRN: YR ARDAL – Taith i ymweld â rhai safleoedd archaeolegol yn Arfon. Cychwyn ger

y Gors Bach a Llanddeiniolen am 12.30.

21, LLUN: WAUNFAWR – Dosbarth nos Cynganeddion yn yr Ysgol Gynradd am 7.00

LLANRUG – Dosbarth Archaeoleg dan nawdd WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00

22-26: Cwmni Theatr Cymru yn perfformio'r ffars 'Pont Robat' yn Theatr Gwynedd

24, IAU: LLANBERIS – Sefydliad y Merched – sgwrs gan Mrs Ann Griffiths o'r 'Citizen's Advice Bureau' WAUNFAWR – Merched y Wawr – sgwrs gan Eigra Lewis Roberts

MENYN CARTRE, OS GWELWCH YN DDA!

Dyna gri Mrs Jane Richards, Shamba, Penisarwaun. Mae Jane yn awyddus iawn i gysylltu ag unrhywun sydd yn dal i gorddi menynt cartre yn yr hen ffordd draddodiadol. Y rheswm am hyn yw am fod Jonathan, ei mab bach 3½ oed yn dioddef o Eczema, a chlywodd Jane gan gymydog fod menynt cartref yn beth da i gael gwared â'r briwiau a'r crach o'r croen. Bydd Jane yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth. Ei rhif ffôn yw Llanberis 725.

YSGOL FEITHRIN PENISARWAUN

Mae swyddogion yr Ysgol Feithrin yn gobeithio ailgychwyn yr ysgol yn ystod y mis. Cofiwch mai grŵp mam a phlentyn a gynhelir ar hyn o bryd, a bod crcso i blant o unrhyw oedran o dan oed ysgol. Ceir gwybodaeth ynglŷn â dyddiad ailagor gan y swyddogion sef:

Nant Roberts, Arwel, Llanberis 760;

Myfi Jones, Fanwylen, Llanberis 867;

Jean Roberts, 6 Bryn Eglwys, Llanberis 619; Mary Elliott, 3 Bryn

Eglwys, Penylllyn 438.

O GARNIFAL LLANBERIS



Canibal ifanc yn aros pryd!



Dyma beth ddigwyddodd i un o'r beirniaid ar ôl iddo ddyfarnu yn annheg!

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael:

£2 – Mrs Thomas, Tai'r Faenol, Deiniolen.

£1 – Mrs Jones, 1 Hafod Olau, Deiniolen; Di-enw, Deiniolen; Mr a Mrs John Roberts, 3 Bro Elidir, Dinorwig.

50c – Mrs Jones, 4 Y Bwthyn, Deiniolen.

£5 – Er cof am Mr Richard Davies, Timperley.

£2 – Mrs Megan Williams, Tanygeir.

TY AR WERTH

Tŷ tair llofft (un o bâr) gyda garej – ar werth ym Methel. Adeiladwyd 1966. Gardd yn y blaen a thu ôl. Am fanylion ffonier – Y Felinheli 670726.

AR WERTH

Beic Merch 10 i 14 oed. Beic Plentyn o 6 i 10 oed. Chopper a Beic Dyn.

Ffôn:

Portdinorwig 670861

Cwt newydd i gwnigen. Ffôn: Waunfawr 545.

THEATR GWYNEDD

THEATR CYMRU

yn cyflwyno

comedi afieithus awdur HYWEL A

(y gomedi a gyflwynwyd am wythnos o berfformiadau ychwanegol yn Theatr Gwynedd yn Hydref 79)

PONT ROBAT

gan Huw Roberts

gyda CEFIN ROBERTS, MAUREEN RHYS

ac actorion âdnabyddus eraill

nos Fawrth-Sadwrn, MEDI 22-26

7.30 seddau £2.50

(gostyngiadau o 50c i blant a phensiynwyr a 20c i bartion)

"Mae hi'n fwynhad pur" TOCYN WYTHNOS

"Slic ac effeithiol" HELO BOBOL

"Roedd graen arbennig ar y cynhyrchu"

Y CYMRO

ARCHEBWCH EICH TOCYNNAU NAWR!

BANGOR 51708

PONT ROBAT

Ffars newydd Huw Roberts

Bu chwerthin uchel a chanmol brwd eisoes i ffars newydd Huw Roberts, *Pont Robat*, drama-gymar i'w gomedi gofiadwy *Hywel A*. Wedi ei gweld yn yr Eisteddfod dywedodd John Roberts ar *Tocyn Wythnos* ei bod yn "fwynhad pur" gan ychwanegu "mae'n fwy digri na *Hywel A* a cheir mwy o rialtwch wrth i'r ddrama fynd yn ei blaen." Yn *Y Faner* dywedodd Gareth W. Jones ei bod "yn ddifyr ar y cyfan ac yn ddoniol iawn ar adegau . . . gall cynulleidfaoedd taith Theatr Cymru ddisgwyl noson ddifyr ysgafn."

Bwriadwyd *Pont Robat* fel "cyfle arall i gymeriadau stoc" a cheir ynddi lawer o'r un elfennau barodd fonllefau o chwerthin yn *Hywel A* ar eu newydd wedd. Nid yw'n gyfrinach bellach fod arch yn ganolbwynt eto i'r miri a'r hwy.

Y lleoliad y tro hwn yw hen westy a saif ar graig yn y môr gyda hen bont raffau yn unig gysylltiad â'r tir mawr. Profi ewyllys Robat, sylfaenydd y gwesty, a'r cysylltiad â Phatagonia yw'r prif blot ond daw lladron i lechu yn y gwesty i wneud y sefyllfa'n fwy doniol fyth.

Yn y cast mae Maureen Rhys, Wyn Bowen Harries, Islwyn Morris ac Ifan Huw Dafydd a ymddangosodd yn *Hywel A* a chyda hwy Cefin Roberts, Grey Evans, Gwen Ellis a Sian Wheldon. Y Cyfarwyddwr yw John Ogwen.

Perfformir *Pont Robat* yn Theatr Gwynedd Bangor (22-26 Medi).

CHWARAEON

RAS YR WYDDFA

Gwelwyd cynnydd sylweddol unwaith eto, yn nifer cystadleuwyr chweched Ras yr Wyddfa. Pleser mawr oedd gweld cymaint o lanciau a llancesau y fro yn dangos cymaint o ddiddordeb mewn rhedeg o'r fath. Cipiwyd y brif wobwr gan John Wild, cyn redwr traws gwlad rhyngwladol Lloegr mewn 1 awr 5 munud a 15 eiliad, gyda Gianni Rovedatti o'r Eidal yn ail. Ni lwyddwyd i dorri record anhygoel Ricky Wilde (1978) 1.04.28. Yn y gystadleuaeth i ferched sefydlwyd record newydd gan Ross Coats o'r Alban mewn 1.24.49 gyda Rosie Naish o glwb Eryri yn ail. Sefydlwyd record newydd yn y dosbarth lleol hefyd, gan Tegid Roberts o Lanllyfni (1.14.19) gyda Malcolm Jones, Tremadog yn ail ac Alan Hughes o Lanberis yn drydydd. Alan, gyda llaw, oedd y rhedwr cyntaf o fro'r Eco mewn amser o 1.17.45. Tipyn o gamp i ŵr a ddechreuodd ymarfer dim ond dwy flynedd yn ôl.

Yn adran yr ieuenctid, rhagorodd plant Eryri unwaith eto, gyda phedwar ohonynt yn sefydlu record newydd yn eu gwahanol ddosbarthiadau.

Jason Roberts (Llanberis) Dan 11 - 34.18 (Pont Hanner Ffordd)

Rhian Lewis (Deiniolen) Dan 11 - 53.08 (Hanner ffordd)

Garry Ellis (Caernarfon) Dan 16 - 38.23 (Hanner Ffordd)

Glyn Griffiths (Beddgelert) Dan 18 - 1.18.47 (Copa).

YR EIDALWYR

Un o ffrwyth llwyddiant Ras yr Wyddfa yw ei phoblogrwydd ar y Cyfandir. Fel y llynedd, daeth rhedwyr byd enwog o'r Eidal i gystadlu yn ras 1981. Daeth y rhedwyr hyn o Vatellina sydd yn dalaith ogleddol o'r wlad ac yn cynnwys mynyddoedd enwog yr Alpau. Prif ddinas yr ardal yw Sondrio sydd yn dref gyda phoblogaeth o 20,000 o bobl. Noddwyd y rhedwyr gan Fwrdd Twristiaid eu gwlad a chynnwys y grŵp chwech o redwyr a dau swyddog o Ffederasiwn Athletau'r Eidal. Ymhlith y rhedwyr oedd Steffan Lazzaron, pencampwr 1976 yr Eidal a Gianni Ravedatti, pencampwr 1979 a'r ffefryn i ennill pencampwriaeth 1981.

Treuliodd y parti bum niwrnod hapus yn yr ardal a gwnaed llawer o ffrindiau newydd er anhawster yr iaith. Cyflwynodd Llywydd Vatellina dlws prydferth oddi wrth faer Sondrio i'r Cynghorydd Brian Jones ar ran trigolion Llanberis. Yr oedd y cyflwyniad i Brian yn addas dros ben gan iddo gymryd rhan yn y ras am y tro cyntaf erioed. Dymuna trefnyddion Ras yr Wyddfa ddiolch i'r canlynol am eu cymorth gyda llety a chludiant yn ystod ymweliad yr Eidalwyr. Mr a Mrs John Davies, Modurdy'r Wyddfa, Mr a Mrs Meirion Thomas, Ffordd Tŷ Du, Cabs Padarn a Gwesty'r Fictoria.

DECHRAU TYMOR PÊL-DROED ARALL

Oherwydd fod y tymor yn hwyr yn cychwyn eleni, 'does fawr ddim wedi digwydd ar ein caeau pêl-droed eto. Cawn adroddiad llawnach y mis nesaf. Er hynny, 'roedd hi'n dipyn o sioc gweld Llanberis, y pencampwr, yn colli eu gêm gyntaf yn y Gynghrair.

Colli o 5-1 fu hanes Llanberis yn y Felinheli; William Giles, chwaraewr newydd y D'Darans' yn sgorio'u hunig gôl. Y Sadwrn cynt, ad-enillodd Llanberis Darian Marconi drwy guro Llangefni 7-2. Y golled fwyaf iddynt y tymor hwn fydd gorfod byw heb Ray Harding ac Iwan Evans sydd wedi arwyddo i dim tref Caernarfon.

Agorodd Llanrug eu tymor drwy ennill gartref o 4-3 yn erbyn Porthmadog.

Hefin Pritchard, a enillodd y tlws am Chwaraewr y Tymor, yn y Gynghrair y llynedd, yn dechrau'n dda eto'r tro hwn ac yn sgorio tair gôl.

Nid oedd Bethel yn chwarae ar y Sadwrn cyntaf, ond erbyn i'r papur eich cyrraedd, byddant wedi chwarae eu gêm gyntaf yn Llanrug.

Gwrthododd Llanberis a Llanrug y gwahoddiad i chwarae yng Nghwpan Baritt eleni - o bosibl fod costau teithio'r gystadleuaeth wedi bod yn rhannol gyfrifol am eu penderfyniad. Mae un cwpan yn llai i gystadlu amdani eleni. Diddymwyd hen gwpan amatur Gogledd Cymru, ac felly, yr unig gwpan y gellir ei hennill o'r tu allan i Gynghrair Arfon y tymor hwn yw'r Gwpan Iau - ac y mae Llanrug a Llanberis yn hen lawia' ar ennill honno.



Jason Roberts, Llanberis. Dan 11 oed.



Brian Jones a Llywydd Vatellina, Mr Bruno Gianatti.

PWY YW AELODAU'R TÎM HWN?



'Y DARANS' - Wrth droi a throsi rhyw hen luniau daeth Owen E. Jones, Llâinwen o hyd i'r llun yma o dîm pêl-droed Llanberis. Bu'n holi hwn ac arall am ddyddiad y llun, a chafwyd y wybodaeth mai 1933-1934 oedd y flwyddyn, ac roedd y bechgyn wedi cael tri neu bedwar tymor llwyddiannus iawn yn ennill y 'Junior Cup' bob tymor. Mae mwy na hanner y bechgyn a welir yn y llun wedi ein gadael erbyn hyn. Carai O.E. Jones gael ychwaneg o wybodaeth gan unrhyw un sydd â chysylltiad â'r unigolion a welir yn y llun.



Alan Hughes, Llanberis - enillodd ras agored y Cnicht, fis Awst.



Rhian Lewis, Deiniolen. Enillodd yn y dosbarth i enethod o 12-14 oed.